Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 65/2014

# Gwerthusiad o Brosiect Peilot ar Hawliau Pobl Ifanc i Apelio a Hawlio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

## Adroddiad terfynol

# Gwerthusiad o Brosiect Peilot ar Hawliau Pobl Ifanc i Apelio a Hawlio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru


## Dr Duncan Holtom gyda Dr Sarah Lloyd-Jones a Jack Watkins

## Yr Uned Pobl a Gwaith


Safbwyntiau'r ymchwilydd sydd yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru


Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
David Roberts
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
Ffôn: 0300 062 5485
E-bost: david.roberts@wales.gsi.gov.uk



Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru
978-1-4734-1536-2


Hawlfraint y Goron 2014

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ........ 7

Crynodeb o'r canfyddiadau o'r adolygiad o lenyddiaeth ........ 8

Astudiaethau achos: y prosiectau yn Sir Gaerfyrddin a Wrecsam ........ 8

Tabl 1. Crynodeb o ofynion y Mesur a dulliau gweithredu Sir Gaerfyrddin a Wrecsam ..... 10

1. Cyflwyniad ........ 21

2. Y Cyd-destun ar gyfer y Prosiect Peilot ........ 22

Tabl 2. Nifer yr apeliadau i TAAAC fesul ardal awdurdod lleol, 2011-12 a 2012-13 ........ 25

3. Nodau ac amcanion yr astudiaeth ........ 30

4. Ymagwedd a dulliau ........ 31

5. Effeithiolrwydd mentrau wrth alluogi plant a phobl ifanc agored i niwed i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt: Crynodeb o'r canfyddiadau o'r adolygiad o lenyddiaeth ........ 36

6. Astudiaethau achos: y prosiectau yn Sir Gaerfyrddin a Wrecsam ........ 40

Tabl 3. Nifer yr asesiadau, fesul awdurdod lleol ........ 41

Tabl 4. Nifer y Disgyblion sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig, Sir Gaerfyrddin a Wrecsam ........ 41

Tabl 5. Disgyblion sydd â datganiadau, fesul grŵp oedran ac awdurdod lleol (Ionawr 2013) ........ 41

7. Canfyddiadau allweddol o'r prosiectau peilot ........ 54

8. Effaith gweithwyr cymorth i deuluoedd ADY ........ 81

Tabl 6. Achosion neu sbardunau ar gyfer anghytuno ac apelio i TAAAC: Enghreifftiau o safbwynt awdurdod lleol, ysgol a rhieni ........ 84

Tabl 7. Enghreifftiau o anghenion rhieni ........ 88

9. Arolwg o awdurdodau lleol i asesu eu hymwybyddiaeth o oblygiadau Mesur Addysg (Cymru) ac ymestyn hawliau plant a phobl ifanc i apelio ........ 90

Tabl 8: Dealltwriaeth awdurdodau lleol o hawl plant a phobl ifanc i apelio a hawlio (cyfanswm nifer yr ymatebion=15) ........ 92

Tabl 9: Dealltwriaeth awdurdodau lleol o'u dyletswyddau i blant a phobl ifanc ........ 93

(Cyfanswm nifer yr ymatebion =15) ........ 93

10. Casgliadau ........ 96

Llyfryddiaeth ........ 102

Atodiad 1. Rhestr o gwestiynau ymchwil ........ 106

Tabl 10. Cwestiynau ymchwil sy'n ymwneud â gweithredu a nodiadau ar y dull a ddilynwyd i'w hateb ........ 106

Tabl 11. Cwestiynau ymchwil sy'n ymwneud â chostau a nodiadau ar y dull a ddilynwyd i'w hateb ..... 106
Tabl 12. Cwestiynau ymchwil sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd a nodiadau ar y dull a ddilynwyd i'w hateb ..... 107
Tabl 13. Cwestiynau ymchwil sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd a nodiadau ar y dull a ddilynwyd i'w hateb ..... 107
Tabl 14. Cwestiynau ymchwil sy'n ymwneud â gweithredu a nodiadau ar y dull a ddilynwyd i'w hateb ..... 110
Atodiad 2. Yr adolygiad o lenyddiaeth ..... 111
Meini prawf cynnwys ac eithrio ..... 112
Tabl 15. Meini prawf ar gyfer barnu ansawdd methodolegol ..... 113
Atodiad 3. Canlyniadau o chwiliadau ..... 115
Tabl 16. Canlyniadau o chwiliadau ..... 115

# Tablau

Tabl 1. Crynodeb o ofynion y Mesur a dulliau gweithredu Sir Gaerfyrddin a Wrecsam .... 10
Tabl 2. Nifer yr apeliadau i TAAAC fesul ardal awdurdod lleol ........................................ 25
Tabl 3. Nifer yr asesiadau fesul awdurdod lleol............................................................... 41
Tabl 4. Nifer y Disgyblion sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig, Sir Gaerfyrddin a Wrecsam ........................................................................................................................ 41
Tabl 5. Disgyblion sydd â datganiadau, fesul grŵp oedran ac awdurdod lleol................. 41
Tabl 6. Achosion neu sbardunau ar gyfer anghytuno ac apelio i TAAAC ......................... 84
Tabl 7. Enghreifftiau o anghenion rhieni ........................................................................... 88
Tabl 8. Dealltwriaeth awdurdodau lleol o hawl plant a phobl ifanc i apelio a hawlio ......... 92
Tabl 9. Dealltwriaeth awdurdodau lleol o'u dyletswyddau i blant a phobl ifanc................. 93
Tabl 10. Cwestiynau ymchwil sy'n ymwneud â gweithredu ........................................ 106
Tabl 11. Cwestiynau ymchwil sy'n ymwneud â chost.................................................... 106
Tabl 12. Cwestiynau ymchwil sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd................................... 107
Tabl 13. Cwestiynau ymchwil sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd.................................... 107
Tabl 14. Cwestiynau ymchwil sy'n ymwneud â gweithredu ........................................ 110
Tabl 15. Meini prawf ar gyfer barnu ansawdd methodolegol .......................................... 113
Tabl 16. Canlyniadau o chwiliadau ................................................................................ 115

## Acronymau

| | |
|---|---|
| AAA | - Anghenion Addysgol Arbennig |
| ABCh | - Addysg Bersonol a Chymdeithasol |
| ADY | - Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| ARP | - Prosiect Ymchwil Weithredu |
| CAMHS | - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| CCC | - Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| CCUHP | - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn |
| Cydlynydd AAA | - Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig |
| DDA | - Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd |
| DWP | - Adran Gwaith a Phensiynau |
| EHRC | - Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| LlCC | - Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| NYAS | - Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol |
| SALT | - Therapi Lleferydd ac Iaith |
| TAAAC | - Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru |
| UDRh | - Uwch Dîm Rheoli |

# Crynodeb Gweithredol

## Mesur Addysg (Cymru) 2009 a'r prosiectau peilot

Mae Mesur Addysg (Cymru) 2009 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Mesur") yn ymestyn yr hawl bresennol sydd gan rieni a gofalwyr i wneud apêl neu hawliad i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) i blant a phobl ifanc. Mae'r Mesur hefyd yn gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol, mewn perthynas â darparu gwybodaeth a chyngor am yr hawliau newydd; datrys anghydfodau; a darparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol.

Mae'r broses o gyflwyno hawliau newydd i blant a phobl ifanc, a dyletswyddau ar awdurdodau lleol, yn cael ei threialu mewn dwy ardal -. Sir Gaerfyrddin a Wrecsam - rhwng 2012 a 2015. Diben y prosiectau peilot yw llywio'r broses o gyflwyno'r Mesur ledled Cymru.

## Gwerthusiad o'r prosiectau peilot

Roedd yn ofynnol i'r gwerthusiad o'r prosiectau peilot asesu:

- a oedd yr awdurdodau sydd ynghlwm wrth y prosiect peilot wedi gweithredu'r darpariaethau a nodir yn y Mesur
- a oedd y darpariaethau yn y Mesur wedi'u gweithredu'n ddarbodus
- pa mor effeithlon y cafodd y darpariaethau yn y Mesur eu gweithredu gan yr awdurdodau yma
- pa mor effeithiol y cafodd y darpariaethau yn y Mesur eu gweithredu gan yr awdurdodau yma

Mabwysiadwyd methodoleg ymchwil weithredu i ateb y cwestiynau hyn. Roedd hyn yn golygu gweithio gyda'r prosiectau peilot i:

- drafod y cwestiynau ymchwil a nodi ar y cyd sut y gellid eu hateb (e.e. nodi pa ddata oedd ei angen a sut y gellid ei gasglu);

- sicrhau bod data yn cael ei gasglu er mwyn helpu i ateb y cwestiynau;
- dadansoddi'r data ar y cyd, er mwyn llywio (a newid) ymarfer a nodi lle'r oedd angen ymchwil bellach.

Cafodd yr ymchwil weithredu gyda'r prosiectau peilot ei hategu gan:

- adolygiad o lenyddiaeth i nodi mentrau yn y DU ac yn rhyngwladol sy'n ymestyn hawliau plant a phobl ifanc gyda'r nod o gynyddu eu cyfranogiad mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- ymchwil gyda theuluoedd yn Sir Gaerfyrddin sy'n cael eu cefnogi gan weithiwr cymorth i deuluoedd ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY), er mwyn helpu i nodi effaith y prosiect peilot a'r gweithiwr;
- arolwg o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru nad ydynt yn cymryd rhan yn y prosiect peilot i asesu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ofynion y Mesur a'u parodrwydd i fodloni'r gofynion hyn.

**Crynodeb o'r canfyddiadau o'r adolygiad o lenyddiaeth**

Dangosodd yr adolygiad o lenyddiaeth fod cefnogaeth gref i'r egwyddor o ymestyn hawliau plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ond dim ond tystiolaeth gyfyngedig a gafwyd o hyn yn digwydd yn ymarferol. Yn y rhan fwyaf o achosion, cafodd cyfranogiad plant a phobl ifanc ei hyrwyddo drwy rwymedigaethau neu ddyletswyddau, a osodir ar oedolion, i ymgynghori â phlant a phobl ifanc, yn hytrach na thrwy ymestyn hawliau plant neu bobl ifanc.  Yn sgîl y dull hwn, bu cyfranogiad plant a phobl ifanc yn gyfyngedig yn ymarferol. Am y rheswm hwn, bu'r adolygiad o lenyddiaeth yn edrych ar ba wersi y gellir eu dysgu o feysydd eraill. Mae'r rhain yn cynnwys, yn benodol, profiadau oedolion o apelio i dribiwnlysoedd ac achosion cyfreithiol sy'n ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc i gydsynio i driniaeth feddygol neu i'w gwrthod.

**Astudiaethau achos: y prosiectau yn Sir Gaerfyrddin a Wrecsam**

Roedd gweithredu’r mesur yn golygu ei bod yn ofynnol i bob un o'r prosiectau peilot: cyfathrebu hawliau i apelio ac i wneud hawliad i TAAAC i blant a phobl ifanc; sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i ddeall ac arfer yr hawliau hynny; a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad i wasanaethau a allai eu helpu i arfer eu hawliau, fel gwasanaethau eiriolaeth. Roedd rhai gwahaniaethau pwysig yn y ffordd y cyflawnodd yr awdurdodau sydd ynghlwm wrth y prosiect peilot y gofynion hyn fel yr amlinellir yn llawnach yn Nhabl 1. Yn benodol:

- Mabwysiadodd Wrecsam fodel a oedd yn "gwasgaru" dyletswyddau, lle roedd gweithwyr proffesiynol, fel athrawon a Chydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig (Cydlynwyr AAA), yn ymgymryd â llawer o'r cyfrifoldeb am hysbysu plant a phobl ifanc ynglŷn â'u hawliau a chefnogi eu penderfyniadau. Mabwysiadodd Sir Gaerfyrddin fodel mwy canolog, gan greu rôl newydd, sef gweithiwr cymorth i deuluoedd ADY, a oedd yn golygu gweithio gyda theuluoedd i sicrhau eu bod yn deall yr hawliau i apelio neu wneud hawliad i TAAAC ac, os oeddent yn dymuno, eu cefnogi i arfer yr hawliau hynny;
- Canolbwyntiodd Sir Gaerfyrddin ar hawliau yng nghyd-destun teulu, ar y sail y byddai’r teulu, ym mron pob achos, yn gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid arfer hawliau. Mewn cyferbyniad, canolbwyntiodd Wrecsam ar hawliau plant a phobl ifanc fel hawliau sydd ar wahân i hawliau rhieni a gofalwyr ond sydd hefyd yn gyfartal â nhw.

**Tabl 1. Crynodeb o ofynion y Mesur a dulliau gweithredu Sir Gaerfyrddin a Wrecsam**

| **Gofynion y Mesur** | **Dull a fabwysiadwyd yn Sir Gaerfyrddin** | **Dull a fabwysiadwyd yn Wrecsam** |
|---|---|---|
| Rhoi gwybod i blant am eu hawl i apelio | **Cyfathrebu â phlant a phobl ifanc** drwy'r canlynol:<br>- sefydlu rôl newydd, sef gweithiwr cymorth i deuluoedd ADY, sy'n anelu at weithio gyda phob teulu sy'n mynd trwy'r broses asesu statudol, gan egluro eu hawliau (h.y. hawliau rhieni/gofalwyr a phlant);<br>- rhoi cyfrifoldeb i gydlynwyr AAA/ADY am sicrhau bod plant neu bobl ifanc sydd eisoes â datganiad AAA yn deall eu hawliau, naill ai drwy waith 'Hawliau Plant' gyda grwpiau o ddisgyblion neu ar sail unigol (e.e. drwy gyfarfod adolygu blynyddol);<br>- datblygu dealltwriaeth o hawliau plant drwy'r cwricwlwm ABCh;<br>- darparu taflenni a phosteri i ysgolion eu harddangos (mae hyn yn canolbwyntio yn arbennig ar godi ymwybyddiaeth o hawliau i wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd);<br>- peidio â darparu llenyddiaeth am hawliau i apelio i blant yn eu "plentyndod cynnar" â , gan nad yw'n briodol gwneud hynny, ac addasu'r dull cyfathrebu i anghenion y plentyn neu'r person ifanc. E.e. mewn rhai achosion, bydd y canolbwynt ar sicrhau bod plentyn neu berson ifanc yn | **Cyfathrebu â phlant a phobl ifanc** drwy'r canlynol:<br>- defnyddio'r un prosesau â'r rhai ar gyfer oedolion o ran amseru (e.e. ysgrifennu at blant a phobl ifanc ar yr un pryd ag y mae'r ALl yn ysgrifennu at rieni neu ofalwyr, i roi gwybod iddynt am eu hawliau);<br>- darparu cymorth ychwanegol i blant a phobl ifanc (e.e. gofyn i ffrindiau achos[1]- fynd drwy'r llythyr a'i egluro i blant a phobl ifanc);<br>- datblygu dealltwriaeth o hawliau drwy, er enghraifft, gysylltiadau ag wythnos cydraddoldeb (mae hyn yn canolbwyntio yn arbennig ar godi ymwybyddiaeth o hawliau i wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd);<br>- darparu taflenni a phosteri i ysgolion eu harddangos (mae hyn yn canolbwyntio yn arbennig ar godi ymwybyddiaeth o hawliau i wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd);<br>- gweithwyr proffesiynol a rhieni yn cytuno pan na all plentyn gymryd rhan yn y broses (e.e. oherwydd oedran a/neu gymhlethdod o ran angen) ac felly mae'n amhriodol egluro eu hawliau iddynt. |

[1] Caiff cyfaill achos ei nodi a'i bennu i bob person ifanc sy'n mynd drwy'r broses asesu statudol. Gall y cyfaill achos helpu i esbonio hawliau'r plentyn neu'r person ifanc iddynt.

| | | |
|---|---|---|
| | deall os oes rhywbeth sydd yn bwysig iddynt, ac nid yw'n cael ei ddarparu, gallant fynd at rywun am gymorth, hyd yn oed os nad yw eu hawliau penodol i apelio i TAAAC yn cael eu hegluro. | |
| | **Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant yn ymwybodol o hawliau plant i apelio/gwneud hawliad ac yn deall yr hawliau hyn, ac o ran eu goblygiadau ar gyfer eu harfer eu hunain**, drwy'r canlynol:<br>- digwyddiadau hyfforddi sy'n ymwneud â hawliau plant ar gyfer ysgolion (a ddarperir gan Dynamix);<br>- codi ymwybyddiaeth gyda grwpiau eraill o weithwyr proffesiynol (e.e. Cydlynwyr AAA, y tîm pontio, tîm anabledd plant, a'r gwasanaeth ieuenctid);<br>- anfon pecynnau gwybodaeth i ysgolion a gwasanaethau eraill;<br>- "cyfeirio" gweithwyr proffesiynol i'r gweithdrefnau apêl neu hawliadau (Ar wefan TAAAC) os oes angen. | **Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant yn ymwybodol o hawliau plant i apelio/gwneud hawliad ac yn deall yr hawliau hyn, ac o ran eu goblygiadau ar gyfer eu harfer eu hunain**, drwy'r canlynol:<br>- digwyddiadau hyfforddi ar gyfer lleoliadau dysgu (e.e. ysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion, blynyddoedd cynnar) a gwasanaethau (e.e. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHs) a Therapi Lleferydd ac Iaith (SALT ));<br>- codi ymwybyddiaeth gyda grwpiau eraill o weithwyr proffesiynol, e.e. mynychu fforymau cydlynwyr AAA a chyfarfodydd UDRh;<br>- anfon pecynnau gwybodaeth i ysgolion;<br>- ymgorffori gofynion y Mesur mewn hyfforddiant ar gyfer staff ysgol sy'n cymryd rhan mewn adolygiadau blynyddol a chynllunio ar gyfer trosglwyddo;<br>- "cyfeirio" gweithwyr proffesiynol i'r gweithdrefnau apêl neu hawliadau (Ar wefan TAAAC) os oes angen. |
| Gwneud trefniadau ar gyfer hawl plant i gael mynediad i Wasanaethau | **Ad-drefnu Gwasanaethau Partneriaeth a Datrys Anghytundebau presennol** (er mwyn iddynt allu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc yn ogystal â rhieni neu ofalwyr) drwy'r canlynol:<br>- sicrhau bod gwasanaethau presennol yn canolbwyntio ar y teulu (yn hytrach na rhieni); | **Ad-drefnu Gwasanaethau Partneriaeth a Datrys Anghytundebau presennol** (er mwyn iddynt allu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc yn ogystal â rhieni neu ofalwyr) drwy'r canlynol:<br>- sicrhau bod SNAP Cymru (a oedd yn darparu gwasanaethau ar gyfer rhieni) yn darparu gwasanaeth i blant; a |

| | | |
|---|---|---|
| Partneriaeth a Datrys Anghytundebau a rhoi gwybod i blant am hyn | - sefydlu rôl newydd, sef gweithiwr cymorth i deuluoedd ADY, sy'n gallu cefnogi teuluoedd a helpu i ddatrys anghydfodau heb droi at wasanaethau datrys anghydfodau.<br>• **Rhoi gwybod i blant yn uniongyrchol am eu hawliau i wasanaethau:**<br>- Fel yr uchod - yn rhan o'r broses o egluro hawliau<br>• **Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant yn ymwybodol o hawliau plant i gael mynediad i wasanaethau ac yn deall yr hawliau hyn:**<br>- Fel yr uchod - rhan o hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth gyda gweithwyr proffesiynol. | - cynnal gwahaniaeth clir rhwng gwasanaethau ar gyfer plant a gwasanaethau ar gyfer rhieni.<br>• **Rhoi gwybod i blant yn uniongyrchol am eu hawliau i wasanaethau:**<br>- Fel yr uchod - yn rhan o'r broses o egluro hawliau<br>• **Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant yn ymwybodol o hawliau plant i gael mynediad i wasanaethau ac yn deall yr hawliau hyn:**<br>- Fel yr uchod - rhan o hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth gyda gweithwyr proffesiynol. |
| Darparu mynediad i wasanaethau eiriolaeth a chefnogaeth annibynnol[2] | • **Rhoi gwybod i blant yn uniongyrchol am eu hawliau i wasanaethau:**<br>- rhan o'r broses o egluro hawliau<br>• **Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant yn ymwybodol o hawliau plant i gael mynediad i wasanaethau ac yn deall yr hawliau hyn:**<br>- rhan o hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth gyda gweithwyr proffesiynol.<br>• **Sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth presennol yn ddigonol** drwy:<br>- adolygu gwasanaethau eiriolaeth presennol<br>• **Darparu cymorth i ffrindiau achos**, os oes angen; a | • **Rhoi gwybod i blant yn uniongyrchol am eu hawliau i wasanaethau:**<br>- rhan o'r broses o egluro hawliau<br>• **Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant yn ymwybodol o hawliau plant i gael mynediad i wasanaethau ac yn deall yr hawliau hyn:**<br>- rhan o hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth gyda gweithwyr proffesiynol.<br>• **Sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth presennol yn ddigonol** drwy:<br>- Weithio gyda "Second Voice" i ymestyn eu gwasanaeth eiriolaeth presennol |

[2] Dim ond mynediad i wasanaethau eiriolaeth sy'n ofynnol gan y Mesur. Fodd bynnag, mae'r ddau brosiect peilot wedi datblygu strwythurau cymorth ychwanegol sy'n ategu'r rhain (h.y. y gweithiwr Cymorth i deuluoedd ADY a chyfeillion achos).

| | | |
|---|---|---|
| | • **Sefydlu rôl newydd, sef gweithiwr cymorth i deuluoedd ADY**, a all gefnogi teuluoedd i wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid arfer hawliau i hawlio neu apelio. | • **Darparu cymorth i ffrindiau achos:**<br>- darparu pecyn briffio i ffrindiau achos;<br>- sicrhau gall plant a phobl ifanc siarad gyda naill ai cyfaill achos neu weithiwr allweddol am eu hawliau i apelio neu i wneud hawliad |

**Gweithredu'r Mesur gan y prosiectau peilot**

Ym mhob un o'r ddwy ardal beilot (Sir Gaerfyrddin a Wrecsam), cafodd y broses o weithredu'r darpariaethau yn y Mesur ei harwain gan dimau cymharol fach o fewn adrannau cynhwysiant yr awdurdod lleol. Yn y ddwy ardal, er mwyn llywio datblygiad y prosiectau peilot, cafodd cyfranogiad rhanddeiliaid ei bwysoli tuag at blant a phobl ifanc, gan ganolbwyntio'n arbennig ar gyfathrebu'r hawliau.

**Cost y prosiectau peilot**

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer pedair blynedd y prosiect peilot ym mhob awdurdod lleol oedd £81,250. Mae'r prif gostau yn ymwneud â:

- sefydlu neu ddechrau'r prosiect peilot (costau cychwyn), fel ymgynghori â rhanddeiliaid, adolygu prosesau presennol a datblygu prosesau a hyfforddiant newydd i weithwyr proffesiynol;
- rhedeg neu weithredu'r prosiect peilot (costau gweithredol), fel costau monitro a rheoli'r prosiectau ac, yn Sir Gaerfyrddin, gostau'r gweithiwr cymorth i deuluoedd ADY.

Gan mai dim ond un hawliad a wnaed, a dim un apêl, roedd costau canlyniadol ychwanegol gweithredu'r mesur yn gymharol fach .

Y dull a ddefnyddiwyd gan Sir Gaerfyrddin a Wrecsam oedd:

- defnyddio strwythurau a phrosesau presennol lle bo'n bosibl;
- ymestyn a datblygu gwasanaethau presennol lle bo angen;
- datblygu gwasanaethau newydd lle bo angen.

Mae'r dull hwn wedi lleihau'r risg o ddyblygu ac aneffeithlonrwydd. Mae'r cwmpas ar gyfer arbedion costau, felly, yn cael ei gyfyngu i raddau helaeth i leihau graddau'r gweithgarwch (yn hytrach na gwneud pethau'n fwy effeithlon).

O ystyried gwaith y prosiectau peilot, mae'n rhesymol credu na fydd disgwyl i awdurdodau lleol eraill, a fydd yn gweithredu gofynion y Mesur, fuddsoddi cymaint yn y gwaith o ddatblygu systemau a phrosesau newydd fel y gwnaeth y prosiectau peilot. Serch hynny, bydd dal angen adolygu systemau a phrosesau presennol ac asesu pa elfennau o'r dulliau a ddatblygwyd gan y ddau brosiect peilot y dylid eu mabwysiadu, ac asesu os oes angen iddynt gael eu haddasu.

**Effeithiolrwydd y prosiectau peilot**

Ystyriodd yr astudiaeth effeithiolrwydd y dulliau a ddefnyddiwyd gan y cynlluniau peilot i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall eu hawliau i wneud apêl neu hawliad i TAAAC; bod gweithwyr proffesiynol yn deall goblygiadau'r Mesur; a bod y strwythurau cymorth ar waith ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae'r ddau awdurdod lleol wedi defnyddio nifer o ddulliau i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau i apelio ac i wneud hawliad i TAAAC ac yn deall yr hawliau hyn. Dywedodd y ddau awdurdod lleol y bu cyfathrebu hawliau i blant ifanc a/neu blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, yn her sylweddol.

Cafodd y dulliau o gyfathrebu a fabwysiadwyd gan bob awdurdod lleol eu llywio gan broses o ymgynghori â phlant a phobl ifanc o wahanol oedrannau ac anghenion, mewn gwahanol fathau o leoliad dysgu. Mae'r ddau wedi defnyddio deunydd ysgrifenedig ac wedi egluro'r hawliau ar lafar i blant a phobl ifanc i ryw raddau. Fodd bynnag, mae Wrecsam wedi rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio deunyddiau ysgrifenedig a Sir Gaerfyrddin wedi rhoi mwy o bwyslais ar gyfathrebu llafar. Mae'r ddau brosiect peilot yn adrodd y bu eu dull yn effeithiol a bu’r hyblygrwydd i addasu dulliau i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc unigol yn hanfodol.

Mae'n debygol y bu’r strategaethau i godi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o'u hawl i wneud hawliad yn llai effeithiol na strategaethau i godi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o'u hawl i apelio i TAAAC. Mae hyn oherwydd:

- cafodd y strategaethau i godi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o’u hawliau i wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd i TAAAC eu datblygu yn hwyrach

na'r strategaethau i godi ymwybyddiaeth o hawliau i apelio i TAAAC mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig;

- ei bod yn gymharol hawdd nodi a thargedu plant a phobl ifanc sydd â hawl i apelio i TAAAC, oherwydd byddant yn rhan o'r prosesau asesu a datganiad statudol, ac felly byddant yn hysbys i'r ysgolion a'r awdurdod lleol. Mewn cyferbyniad, ni fydd pob disgybl ag anabledd yn hysbys i ysgolion neu'r awdurdod lleol. At hynny, gallai'r dulliau a oedd yn nodi disgyblion fel rhai sydd â hawl i wneud hawliad hefyd dynnu sylw at eu hanabledd. O ganlyniad, mae'n fwy anodd targedu plant a phobl ifanc sydd â hawl i wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd yn uniongyrchol, na thargedu plant sydd â'r hawl i wneud apêl yn uniongyrchol.

Mae'r dystiolaeth yn dangos i ba raddau y cafodd yr hyfforddiant a'r broses o godi ymwybyddiaeth eu darparu i bob gweithiwr proffesiynol. Ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth yn gymysg ond yn gwella. Bu'r adborth a gasglwyd ar ôl digwyddiadau hyfforddi yn Sir Gaerfyrddin a Wrecsam yn gyson gadarnhaol ac yn nodi bod gweithwyr proffesiynol yn deall yr hawliau a'u goblygiadau o ganlyniad i'r hyfforddiant. Fodd bynnag, roedd angen hyfforddiant dilynol yn Sir Gaerfyrddin a Wrecsam er mwyn sicrhau bod rhai gweithwyr proffesiynol allweddol a gollodd yr hyfforddiant cychwynnol yn cymryd rhan.

Mae pob un o'r ardaloedd peilot wedi sefydlu strwythurau cymorth sy'n ategu gwasanaethau eiriolaeth: yn Sir Gaerfyrddin caiff y cymorth ei ddarparu gan y gweithiwr cymorth i deuluoedd ADY, ac yn Wrecsam, gan gyfeillion achos. Mae'r strwythurau yma yn effeithiol yn ôl y prosiectau peilot. Fodd bynnag, mae problemau posibl gan y ddau strwythur: gallai'r model gweithiwr cymorth i deuluoedd fod yn anodd i'w gynnal os bydd rhieni yn dewis peidio â chymryd rhan neu os byddant yn anghytuno â'u plentyn, ac mae'r model cyfaill achos yn codi'r posibilrwydd o wrthdaro buddiannau rhwng y plentyn neu'r person ifanc a'r lleoliad sy'n dewis y cyfaill achos. Nid oes unrhyw blentyn neu berson ifanc wedi manteisio ar wasanaethau eiriolaeth neu ddatrys anghydfodau a sefydlwyd fel rhan o'r prosiectau peilot.

**Yr effaith ar les plant a phobl ifanc**

Yn ôl y prosiectau peilot cafodd y broses o weithredu gofynion y Mesur effaith gadarnhaol ar les plant a phobl ifanc. Mae'r rhan fwyaf o'r effeithiau canfyddedig yn ymwneud yn bennaf â'r pwyslais a roddodd pob peilot ar wella llais plant a phobl ifanc a'u gallu i gymryd rhan yn y broses asesu statudol, yn hytrach na'r hawl i apelio neu wneud hawliad ei hun. Mae'r farn hon yn gyson â thystiolaeth o astudiaethau eraill sy'n dangos y gall ymestyn cyfranogiad plant a phobl ifanc gael effaith gadarnhaol ar eu lles.

Hyd yma, dim ond un achos, hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd, sydd wedi cael ei ddwyn gan blentyn, a dewisodd ef/hi a'r teulu beidio â chymryd rhan yn yr astudiaeth. Felly, ni all yr astudiaeth roi sylwadau ar gwestiynau am brofiadau plant a phobl ifanc a gyflwynodd hawliad neu apêl.

**Y rhesymau posibl sydd gan blant a phobl ifanc dros beidio â gwneud apêl i hawlio i TAAAC**

Mae nifer o resymau strwythurol am y ffaith bod cyfanswm nifer y plant a phobl ifanc a allai arfer eu hawliau yn gymharol fach:

- dim ond cyfran o'r holl blant a phobl ifanc sydd â hawl i apelio fyddai'n gallu deall ac arfer eu hawliau (er enghraifft, efallai na fyddai plant ifanc iawn a/neu'r rhai sydd ag anawsterau dysgu dwys yn gallu deall nac arfer eu hawliau);
- mae'r hawliau i apelio yn gyfyngedig ac yn cael eu "pwysoli" tuag at ddechrau'r broses, ac unwaith y mae datganiad AAA yn cael ei roi, oni bai ei fod yn cael ei newid, mae llai o hawliau i apelio. Mae hyn yn bwysig, gan fod y rhan fwyaf o blant yn ymuno â'r broses asesu statudol yn ifanc, ac felly yn aml nid ydynt yn gallu deall eu hawliau yn llawn nac yn gallu eu harfer;
- mae nifer y plant a phobl ifanc sy'n mynd drwy'r broses asesu statudol yn gostwng.

Yn ogystal, mae'n debygol y bydd nifer o resymau gan blant a phobl ifanc a allai apelio ddewis peidio â gwneud hynny. Mae'r rhain yn cynnwys:

- boddhad gydag asesiad a darpariaeth;
- “costau” emosiynol neu’r gofynion sydd ynghlwm wrth wneud apêl;
- yr opsiwn parhaus o rieni neu ofalwyr yn arfer eu hawl i apelio.

Mae'r sefyllfa mewn perthynas â hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd yn fwy cymhleth. Mae rhai o'r rhesymau a amlinellwyd uchod yn berthnasol. Fodd bynnag, nid yw hawliau i wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau â hawliau i apelio i TAAAC mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig. Mae hefyd yn drawiadol bod nifer yr hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd (gan rieni a gofalwyr) yn sylweddol is na chyfraddau apelio i TAAAC. Gall hyn olygu nad yw teuluoedd yn gweld nac yn cydnabod arferion fel rhai gwahaniaethol a/neu nad ydynt yn deall eu hawliau yn llawn.

**Effaith gweithwyr cymorth i deuluoedd**

Defnyddiodd Sir Gaerfyrddin, sydd â nifer cymharol uchel o apeliadau i TAAAC (gan rieni neu ofalwyr) yn hanesyddol, y prosiect i helpu i ddatblygu rôl newydd, sef gweithiwr cymorth i deuluoedd ADY. Mae'r rôl yn cynnwys cefnogi teuluoedd, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc a'u rhieni neu eu gofalwyr yn deall eu hawliau i wneud apêl neu hawliad i TAAAC a’u bod yn cael cymorth i wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid arfer yr hawliau hynny.

Ers cyflwyno'r gweithwyr cymorth i deuluoedd ADY, nid oes un o'r teuluoedd y buont yn gweithio gyda nhw wedi gwneud apêl ac mae cyfanswm nifer yr apeliadau (gan rieni neu ofalwyr) yn Sir Gaerfyrddin wedi gostwng yn sylweddol o 11 yn 2009/10 i ddau yn 2012/13.

Er mwyn archwilio effaith gweithwyr cymorth i deuluoedd ADY, archwiliodd yr astudiaeth achosion o anghytundeb rhwng teulu a'r ysgol neu'r awdurdod lleol a allai sbarduno apêl i TAAAC a'r ffyrdd y gallai gweithiwr cymorth i deuluoedd ADY ymateb i hyn. Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos y gall gweithwyr cymorth i deuluoedd ADY helpu i ymdrin â llawer o achosion allweddol neu sbardunau ar gyfer anghytuno, fel y rhai sy'n gysylltiedig â chamddealltwriaeth neu ddiffyg hyder y bydd

anghenion y plentyn yn cael eu diwallu. Yn yr un modd, mae problemau yn bodoli, fel diffyg neu fethiant o ran y ddarpariaeth, na ellir eu datrys drwy siarad â rhieni a gofalwyr a'u cefnogi yn unig.

**Ymwybyddiaeth a pharodrwydd awdurdodau lleol mewn perthynas â goblygiadau Mesur Addysg (Cymru)**

Cynhaliwyd arolwg o awdurdodau lleol er mwyn asesu eu hymwybyddiaeth o Fesur Addysg (Cymru) a'i oblygiadau. Ymatebodd un ar bymtheg o awdurdodau lleol. Nododd eu hymatebion eu bod yn ymwybodol o'r Mesur a'r broses o ymestyn hawliau plant a phobl ifanc i apelio i TAAAC. Fodd bynnag, roedd llai na hanner wedi cysylltu â lleoliadau dysgu; a dim ond traean oedd wedi adolygu eu systemau a'u prosesau presennol i sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o'r hawliau newydd, neu wedi cynllunio sut i gefnogi plant a phobl ifanc.

**Casgliadau**

Mae'r systemau a'r prosesau ar gyfer hysbysu plant a phobl ifanc am eu hawliau wedi'u sefydlu'n dda ac yn cael eu hystyried yn gyffredinol fel systemau sy'n gweithio'n dda yn y ddau awdurdod lleol. O ganlyniad:

- mae gweithwyr proffesiynol yn adrodd bod y plant a'r bobl ifanc maent yn gweithio gyda nhw yn ymwybodol o'u hawliau i apelio ac yn eu deall;
- mae'r awdurdodau lleol sydd ynghlwm wrth y prosiectau peilot yn adrodd bod gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o'r hawliau ac yn eu deall a'r goblygiadau ar gyfer eu hymarfer (mae'r farn hon yn seiliedig yn bennaf ar werthuso hyfforddiant a'r gwaith o godi ymwybyddiaeth);
- mae strwythurau cymorth ar waith i helpu plant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid arfer eu hawliau i wneud hawliad neu apêl, ac i'w cefnogi os ydynt yn dewis i'w harfer.

Serch hynny, oherwydd dim ond un hawliad a wnaed, a dim un apêl, nid yw’r systemau a'r prosesau a sefydlwyd fel rhan o'r prosiectau peilot, er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau i apelio neu wneud hawliad i TAAAC, wedi cael eu profi'n llawn eto. Mae hyn hefyd yn golygu bod effaith gweithredu’r Mesur ar les plant a phobl ifanc yn ansicr. Er nad yw'n cael ei fesur yn empirig (yn yr astudiaeth hon), mae tystiolaeth o astudiaethau eraill yn nodi y gall cynyddu cyfranogiad a llais disgyblion gael effaith gadarnhaol ar les plant a phobl ifanc.

At hynny, mae nifer o faterion heb eu datrys. Er enghraifft, nid yw'n glir sut y byddai anghytundeb rhwng rhieni neu ofalwyr a phlentyn neu berson ifanc, am y broses o gyfathrebu eu hawliau, ac arfer yr hawliau hynny, yn cael ei ddatrys; nid yw'n glir a yw plant a phobl ifanc yn deall yn llawn eu hawliau i wneud hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd; ac mae'r ddau brosiect peilot wedi cael trafferth cael adborth gan randdeiliaid am effaith ac effeithiolrwydd y mesurau yn y prosiect peilot.

## 1. Cyflwyniad

### Hawl plant a phobl ifanc i apelio: Mesur Addysg (Cymru) 2009

1.1. Mae Mesur Addysg (Cymru) 2009 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Mesur) yn ymestyn yr hawl bresennol sydd gan rieni a gofalwyr i wneud apêl Addysg Anghenion Arbennig (AAA) neu hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, i blant a phobl ifanc. Mae'r Mesur hefyd yn gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol mewn perthynas â darparu gwybodaeth, codi ymwybyddiaeth a rhoi cyngor am yr hawliau newydd; datrys anghydfodau; a darparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i ddarparu cyngor, cynrychiolaeth a/neu gymorth i blentyn sy'n ystyried, neu'n bwriadu gwneud, apêl AAA neu hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd. Caiff y Mesur ei drafod ymhellach yn adran dau o'r adroddiad hwn.

### Prosiectau peilot ar hawliau plant a phobl ifanc i apelio

1.2. Mae’r broses o gyflwyno hawliau newydd i blant a phobl ifanc, a dyletswyddau ar awdurdodau lleol, yn cael ei threialu mewn dwy ardal: Sir Gaerfyrddin a Wrecsam. Caiff y prosiectau peilot eu trafod ymhellach ym mhenodau dau a phedwar o'r adroddiad hwn. Ym mis Gorffennaf 2015, bydd rheoliadau’r prosiect peilot yn peidio â bod yn weithredol, a bydd yr hawliau a'r dyletswyddau yn berthnasol yn awtomatig i Gymru gyfan.

1.3. Comisiynwyd yr Uned Pobl a Gwaith (PWU) gan Lywodraeth Cymru i gynnal astudiaeth beilot i lywio a gwerthuso gweithredu'r prosiectau peilot. [3] Caiff dull a methodoleg yr ymchwil eu trafod ymhellach yn adran tri o'r adroddiad hwn.

[3] http:// www.peopleandworkunit.org.uk/

## 2. Y Cyd-destun ar gyfer y Prosiect Peilot

### Y cyd-destun deddfwriaethol: Hawliau i wneud apêl neu hawliad i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

2.1. Mae Deddf Addysg 1996 yn rhoi i rieni neu warcheidwaid cyfreithiol yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol:

- i beidio â chynnal asesiad statudol o anghenion addysgol arbennig plentyn neu berson ifanc, neu i ailasesu eu hanghenion addysgol arbennig;
- i beidio â gwneud datganiad anghenion addysgol arbennig, yn dilyn asesiad statudol, neu i ganslo datganiad anghenion addysgol arbennig;
- i beidio â newid datganiad anghenion addysgol arbennig yn dilyn ailasesiad o anghenion y plentyn;
- ynghylch rhai agweddau ar gynnwys datganiad anghenion addysgol arbennig, fel y disgrifiad o anghenion addysgol arbennig plentyn neu'r ddarpariaeth sydd i'w gwneud ar eu cyfer.

2.2. Mae Deddf Cydraddoldeb, 2010, yn diogelu pobl ag anabledd, neu sydd wedi cael anabledd, yn erbyn tri math o wahaniaethu:

- gwahaniaethu ar sail anabledd uniongyrchol[4];
- gwahaniaethu anuniongyrchol[5];
- gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd[6].

2.3. Yn ogystal, caiff pobl ag anabledd, neu mewn rhai achosion pobl sydd wedi cael anabledd, eu diogelu yn erbyn dau fath arall o ymddygiad: "aflonyddu

[4]Mae hyn yn digwydd pan fydd disgybl yn cael ei drin yn waeth (llai ffafriol) na disgybl arall oherwydd anabledd. Gallai gwahaniaethu ar sail anabledd uniongyrchol ddigwydd hefyd pan fo disgybl yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd ei gysylltiad â disgybl anabl neu os credir yn anghywir bod ganddo anabledd" (TAAAC, d.d.).

[5]O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae hyn yn digwydd pan fydd rheol, polisi neu arfer yn berthnasol i bob disgybl/grŵp o ddisgyblion penodol, ond yn cael yr effaith o roi disgyblion ag anabledd penodol o dan anfantais o'u cymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl ac na ellir cyfiawnhau'r rheol, y polisi na'r ymarfer."

[6]Mae hyn yn digwydd pan fydd disgybl anabl yn cael ei drin yn anffafriol am reswm sy'n gysylltiedig â'i anabledd ac na ellir cyfiawnhau'r driniaeth annheg. Ac, ni ellir dangos nad oedd yr Ysgol na'r Awdurdod Lleol yn gwybod am anabledd y disgybl ac na ellid disgwyl yn rhesymol iddynt wybod hyn."

sy'n gysylltiedig ag anabledd"[7] ac "erledigaeth sy'n gysylltiedig ag anabledd" [8](ibid).

2.4. Caiff apeliadau yn erbyn penderfyniadau awdurdod lleol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig, neu hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd yn erbyn ysgolion, yng Nghymru eu gwneud i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC). Fel yr amlinellir isod, o dan Fesur Addysg (Cymru) 2009, mae'r hawliau hyn i apelio a gwneud hawliad i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) yn cael eu hymestyn i blant a phobl ifanc.

**Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru**

2.5. Corff annibynnol a ariennir gan y llywodraeth yw Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC). Mae'n gwrando ar apeliadau sy'n ymwneud â phenderfyniadau awdurdodau lleol am anghenion addysgol arbennig (AAA) plant neu bobl ifanc a hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion. [9]

2.6. Pan fydd achos (yn ymwneud â naill ai asesu a darparu AAA neu wahaniaethu ar sail anabledd) yn cael ei gyflwyno i TAAAC, gall fod nifer o ganlyniadau:

- gellid gwrando arno a'i gadarnhau, sy'n golygu bod y tribiwnlys yn cytuno â'r cynnig a gyflwynwyd ger ei fron (h.y. os caiff apêl neu hawliad eu cadarnhau bydd y tribiwnlys yn gwrthdroi'r penderfyniad gwreiddiol, os caiff dyfarniad ei gadarnhau caiff yr apêl neu'r hawliad eu gwrthod);

[7]" Mae hyn yn digwydd pan fydd disgybl yn derbyn ymddygiad nas dymunir sy'n gysylltiedig ag anabledd sydd â'r diben neu'r effaith o darfu ar urddas person neu sy'n elyniaethus, diraddiol, bychanol neu sarhaus i'r disgybl." (ibid.).
[8]" Mae hyn yn digwydd pan fydd disgybl yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd ei fod yn gweithredu/wedi gweithredu neu y gallai weithredu'n ddidwyll o dan y Ddeddf Cydraddoldeb neu oherwydd ei fod yn cefnogi person o'r fath." (ibid.).
[9] Yr eithriadau i hyn yw hawliadau am benderfyniadau derbyn disgyblion ysgolion a gynhelir (mae'r rhain yn cael eu clywed gan banel apêl ynghylch derbyn disgyblion), a gwaharddiadau parhaol o ysgolion a gynhelir (mae'r rhain yn cael eu clywed gan baneli apeliadau gwahardd). (ibid).

- gellid gwrando arno a'i wrthod, sy'n golygu bod y tribiwnlys yn gwrthod y cynnig a gyflwynwyd ger ei fron (os caiff apêl ei gwrthod, bydd y penderfyniad gwreiddiol yn aros);
- gellid ei ganiatáu neu beidio â'i wrthwynebu, pan na fydd y diffynnydd (e.e. awdurdod lleol, mewn perthynas ag apêl sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig neu ysgol mewn hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd) yn gwrthwynebu'r apêl neu'r hawliad, ac felly'n cytuno i ailnegodi cyn cyflwyno'r apêl neu'r hawliad gerbron y tribiwnlys; neu
- gellid ei dynnu'n ôl, pan fydd y sawl a ddechreuodd yr apêl neu'r hawliad yn tynnu'r apêl neu'r hawliad yn ôl cyn i'r achos fynd gerbron y tribiwnlys.

*Nifer yr apeliadau a'r hawliadau i TAAAC*

2.7. Apeliadau sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig yw'r rhan fwyaf o lwyth gwaith y Tribiwnlys. Yn 2012-13, derbyniwyd 73 o apeliadau, gyda 29 o apeliadau eraill yn cael eu cario drosodd o 2011/12, o'u cymharu â chwe hawliad am wahaniaethu ar sail anabledd (t.3., TAAAC, 2013). Yn 2011-12, roedd 29% o'r apeliadau yn ymwneud â gwrthodiad yr awdurdod lleol i gynnal asesiad statudol ac roedd 56% yn ymwneud â chynnwys datganiadau. Roedd y gweddill yn ymwneud â gwrthodiad yr awdurdod lleol i roi datganiad (14%) neu wrthod ailasesu anghenion addysgol arbennig (1%) (ibid). Fel y dengys tabl 2 , mae nifer yr apeliadau yn amrywio'n sylweddol yn ôl awdurdod lleol.

**Tabl 2. Nifer yr apeliadau i TAAAC fesul ardal awdurdod lleol, 2011-12 a 2012-13**

| | 2011- 2012<br>Nifer yr apeliadau | 2012-13<br>Nifer yr apeliadau |
|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | **1** | **1** |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | **2** | **3** |
| **Caerffili** | **2** | **1** |
| **Caerdydd** | **12** | **8** |
| **Sir Gaerfyrddin** | **7** | **2** |
| **Ceredigion** | **1** | **1** |
| **Conwy** | **7** | **3** |
| **Sir Ddinbych** | **2** | **2** |
| **Sir y Fflint** | **0** | **2** |
| **Gwynedd** | **3** | **0** |
| **Merthyr Tudful** | **2** | **0** |
| **Sir Fynwy** | **6** | **2** |
| **Castell-nedd Port Talbot** | **1** | **7** |
| **Casnewydd** | **8** | **20** |
| **Sir Benfro** | **0** | **1** |
| **Powys** | **8** | **1** |
| **Rhondda Cynon Taf** | **7** | **3** |
| **Abertawe** | **9** | **13** |
| **Torfaen** | **2** | **0** |
| **Bro Morgannwg** | **5** | **2** |
| **Wrecsam** | **0** | **0** |
| **Ynys Môn** | **1** | **1** |
| **Cyfanswm** | **86** | **73** |

***Ffynhonnell: TAAAC, 2013***

2.8. I roi'r wybodaeth yn ei chyd-destun, mae cyfanswm nifer yr apeliadau (73 yn 2012/13) yn fach o'i gymharu â chyfanswm nifer y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig: 103,038 o blant, gyda 13,564 yn meddu ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (ym mis Ionawr 2013) (Ystadegau Cymru, 2013).

2.9. Cafodd cyfanswm o chwe hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd yn erbyn ysgolion yng Nghymru eu cofrestru gyda TAAAC yn 2012-13 (TAAAC, 2013).

I roi'r wybodaeth yn ei chyd-destun, mae'r nifer hwn yn fach iawn o'i gymharu â chyfanswm nifer y disgyblion sydd ag anabledd. Er nad oes union ffigurau ar gyfer nifer y disgyblion ag anabledd yng Nghymru, gan dybio bod 6% o blant yn anabl (Adran Gwaith a Phensiynau, 2013), a chan ddefnyddio'r ffigurau diweddaraf ar gyfer disgyblion ysgol yng Nghymru, gallwn amcangyfrif y byddai tua 28,000 o ddisgyblion ag anabledd mewn ysgolion yng Nghymru.

**Mesur Addysg (Cymru) 2009**

2.10. Croesawodd Adroddiad Blynyddol 2003-04 Comisiynydd Plant Cymru y ffaith bod yr hawl i apelio yn erbyn gwaharddiad wedi'i hymestyn i ddisgyblion ysgol uwchradd. Nododd "Byddem yn hoffi gweld hawliau disgyblion yn cael eu hestyn i feysydd addysg eraill megis apeliadau derbyn a'r hawl i apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru " (t35, Comisiynydd Plant Cymru, 2004).

2.11. Aeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r afael â'r cynnig hwn ac, yn Ebrill 2009, cyflwynwyd y Mesur arfaethedig i ymestyn hawl plant a phobl ifanc i apelio i TAAAC. Fel y dywed y Memorandwm Esboniadol "Amcan sylfaenol y Mesur hwn yw rhoi hawliau cyfartal i wneud apêl i rieni a'u plant " (t.11, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009).

2.12. Mewn tystiolaeth lafar i Bwyllgor Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC, d.d.), amlinellodd Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar y pryd, "dri phrif reswm" dros gael y ddeddfwriaeth:

> First, it gives practical expression to the United Nations Convention on the Rights of the Child, in particular article 12. Secondly, the legislation will enable us to ensure that the needs of children are considered by the tribunal. Current arrangements rely on the presumption that statutory agencies will be competent in their practice and administration and that parents will act to promote the best interests of their children. There may be hazards for some children if one or both of those essential ingredients are missing. Thirdly, there may be parents who, even with support, simply do not feel willing or confident or competent enough to pursue an appeal or claim. (CCC, d.d.).

2.13. Mewn sylwadau pellach i'r Pwyllgor, pwysleisiodd hefyd fod y Mesur yn rhoi hawl annibynnol i apelio i blant sydd dan ofal yr awdurdod lleol a disgrifiwyd y "cyfnod treialu a gwerthuso" fel:

> ... key to providing ... the information about how these rights can be communicated to children and young people and how they can be supported (ibid.).

2.14. Er mwyn cefnogi datblygiad y Mesur a'r prosiect peilot, sefydlwyd grŵp cynllunio a gweithredu ar gyfer y prosiect peilot. Daeth y grŵp ag aelodau o Lywodraeth Cynulliad Cymru, TAAAC, awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol[10] a Chomisiynydd Plant Cymru at ei gilydd. Ystyriodd y grŵp nifer o faterion gan gynnwys a ddylid cael terfyn o ran oedran neu gymhwysedd, a wrthodwyd gan y grŵp, a'r potensial ar gyfer gwrthdaro ac anghytundeb rhwng rhieni neu ofalwyr a phlant.

2.15. Fel rhan o'r broses ddatblygu, comisiynwyd corff hyfforddi ac ymgynghori cyfranogol, Dynamix, i ymgynghori â phobl ifanc. Amlygodd yr ymgynghoriad nifer o faterion gan gynnwys pwysigrwydd 'cyfeillion achos' a allai gefnogi plant a phobl ifanc a fyddai eisiau arfer eu hawliau o bosibl.

2.16. Yn wreiddiol, y bwriad oedd y byddai'r rheoliadau sy'n galluogi'r hawl a'r dyletswyddau newydd i gael eu treialu yn dod i rym yn y ddau awdurdod lleol erbyn mis Medi 2010. Fodd bynnag, bu oedi yn y broses a chyflwynwyd y rheoliadau ym mis Mawrth 2012.

[10] Fel Plant yng Nghymru, NYAS Cymru, SNAP Cymru a Tros Gynnal

## Y Prosiectau Peilot

2.17. Nod y cyfnod peilot oedd rhoi cyfle i werthuso'r defnydd ymarferol o'r hawliau estynedig, gan gynnwys y broses o gyflunio a chael gafael ar y gwasanaethau angenrheidiol er mwyn gweithredu'r darpariaethau a gyflwynwyd o dan Fesur Addysg (Cymru) 2009.

2.18. Y bwriad oedd i'r cyfnod peilot ganolbwyntio ar ddwy ardal - un gyda nifer hanesyddol uchel o apeliadau - ac un gyda lefel llawer is (a fyddai'n adlewyrchu'r sefyllfa gyffredinol yng Nghymru). Cytunodd Caerdydd, awdurdod lleol gyda lefel uchel o apeliadau yn hanesyddol, mewn egwyddor, ond tynnodd yn ôl o’r prosiect peilot. Yn dilyn hynny, dewiswyd Wrecsam, ardal sydd â nifer bach o apeliadau yn hanesyddol[11], ac yna Sir Gaerfyrddin, ardal sydd â nifer isel o apeliadau yn hanesyddol, ond nifer sy’n cynyddu[12], fel yr ardaloedd peilot.

2.19. Rhoddwyd "disgresiwn eang" i’r awdurdodau peilot am sut i fynd ati i gyflawni'r dyletswyddau newydd[13]. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd yn nhelerau ac amodau'r grant ar gyfer y prosiectau peilot, roedd yn ofynnol i'r awdurdodau lleol:

- Sicrhau bod y prosiect yn rhoi gwerth am arian
- Nodi’n glir (trwy adroddiadau cynnydd)

    - sut maent wedi bodloni'r dyletswyddau /swyddogaethau newydd a osodwyd arnynt gan y Mesur;
    - y rhesymeg dros ddewis y dulliau a ddewiswyd ganddynt a'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer penderfyniad o'r fath;
    - anawsterau sydd wedi codi;
    - arfer da a nodwyd;
    - costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno a gweithredu hawliau newydd;

[11] Fel arfer un neu ddwy apêl y flwyddyn (TAAAC, 2011, 2008).
[12] Cynyddodd nifer yr apeliadau o rhwng pump neu chwech y flwyddyn ar gyfer y cyfnod 2003/04-2006/07 i 19 yn 2007/08 cyn gostwng eto i 12 yn 2009/10 a 2010/11 (TAAAC, 2011, 2008).
[13] Cymerwyd o Delerau ac Amodau Grant y Prosiect Peilot

- eu bod yn cadw golwg ar gynnydd y dulliau a roddwyd ar waith ganddynt;
- bod agweddau ar y Gymraeg yn cael eu hystyried.

- Sicrhau bod strategaeth gynaliadwyedd addas yn cael ei sefydlu y tu hwnt i gyfnod y prosiect peilot a bod arfer da a nodwyd gan yr awdurdod ei hun a chan yr ARP [prosiect ymchwil weithredu] yn cael ei gynnwys o fewn gweithgareddau parhaus; [a]
- Sicrhau cyfathrebu effeithiol ac amserol gyda'r cyswllt o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru [sic] ac ARP ar gynnydd a datblygiad y Prosiect Peilot.

## 3. Nodau ac amcanion yr astudiaeth

3.1. Er mwyn ymchwilio ac archwilio'r gwaith a wnaed gan y prosiectau peilot cynhaliodd Llywodraeth Cymru broses dendro ar gyfer 'astudiaeth beilot' ym mis Medi 2012. Diben yr astudiaeth beilot oedd:

- Llywio'r gwaith o ddatblygu arferion a phrosesau a sefydlwyd gan yr awdurdodau peilot i weithredu'r darpariaethau o fewn Mesur Addysg (Cymru) 2009
- Sefydlu modelau arfer da y gellir eu defnyddio i lywio'r broses o weithredu gan yr awdurdodau peilot
- Darparu gwerthusiad diwedd peilot i lywio'r broses gyflwyno ddiweddarach ledled Cymru
- Diwygio'r modelau arfer da yng ngoleuni profiadau'r awdurdodau peilot i lywio'r broses gyflwyno ddiweddarach ledled Cymru.

3.2. Y cwestiynau cyffredinol yr oedd angen i'r elfen werthuso eu hystyried oedd:

- a oedd yr awdurdodau peilot wedi gweithredu'r darpariaethau yn y mesur?
- a oedd y darpariaethau yn y mesur wedi'u gweithredu'n **ddarbodus**?
- pa mor **effeithlon** y cafodd y darpariaethau yn y mesurau eu gweithredu gan yr awdurdodau peilot?
- pa mor **effeithiol** y cafodd y darpariaethau yn y mesurau eu gweithredu gan yr awdurdodau peilot?

3.3. Ceir rhestr lawn o'r cwestiynau ymchwil penodol yn yr atodiad a chyfeirir atynt yn fanwl ym mhennod saith. Dyfarnwyd y contract i'r Uned Pobl a Gwaith (PWU) a gynigiodd raglen o ymchwil weithredu. Caiff y fethodoleg ei thrafod ym Mhennod 4.

# 4. Ymagwedd a dulliau

## Cyflwyniad

4.1. Cafodd y prosiect ymchwil weithredu a'r astudiaeth werthuso eu strwythuro mewn tri cham:

- cychwyn a chwmpasu
- rhaglen ffurfiannol o ymchwil ac ymchwil weithredu a
- gwerthuso ac adrodd cyfunol

## Cychwyn a chwmpasu

4.2. Fel rhan o'r gwaith cwmpasu, bu cyfarfod cychwynnol a chyfweliadau lled-strwythuredig ansoddol gyda rhanddeiliaid allweddol o Lywodraeth Cymru, TAAAC, SNAP Cymru a'r awdurdodau lleol sydd ynghlwm wrth y prosiectau peilot. Bwriad y cyfweliadau oedd sicrhau bod yr ymchwilwyr yn deall y cyd-destun a nodau ac amcanion y prosiectau a'r gwerthusiad. Cafodd y cyfweliadau hyn eu hategu gan adolygiad desg o lenyddiaeth, a ddisgrifir isod.

*Yr Adolygiad o Lenyddiaeth*

4.3. Nod yr adolygiad o lenyddiaeth oedd nodi mentrau yn y DU ac yn rhyngwladol sy'n ymestyn hawliau pobl ifanc gyda'r nod o gynyddu eu cyfranogiad mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Cafodd y mentrau a nodwyd eu hadolygu er mwyn, lle y bo'n bosibl:

- dogfennu'r prosesau a'r arferion a fabwysiadwyd;
- asesu effeithiolrwydd y mentrau o ran galluogi pobl ifanc agored i niwed i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- nodi'r goblygiadau moesegol, cyfreithiol a moesol sy'n gysylltiedig ag ymestyn hawliau plant a phobl ifanc i apelio;

- nodi arfer da wrth ymestyn hawliau plant a phobl ifanc i apelio;
- ystyried effaith y mentrau i ymestyn cyfranogiad pobl ifanc ar bobl ifanc, gan gynnwys unrhyw effaith ar eu lles.


4.4. Cyflwynwyd adroddiad ar wahân ar yr adolygiad o lenyddiaeth i Lywodraeth Cymru a chaiff ei ganfyddiadau eu crynhoi ym mhennod pump. Mae rhagor o fanylion am yr adolygiad o lenyddiaeth yn yr atodiad.

**Ymchwil weithredu**

*Y cylch ymchwil weithredu*

4.5. Cynlluniwyd yr ymchwil weithredu i ddilyn cyfres o gylchoedd, yn cynnwys cyfarfod cynllunio ar y cyd gyda'r prosiectau peilot, casgliadau ymchwil/data gan y Prosiectau Peilot a'r Uned Pobl a Gwaith (PWU), a chyfarfod adolygu ar y cyd i ystyried y data a gasglwyd ac i gynllunio'r cam nesaf o gasglu data. Dangosir hyn yn ffigur 1.

**Ffigur 1. Y cylch ymchwil weithredu**



4.6. Nid oedd cylchoedd ymchwil weithredu yn dilyn llinell amser gaeth. Cynhaliwyd tri chylch o ymchwil weithredu yn Wrecsam, gyda chyfarfodydd ym mis Chwefror a Thachwedd 2012, Ebrill a Medi 2013. Cynhaliwyd pedwar cylch o ymchwil weithredu yn Sir Gaerfyrddin, gyda chyfarfodydd ym mis Ionawr a Rhagfyr 2012, Ionawr, Ebrill, Gorffennaf, a Hydref 2013.

4.7. Cafodd y cyfarfodydd pwrpasol hyn i adolygu ymchwil weithredu eu hategu gan gyfarfodydd y prosiect peilot (a drefnwyd gan TAAAC) ac a fynychwyd gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, TAAAC, dau awdurdod lleol y prosiect peilot, Comisiynydd Plant Cymru, SNAP Cymru a PWU.

*Y dull ymchwil weithredu*

4.8. Canolbwyntiodd y cyfarfodydd i adolygu'r prosiect peilot ar faterion yn ymwneud â gweithredu, cost, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Yn ystod y cyfarfodydd cychwynnol ystyriwyd yr holl gwestiynau ymchwil, (gweler Atodiad 1 am fanylion), er mwyn archwilio sut a phryd y gellid mynd i'r afael â hwy a'u hateb. Canolbwyntiodd y cyfarfodydd dilynol ar gwestiynau penodol. Er enghraifft, bu llawer o ffocws yn y cyfarfodydd dilynol ar werthuso'r camau a gymerwyd i godi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth o hawliau ymhlith grwpiau allweddol o randdeiliaid: plant a phobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr a gweithwyr proffesiynol (e.e. athrawon, gweithwyr cymdeithasol ac ati). Yn ystod y broses hon, archwiliwyd yn gyntaf yr hyn a wnaed gan bob awdurdod peilot (yn yr achos hwn i godi ymwybyddiaeth) ac yna trafodwyd pa dystiolaeth oedd i ddangos pa mor effeithiol y bu hyn. Er enghraifft, ystyriwyd adborth gan gyfranogwyr mewn digwyddiadau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth a chan y gweithwyr proffesiynol hynny a fu'n gyfrifol am gyfathrebu hawliau i blant a phobl ifanc.

4.9. Ymgymerodd yr Uned (PWU) â rôl "cyfaill beirniadol" yn y cyfarfodydd adolygu. Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, hwyluso ac arwain trafodaethau ac ymholiadau; profi a herio'r dystiolaeth; a darparu cyngor ar ffyrdd o fynd i'r afael â bylchau yn y dystiolaeth. Felly, roedd y cyfarfodydd ymchwil weithredu yn gyfle gwerthfawr i adolygu'r cwestiynau ymchwil gyda'r

swyddogion peilot ac i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu offer ymchwil, fel holiaduron, a ddefnyddiwyd gan y prosiectau peilot.

4.10. Rhagwelwyd hefyd y byddai'r cyfarfodydd adolygu gweithredu yn darparu ffordd o nodi ymchwil bellach y gallai PWU ei gwneud rhwng cyfarfodydd. Fodd bynnag, anaml iawn y digwyddai hyn yn ymarferol. Trafodwyd hyn gyda'r prosiectau peilot ym mhob cylch, ond dim ond yn ystod y camau olaf yr oedd yn briodol, pan gytunwyd i ymchwil ychwanegol gyda theuluoedd a gefnogir gan y gweithiwr cymorth i deuluoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn Sir Gaerfyrddin (mae hyn yn cael ei drafod isod).

4.11. Yn ogystal, er bod y prosiectau peilot yn Sir Gaerfyrddin a Wrecsam wedi datblygu offer ymchwil, fel holiaduron ar gyfer casglu data gan y rhanddeiliaid sy'n rhan o'r broses, wynebodd y ddau awdurdod anawsterau wrth gael adborth gan randdeiliaid o fewn yr amserlen ar gyfer yr astudiaeth ymchwil weithredu. At hynny, oherwydd dim ond un hawliad, a dim un apêl, a wnaed i TAAAC gan blant/pobl ifanc yn ystod yr astudiaeth beilot, roedd yn heriol, os nad yn amhosibl, asesu effeithiolrwydd pob agwedd ar y prosiectau peilot.

*Ymchwil gyda theuluoedd a gefnogwyd gan y Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd ADY*

4.12. Nodwyd pum teulu a gefnogwyd gan y gweithiwr cymorth i deuluoedd ADY (yn Sir Gaerfyrddin) a oedd yn barod i rannu eu manylion cyswllt gyda PWU. Cysylltwyd â phob un ohonynt a llwyddodd PWU i siarad â phedwar ohonynt. Dewisodd dau o'r rhain gymryd rhan drwy gyfweliad ffôn a gofynnodd dau ohonynt am holiaduron hunanlenwi. Dychwelwyd un holiadur.

*Arolwg o awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan o’r prosiect peilot*

4.13. Gan mai dim ond un hawliad, a dim un apêl, a wnaed gan blant a phobl ifanc i TAAAC, cynhaliwyd trafodaethau gyda staff Llywodraeth Cymru a chytunwyd ar ddiwygiad i’r cynllun gwaith gwreiddiol a fyddai'n arwain at wneud darn arall o ymchwil. Canolbwyntiodd yr ymchwil yma ar ymwybyddiaeth o’r Mesur sydd ar ddod, a pharodrwydd ar gyfer y Mesur hwnnw, o fewn awdurdodau lleol

nad ydynt yn rhan o’r prosiect peilot. Gwnaed hyn drwy gyfrwng holiadur ar-lein a anfonwyd i awdurdodau lleol ym mis Hydref 2013. Mae canlyniadau'r arolwg hwn i’w gweld ym mhennod naw.

## 5. Effeithiolrwydd mentrau wrth alluogi plant a phobl ifanc agored i niwed i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt: Crynodeb o'r canfyddiadau o'r adolygiad o lenyddiaeth

5.1. Yn yr adran hon rydym yn amlinellu themâu allweddol o'r adolygiad o lenyddiaeth ac wedyn yn ystyried y casgliadau o'r llenyddiaeth gyfyngedig sydd ar gael. Yn arbennig, mae'n amlinellu'r llenyddiaeth sy'n amlinellu'r egwyddor neu'r achos dros ymestyn hawliau i blant a phobl ifanc, ond mae'r dystiolaeth o arfer go iawn yn y maes hwn yn gyfyngedig.

### Sail y dystiolaeth: yr egwyddor o ymestyn hawliau i blant a phobl ifanc a graddau'r arfer hwn

5.2. Canfu'r adolygiad hwn fod llawer o'r llenyddiaeth yn y maes yn canolbwyntio ar yr egwyddor o ymestyn hawliau i blant a phobl ifanc yn hytrach nag ar werthuso'r arfer. Ystyrir y broses o ymestyn hawliau fel egwyddor bwysig yn ei rhinwedd ei hun (a adlewyrchir yn fwyaf nodedig drwy'r ffaith bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi'i fabwysiadu (CCUHP)), ac fel ffordd o gyflawni canlyniadau dymunol eraill, fel grymuso plant a phobl ifanc a gwella darpariaeth gwasanaethau (a ddisgrifir fel "enlightenment" gan Cashmore, 2010).

5.3. Canfu'r adolygiad hefyd na fu llawer o werthuso arfer, oherwydd bod cyn lleied o arfer i'w werthuso; hynny yw, mae nifer gwirioneddol y mentrau sy'n ymestyn hawliau plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn fach, ynghyd â'r ffaith mai ychydig o werthuso, neu ddim o gwbl, a wnaed mewn perthynas â'r mentrau hyn. Mae hyn yn golygu bod hawl plant a phobl ifanc i apelio i TAAAC, mewn sawl ffordd, yn torri tir newydd, ond o ganlyniad bod y cyfle i ddefnyddio tystiolaeth o arfer presennol i lywio datblygiad yn gyfyngedig.

### Y gwahaniaeth rhwng hawliau plant a phobl ifanc i gymryd rhan a dyletswyddau neu rwymedigaethau oedolion i gynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt

5.4. Mae’r llenyddiaeth yn dangos er mai prin iawn yw'r mentrau sy’n ymestyn hawliau i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ymddengys fod mentrau sy’n gosod dyletswyddau ar oedolion i ymgynghori â phlant a phobl ifanc, neu wrando arnynt, yn llawer mwy cyffredin. Er enghraifft, gosododd Deddf Plant (1989) rwymedigaeth ar Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig i geisio sicrhau bod safbwynt plentyn neu berson ifanc yn cael ei glywed mewn achos tribiwnlys. Fodd bynnag, ni chaiff y rhwymedigaeth hon i sicrhau bod safbwynt y plentyn neu’r person ifanc yn cael ei gyflwyno ei fodloni bob amser, ac mae cyrff fel y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) (2010) wedi dadlau bod angen iddynt gael hawl i gael eu clywed. Felly, mae'r gwahaniaeth rhwng *rhwymedigaethau* a osodir ar oedolion (e.e. y rhwymedigaeth i ymgynghori â phlant a phobl ifanc) a *hawliau* a roddwyd i blant a phobl ifanc (e.e. herio penderfyniadau a wneir gan oedolion drwy apelio i dribiwnlys) yn hanfodol.

5.5. Y gwendid cynhenid mewn rhwymedigaeth i ymgynghori, yn hytrach na hawl i gymryd rhan, yw’r ffaith y gall oedolyn ddiystyru safbwynt plentyn neu berson ifanc os bydd yr oedolyn yn anghytuno â’r safbwynt hynny. Mewn cyferbyniad â hyn, er nad yw hawl i gymryd rhan yn golygu bod gan bobl ifanc bŵer dros y penderfyniad o reidrwydd (oherwydd gall corff arall, fel tribiwnlys, wneud y penderfyniad yn gyfreithlon), mae'n sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried yn briodol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

**Problemau posibl sy'n gynhenid mewn mentrau sy'n ymestyn hawliau plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt**

5.6. Er nad oes llawer o fentrau sy'n ymestyn hawliau plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, mae corff sylweddol o gyfraith achosion sy'n canolbwyntio ar hawliau cyfreithiol plant a phobl ifanc mewn perthynas â dymuniadau a hawliau oedolion, ac yn aml mewn gwrthwynebiad i'r dymuniadau a'r hawliau hyn. [14] Yn benodol, mae hyn yn ymwneud â hawl

[14] Gan gynnwys eu rhieni neu ofalwyr ond heb fod yn gyfyngedig iddynt

plant a phobl ifanc i gydsynio i driniaeth feddygol, neu i'w gwrthod, yn eu rhinwedd eu hunain. Mae hyn wedi arwain rhai sylwebwyr i ganolbwyntio ar ddau brif wrthwynebiad i ymestyn hawliau i blant a phobl ifanc:

- nad yw plant a phobl ifanc yn gallu – neu'n gymwys - i wneud penderfyniadau;
- y gwrthdaro posibl rhwng hawliau a buddiannau canfyddedig plentyn neu berson ifanc a rhai eu rhieni neu eu gofalwyr.

5.7. Fodd bynnag, caiff y gwrthwynebiadau hyn (gweler e.e. Koocher a Keith-Spiegel, 1990), eu herio gan sylwebwyr eraill (gweler e.e. Lewis et al. 2007, Kenworthy a Whittaker 2010). Gall cwestiynau ynghylch gallu neu gymhwysedd i arfer hawliau dynnu sylw oddi wrth y mater canolog, oherwydd caiff cwestiynau ynghylch meddu ar hawliau eu hystyried ar wahân i gwestiynau ynghylch cymhwysedd i arfer yr hawliau hynny. Mae'r adolygiad yn tynnu sylw at ymagweddau i sefydlu cymhwysedd person, fel profion Gillick a Fraser, ond hefyd yr heriau sy'n ymwneud â hyn. Mae'r adolygiad hefyd yn awgrymu na all gwrthdaro posibl rhwng hawliau a buddiannau plant a rhai eu rhieni neu ofalwyr gael ei ddatrys yn hawdd. Felly, gellid awgrymu nad yw'n bosibl ystyried y naill wrthwynebiad na'r llall fel rhwystr anorchfygol i ymestyn cyfranogiad pobl ifanc. Serch hynny, maent yn awgrymu bod problemau ymarferol yn debygol wrth weithredu mentrau i ymestyn hawliau plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

**Yr angen i gefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc**

5.8. Caiff cwestiynau ynghylch gallu a chymhwysedd eu cysylltu hefyd â'r gefnogaeth sydd ei hangen fel arfer ar blant a phobl ifanc er mwyn gallu arfer eu hawliau (EHRC, 2010). Maent hefyd yn gysylltiedig â'r newidiadau a allai fod angen eu gwneud i'r ffordd y mae tribiwnlysoedd a chyrff eraill sy'n gwneud penderfyniadau yn gweithredu er mwyn sicrhau eu bod yn fwy "ystyriol o blant".

**Tystiolaeth o brofiadau oedolion wrth arfer hawl i apelio i dribiwnlysoedd**

5.9. O ystyried yr arfer cyfyngedig iawn wrth ymestyn hawliau i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnynt, mae'r dystiolaeth o brofiad oedolion wrth arfer hawliau mewn tribiwnlysoedd yn bwysig (gweler e.e. Runswick-Cole 2007, Dockrell et al. 2002, Riddell et al. 2009). Mae hyn yn amlygu amrywiaeth o effeithiau negyddol a chadarnhaol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- straen emosiynol posibl y gall plant a phobl ifanc sy'n arfer hawliau ei brofi;
- yr anawsterau y gallant eu profi wrth arfer eu hawliau (e.e. wrth baratoi achos a theithio i dribiwnlys);
- y potensial y bydd y broses yn eu grymuso.

**Casgliadau**

5.10. Mae’r llenyddiaeth (er yn gyfyngedig) yn y maes hwn yn dangos cefnogaeth gref i'r egwyddor o ymestyn hawl plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ond dim ond tystiolaeth gyfyngedig sydd gennym o hyn yn digwydd yn ymarferol. Yn y rhan fwyaf o achosion, cafodd cyfranogiad plant a phobl ifanc ei hyrwyddo drwy rwymedigaethau neu ddyletswyddau, a osodir ar oedolion, i ymgynghori â phlant a phobl ifanc, yn hytrach na thrwy ymestyn hawliau iddynt yn uniongyrchol. O ganlyniad i’r dull gweithredu hwn, bu cyfranogiad plant a phobl ifanc yn gyfyngedig yn ymarferol.

5.11. Gan fod cyn lleied o enghreifftiau o fentrau sy'n ymestyn hawl plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, mae'n bwysig ystyried pa wersi y gellid eu dysgu o feysydd eraill. Mae'r rhain yn cynnwys yn benodol, profiadau oedolion o apelio i dribiwnlysoedd ac achosion cyfreithiol sy'n ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc i gydsynio i driniaeth feddygol neu ei gwrthod.

## 6. Astudiaethau achos: y prosiectau yn Sir Gaerfyrddin a Wrecsam

### Cyflwyniad

6.1. Fel yr amlinellwyd ym mhennod pump, mae’r broses o ymestyn hawliau plant a phobl ifanc i apelio a gwneud hawliad i TAAAC yn newydd. O ganlyniad, nid oes llawer iawn o brofiad, cynsail na thystiolaeth 'arfer gorau' er mwyn cynorthwyo a llywio awdurdodau lleol wrth gynllunio ar gyfer ad-drefnu a darparu gwasanaethau sy’n angenrheidiol i weithredu'r darpariaethau a gyflwynwyd o dan y Mesur. Felly, fel yr amlinellwyd ym mhennod dau, mae gan y ddau awdurdod peilot rôl hanfodol i'w chwarae fel arloeswyr, gan amlinellu’r cyrchfan terfynol (beth sydd ei angen i fodloni'r gofynion a osodir ar awdurdodau lleol gan y Mesur) a’r llwybrau posibl i'r cyrchfan hwnnw i'w hystyried gan awdurdodau eraill wrth fynd ati i weithredu'r Mesur.

6.2. Yn yr adran hon, ar gyfer y ddwy ardal beilot, rydym yn disgrifio’r cyd-destun yn gryno, o ran nifer y plant a phobl ifanc sy'n mynd drwy'r broses asesu statudol ac yna’n amlinellu ethos y prosiect peilot a'r camau penodol a gymerwyd er mwyn:

- codi ymwybyddiaeth o hawliau plant a phobl ifanc i apelio a gwneud hawliad i TAAAC, ymhlith plant a phobl ifanc eu hunain a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw;
- cefnogi plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau am eu hawl i apelio a/neu wneud hawliad i TAAAC

### Cyd-destun ar gyfer y prosiectau peilot

6.3. Mae gan Sir Gaerfyrddin boblogaeth ysgol fawr (27,889) o'i chymharu â Wrecsam (19,156) (ffigurau ar gyfer 2011/12). Felly mae'n rhesymol disgwyl y byddai nifer y disgyblion sy'n mynd trwy'r broses asesu statudol yn uwch yn Sir Gaerfyrddin nag yn Wrecsam. Fodd bynnag, fel y mae Tabl 3 yn ei ddangos, bu nifer anghymesur mwy o ddisgyblion drwy broses asesu statudol

yn Sir Gaerfyrddin nag yn Wrecsam[15]. Fel y dengys Tablau 4 a 5, mae hyn wedi arwain at gyfradd uwch o ddatganiadau yn Sir Gaerfyrddin.

**Tabl 3. Nifer yr asesiadau, fesul awdurdod lleol**

| | Asesiadau a arweiniodd at ddatganiadau newydd | | Asesiadau a gwblhawyd, datganiadau nas rhoddwyd | | Asesiadau sy'n parhau ar 31 Rhagfyr | | Cyfanswm yr asesiadau sy'n parhau neu wedi'u cwblhau | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011 | 2012 | 2011 | 2012 | 2011 | 2012 | 2011 | 2012 |
| Wrecsam | 39 | 44 | 0 | 0 | 7 | 5 | 46 | 49 |
| Sir Gâr | 132 | 107 | 5 | 2 | 65 | 67 | 202 | 176 |

*Ffynhonnell: Disgyblion â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig: Ionawr 2013* [16]

**Tabl 4. Nifer y Disgyblion sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig, Sir Gaerfyrddin a Wrecsam**

| | 2006/07 | 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wrecsam | 834 | 840 | 834 | 758 | 706 | 650 | 615 |
| Sir Gâr | 1,133 | 1,135 | 1,140 | 1,047 | 1,046 | 1,061 | 1,056 |

*Ffynhonnell: Disgyblion â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig: Ionawr 2013,*

**Tabl 5. Disgyblion sydd â datganiadau, fesul grŵp oedran ac awdurdod lleol (Ionawr 2013)**

| | Cyfradd Fesul 1000 o Ddisgyblion | O dan 5 oed | 5-10 | 11-15 | 16 oed a hŷn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Wrecsam | 32 | 18 | 152 | 364 | 81 | 615 |
| Sir Gâr | 38 | 22 | 307 | 497 | 230 | 1,056 |
| Cymru | 29 | 698 | 4,287 | 6,768 | 1,811 | 13,564 |

*Ffynhonnell: Disgyblion â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig: Ionawr 2013,*

[15] Cymhareb poblogaeth y disgyblion yw 1:1.5. Mewn cyferbyniad, cymhareb yr asesiadau a arweiniodd at ddatganiadau newydd yn 2012 oedd 1:2.4
[16] http://cymru.gov.uk/docs/statistics/2013/130619-pupils-statements-special-educational-needs-january-2013-en.pdf

**Prosiect Peilot Sir Gaerfyrddin**

*Yr Ethos*

6.3. Mae'r prosiect peilot wedi'i seilio'n gadarn ar hawliau plant a phobl ifanc. Er enghraifft, amlygodd aelodau o dîm y prosiect peilot ganfyddiadau'r Comisiynydd Plant, nad oedd Erthygl 12 o CCUHP (parch at farn y plentyn) yn cael ei bodloni. At hynny, nid oedd hawliau plant i'w gweld yn y crynodeb. Pwysleisiodd aelodau o dîm y prosiect peilot er bod y broses apelio yn bodoli yn ôl y gyfraith, er mwyn i blant apelio mae angen iddynt ddeall bod ganddynt hawliau (yn ddelfrydol drwy ddeall y byddai hyn yn cynnwys hawliau mewn ystyr ehangach ac nid dim ond eu hawliau i apelio i TAAAC), a bydd angen cefnogaeth ar blant a phobl ifanc hefyd. Nodwyd mai eu dyhead oedd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod ac yn deall eu bod yn gallu siarad â phobl os oes ganddynt broblemau, ac yn benodol, os oes rhywbeth sydd ei angen arnynt - yn hytrach na rhywbeth y maent ei eisiau - dylent fod yn gallu mynd at rywun i'w helpu ei gael. Felly, roedd gwaith y prosiect peilot wedi ei wreiddio mewn cysyniad eang o hawliau a llais plant a phobl ifanc. Gweledigaeth y tîm oedd y dylai hawliau plant a phobl ifanc gael eu hymgorffori yn y cwricwlwm ac ar draws yr ystod oedran.

6.4. Roedd y ffocws ar gyfranogiad a llais plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau hefyd yn thema allweddol yn y prosiectau peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), yr oedd Cyngor Sir Gaerfyrddin, ac aelodau allweddol o dîm y prosiect peilot ar hawl plant a phobl ifanc i apelio, eisoes yn rhan ohonynt. Felly, ystyriwyd bod y ddau brosiect peilot (sef y prosiectau ADY a hawliau plant a phobl ifanc i apelio) yn ategu ei gilydd.

| **Y Prosiectau Peilot ADY** |
| --- |
| Yn 2009, sefydlwyd pedwar prosiect peilot fel rhan o raglen ymchwil weithredu a gynlluniwyd i lywio a galluogi'r gwaith o ddiwygio'r fframwaith statudol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig. |

Cafodd Peilot B, i ddatblygu a threialu model rhyngddisgyblaethol ar gyfer nodi, asesu, cynllunio ac adolygu darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion difrifol a/neu gymhleth, ei gynnal gan awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin a Thorfaen.

Mae rhagor o wybodaeth am y prosiectau peilot ar gael yn http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/programme-action-research-additional-learning-needs-pilot/?lang=cy

6.5. Penderfynodd tîm y prosiect peilot (hawl plant i apelio) yn Sir Gaerfyrddin, ar ddechrau'r prosiect, y byddai'n canolbwyntio ar y teulu, yn hytrach na'r plentyn unigol. Y rhesymeg dros hyn oedd eu bod yn teimlo mai'r teulu, ym mron pob achos, fyddai'n gwneud y penderfyniad i apelio neu i wneud hawliad, yn hytrach na'r plentyn (neu berson ifanc) yn unig. Er enghraifft, caiff llawer o asesiadau statudol eu cynnal pan fo'r plant yn ifanc, felly dim ond gyda chymorth y teulu y bydd plant yn arfer eu hawliau. Mae'r canolbwynt ar deuluoedd hefyd wedi galluogi'r prosiect i wella cyfathrebu rhwng yr awdurdod lleol a rhieni a gofalwyr ac ystyriwyd y byddai gwella'u hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o'u hawliau yn ddymunol. Roedd hyn yn adlewyrchu pryderon am y nifer cymharol uchel o apeliadau gan rieni a gofalwyr i TAAAC (a amlinellwyd ym mhennod dau).

*Codi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc*

6.6. Roedd gan y strategaeth i godi ymwybyddiaeth ddwy elfen. Roedd un yn eang, ac yn ymdrin â'r holl blant a phobl ifanc oedran ysgol, ac roedd un yn gul, wedi'i thargedu'n benodol at blant a phobl ifanc sy'n rhan o'r broses asesu statudol.

6.7. Roedd y dull eang, ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc, yn cynnwys dosbarthu taflenni a phosteri mewn ysgolion, a thrafod hawliau plant a phobl ifanc fel rhan o'r cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh). Gwelwyd bod anawsterau moesol ac ymarferol wrth nodi a thargedu plant a phobl ifanc

unigol ag anableddau. Felly, defnyddiodd y strategaeth i godi ymwybyddiaeth o hawliau i wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd y dull eang hwn (yn hytrach na dull wedi'i dargedu).

6.8. Gyda'r dull wedi'i dargedu, roedd angen i bob gweithiwr cymorth i deuluoedd[17] ADY gysylltu â theuluoedd ar ddechrau'r broses asesu statudol, er mwyn egluro'u rôl (fel gweithwyr cymorth i deuluoedd), hawliau'r teulu, a gadael gwybodaeth am eu hawliau a ffynonellau o gefnogaeth. Y nod oedd gweithio gydag unrhyw deulu lle roedd eu plentyn yn mynd drwy'r broses asesu statudol ac felly roedd hawl i apelio ganddynt.

6.9. Pan fyddai plentyn neu berson ifanc yn derbyn gofal, roedd y Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd ADY hefyd yn cysylltu â'r Gweithiwr Cymdeithasol. Heblaw bod gorchymyn cyfrifoldeb ar y cyd gyda'r rhiant, y Gweithiwr Cymdeithasol sy'n derbyn y gwaith papur statudol os ydynt o dan ofal yr awdurdod lleol. Maent hefyd wedi ymweld â rhai gofalwyr maeth er mwyn esbonio'r broses asesu statudol (h.y. graddfeydd amser ac apwyntiadau y mae angen eu mynychu, gan mai nhw fydd yn mynychu'r apwyntiadau gyda'r plentyn yn ôl pob tebyg).

6.10. Ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny sydd eisoes â datganiadau o AAA ac sydd "yn y system", mae Sir Gaerfyrddin wedi canolbwyntio ar yr adolygiad blynyddol sy'n canolbwyntio ar y plentyn fel modd o gynnwys y plentyn, a rhoi "llais" iddo yn y broses. Disgwylir i gydlynwyr AAA/ADY drafod hawliau plentyn neu berson ifanc gyda nhw fel rhan o'r broses hon, neu drwy waith 'Hawliau Plant' mwy cyffredinol.

6.11. Mewn ymateb i adborth gan weithwyr proffesiynol ym maes addysg a rhieni, penderfynodd Sir Gaerfyrddin beidio â darparu deunydd darllen am 'Hawl Plentyn i Apelio' i blant mewn "plentyndod cynnar[18]" gan nad oeddent yn

[17] Roedd dau weithiwr cymorth i deuluoedd i ddechrau. Gostyngwyd y nifer o swyddi i un swydd yn ddiweddarach.

[18] Ystyriodd pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn y pwnc o weithredu hawliau plant yn ystod plentyndod cynnar yn 2005 a daeth i'r casgliad "As holders of rights, even the youngest children are entitled to express their views, which should be given due weight in accordance with the age and maturity of the child" (erthygl. 12.1) (t. 7 UN, 2005) ac mae'n argymell bod "States parties include

teimlo ei bod yn briodol trafod hyn gyda phlant dan 8 oed. Fodd bynnag, maent wedi parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod plant (a phobl ifanc) yn cael llais yn y broses a'u bod yn deall, os oes rhywbeth sydd yn bwysig iddynt nad yw'n cael ei ddarparu, y gallant fynd i rywun am help.

*Codi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol*

6.12. Er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau plant a phobl ifanc i apelio ymhlith gweithwyr proffesiynol, cynhaliodd tîm y prosiect peilot gyflwyniadau a sesiynau briffio i wasanaethau unigol, fel gwasanaethau cymdeithasol, Gyrfa Cymru, gwasanaethau ALl fel y gwasanaeth ieuenctid, tîm pontio a'r timau plant anabl. Cafodd prosiectau eraill a sefydliadau yn y sector gwirfoddol, fel Cyfleoedd Gwirioneddol a Mencap, eu targedu hefyd. Gwnaeth tîm y prosiect peilot hefyd gysylltu â grwpiau fel fforymau AAA; a chomisiynwyd y fenter gymdeithasol, Dynamix,[19] i ddarparu hyfforddiant ar hawliau plant a phobl ifanc i ysgolion. Daeth cyfanswm o 191 o bobl i'r sesiynau hyfforddi neu godi ymwybyddiaeth.

*Cymorth*

6.13. Ystyriwyd rôl y gweithiwr cymorth i deuluoedd fel rhan annatod o'r prosiect. Roeddent yn chwarae rhan ganolog wrth gyfathrebu hawliau i deuluoedd a hefyd yn sicrhau bod gan deuluoedd fynediad i gymorth wrth wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid gwneud apêl neu hawliad.

6.14. Mae'r gweithwyr cymorth i deuluoedd wedi gweithio gyda thros 100 o deuluoedd hyd yn hyn. Dim ond unwaith y gwelwyd rhai o'r teuluoedd hyn, tra cafwyd perthynas barhaus gydag eraill. Gallai'r berthynas ofyn am gyswllt rheolaidd ar adegau (e.e. yn ystod y broses asesu statudol) a bod yn llawer mwy ysbeidiol ar adegau eraill (e.e. drwy gysylltu cyn adolygiad blynyddol yn unig). Yn ogystal ag ymweld â theuluoedd, er mwyn esbonio hawliau'r teulu

---

human rights education within early childhood education" (t. 15 ibid.).
[19] http://www.dynamix.ltd.uk/index.php?lang=en

a'r broses asesu statudol, mae gweithwyr cymorth i deuluoedd hefyd wedi mynd i gyfarfodydd, fel cyfarfodydd adolygu datganiad.

*Gwasanaethau eiriolaeth*

6.15. Roedd nifer o wasanaethau eiriolaeth yn bodoli i blant yn Sir Gaerfyrddin. Roedd y rhain yn cynnwys Gweithredu dros Blant (sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal) a SNAP Cymru (sy'n cefnogi teuluoedd lle mae gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd o'r fath). Cafodd y gwasanaethau eiriolaeth hyn eu hategu gan y gwasanaeth ieuenctid.

*Datrys anghydfodau*

6.16. Comisiynwyd SNAP Cymru, sy'n darparu Gwasanaeth Datrys Anghydfodau Sir Gaerfyrddin ar gyfer rhieni a gofalwyr, i ymestyn y gwasanaeth hwn i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd ym mhennod wyth, mae gweithwyr cymorth i deuluoedd hefyd wedi cymryd rôl allweddol mewn perthynas â datrys anghydfodau.

**Dull Wrecsam o weithredu'r Mesur**

*Ethos*

6.17. Fel yn Sir Gaerfyrddin, cafodd y dull o weithredu gofynion y Mesur yn Wrecsam ei seilio ar ddealltwriaeth ehangach o gyfranogiad plant a phobl ifanc. Roedd hyn yn pwysleisio pwysigrwydd cyfranogiad plant a phobl ifanc ym mhob cam o'r broses asesu statudol (ac nid dim ond mewn perthynas â hawliau i apelio). O ganlyniad, gosododd tîm Wrecsam gryn bwyslais ar "Ffurflen D", sef cyfraniad y disgybl at y broses adolygu flynyddol. Fodd bynnag, yn wahanol i Sir Gaerfyrddin, nid oedd Wrecsam yn rhan o'r prosiectau peilot ADY. Er bod yr Awdurdod wedi bwriadu cyflwyno cynllunio sy'n canolbwyntio ar y person, roedd hyn yn llai datblygedig nag yn Sir

Gaerfyrddin (a oedd wedi dechrau ar y broses yn gynharach fel rhan o'r prosiectau peilot ADY).

6.18. Yn fwy sylfaenol, canolbwyntiodd Wrecsam ar hawliau plant a phobl ifanc fel hawliau sydd ar wahân i hawliau rhieni a gofalwyr, er yn hafal iddynt ac yn eu hadlewyrchu (yn hytrach na'u gweld fel rhan o hawl y teulu). Felly, roedd ffocws y broses o godi ymwybyddiaeth ar blant a phobl ifanc, yn hytrach na theuluoedd. Roedd y dull yn gofyn am ddatblygu prosesau ar gyfer hysbysu plant a phobl ifanc am eu hawliau a oedd yn rhedeg yn gyfochrog â phrosesau presennol i wneud rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o'u hawliau i apelio ac yn adlewyrchu'r prosesau hyn.

6.19. Y gwahaniaeth allweddol terfynol o ran y dull a weithredwyd yn Wrecsam, oedd mabwysiadu model mwy gwasgaredig, lle cafodd llawer o'r gwaith o ran cyfathrebu hawliau a chefnogaeth i blant a phobl ifanc eu cyflwyno gan staff presennol yr ysgol. Felly, yn hytrach na swyddog pwrpasol (y gweithiwr cymorth i deuluoedd ADY), roedd athrawon a staff cymorth yn helpu i egluro hawliau a chefnogi plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid apelio neu wneud hawliad.

*Codi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc*

6.20. Roedd gan y strategaeth i godi ymwybyddiaeth ddwy elfen. Yr elfen gyntaf oedd dull wedi'i dargedu, a oedd yn canolbwyntio ar sicrhau bod plant a phobl ifanc sy’n cymryd rhan yn y broses asesu statudol yn ymwybodol o'u hawliau. Yn wahanol i Sir Gaerfyrddin, rhoddwyd llai o bwyslais ar y dull eang o godi ymwybyddiaeth o hawliau i apelio ymhlith yr holl blant a phobl ifanc; serch hynny, cyhoeddwyd gwybodaeth ar wefan “Wrecsam Ifanc”[20]. Yr ail elfen oedd dull eang o godi ymwybyddiaeth ymhlith yr holl blant a phobl ifanc oedran ysgol o’u hawl i wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd.

[20] http://www.youngwrexham.co.uk/cym/gwybodaeth/addysg-cyflogaeth-a-hyfforddiant/anghenion-addysgol-arbennig/lleisiau-a-dewisiadau/

6.21. Roedd y dull wedi'i dargedu o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau i apelio yn gofyn am ddatblygu proses "llais y disgybl" i redeg ochr yn ochr â'r broses asesu statudol bresennol ac i'w hintegreiddio â hi. Roedd hyn yn golygu bod Wrecsam, yn y lle cyntaf, wedi canolbwyntio ar geisiadau newydd ar gyfer asesiadau statudol (tua 40 o blant a phobl ifanc). Mae'r broses bresennol yn cynnwys gwaith papur ar gyfer rhieni a gofalwyr, yn amlinellu eu hawliau i apelio, a datblygwyd llythyrau a thaflenni cyfatebol ar gyfer plant a phobl ifanc. Roedd y rhain yn adlewyrchu'r gwaith papur a'r prosesau ar gyfer hysbysu oedolion am eu hawliau. Felly, cyn gynted ag y gwneir cais am asesiad statudol, caiff y gwaith papur ei anfon at rieni neu ofalwyr a'r plentyn neu'r person ifanc hefyd. Cynigir cymorth ychwanegol a gofynnir i gyfeillion achos[21] fynd trwy'r llythyr ac esbonio'r cynnwys i blant a phobl ifanc a'u hatgoffa bod gwasanaethau eiriolaeth ar gael drwy gydol y broses.

6.22. Yn ogystal, gweithiodd Wrecsam i sicrhau bod staff ysgolion a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r broses yn ymwybodol o hawliau plant i apelio (ac i wneud hawliad) a'u bod yn gallu egluro'r hawliau hynny i blant os byddai angen.

6.23. Cafodd y broses ar gyfer rhoi gwybod i oddeutu 600 o blant a phobl ifanc a oedd eisoes "yn y system" (h.y. y rhai sydd eisoes wedi cael datganiad) o'u hawliau i apelio, ei thargedu hefyd, ond roedd y dull a fabwysiadwyd yn wahanol. Ystyriwyd anfon llythyr at yr holl blant a phobl ifanc sydd â datganiad AAA, ond nid oedd y tîm yn gyfforddus â hynny. Yn hytrach, mabwysiadwyd strategaeth lle byddai'r Cydlynydd AAA neu'r athrawon dan sylw yn rhoi gwybod i blant a phobl ifanc am eu hawl i apelio mewn cyfarfodydd adolygu a chynllunio ar gyfer trosglwyddo blynyddol. Yn ogystal, gan fod "gweithiwr allweddol" (yn hytrach na "chyfaill achos"[22]), gan blant a

[21] Caiff cyfaill achos ei benodi cyn y cais am asesiad statudol, fel bod y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei gefnogi o ddechrau'r broses. Mae'r cyfaill achos yn cymryd rhan yn y broses gyfan ac yn egluro popeth i'r disgybl gan gynnwys hawliau i apelio. Mae'r rôl hon yn wahanol i "gyfaill achos" sy'n gweithredu i gefnogi plentyn sy'n cyflwyno hawliad i apelio i TAAAC ac sy'n gallu cyflwyno hawliad ar ran y plentyn ac sy'n gallu cefnogi'r plentyn drwy'r broses.

[22] Yn yr achosion hyn nid oes cyfeillion achos gan fod y datganiadau wedi'u sefydlu cyn y prosiect peilot.

phobl ifanc sydd â datganiad yn barod, gallant fynd drwy Ffurflen D (cyfraniad y disgybl) gyda nhw, gan sicrhau cyfle arall i esbonio eu hawliau.

6.24. Dros gyfnod o amser, fel yn Sir Gaerfyrddin, bydd pob carfan newydd o ddisgyblion yn llifo i'r system (wrth iddynt fynd drwy'r broses asesu statudol), a byddant yn cael eglurhad o'u hawliau ar y cychwyn.

6.25. Sefydlwyd proses ar gyfer nodi'r plant neu'r bobl ifanc hynny nad oedd yn bosibl iddynt, oherwydd eu hoedran a/neu gymhlethdod yr angen, gymryd rhan yn y broses. Mae grŵp amlasiantaeth, gan gynnwys, er enghraifft seicolegydd addysg a'r Cydlynydd AAA, yn penderfynu a all plentyn neu berson ifanc gyfrannu ai peidio. Caiff hyn ei benderfynu fel arfer drwy gyfarfod â'r rhieni neu'r gofalwyr cyn yr asesiad statudol a datblygwyd profforma i gadarnhau lle ystyrir nad yw'n briodol i gynnwys y plentyn neu'r person ifanc yn y broses.

6.26. Fel rhan o'r dull eang o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau i wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd, datblygwyd a dosbarthwyd poster[23] i ysgolion. Cafodd hyn ei ategu gan waith anuniongyrchol i sicrhau bod staff yr ysgol, ac yn arbennig Cydlynwyr AAA, a gweithwyr proffesiynol eraill, yn ymwybodol o hawliau plant a phobl ifanc i wneud hawliad. Gwnaed cysylltiadau hefyd â gwaith mwy cyffredinol yr awdurdod lleol ar gydraddoldeb, "Wythnos Cydraddoldeb" Wrecsam, oedd â'r nod o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb yn Wrecsam.

*Rhoi gwybod i weithwyr proffesiynol am yr hawliau*

6.27. Er mwyn sicrhau bod staff yr ysgol a gwasanaethau proffesiynol yn ymwybodol o hawliau plant a phobl ifanc, gwahoddwyd pob un o ysgolion Wrecsam (n=75) a gwasanaethau dewisol, fel seicolegwyr addysg a gweithwyr cymdeithasol addysgol, i fynychu hyfforddiant Llais y Disgybl.

[23] Gweithiodd Wrecsam gyda disgyblion yn yr Unedau Cyfeirio Disgyblion i ddylunio posteri. Trefnwyd cystadleuaeth i ddylunio posteri i godi ymwybyddiaeth o hawliau. Ystyriwyd y broses hon hefyd yn un ffordd o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau gwahaniaethu ar sail anabledd mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Roedd hyn yn cynnwys cyflwyniadau gan dîm y prosiect a dosbarthu gwybodaeth am hawliau plant a phobl ifanc i apelio a gwneud hawliad. Cafodd hyn ei ategu gan waith dilynol gyda grwpiau penodol o weithwyr proffesiynol fel therapyddion lleferydd ac iaith, gweithwyr cymdeithasol addysgol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), pediatryddion, Tîm o Amgylch y Teulu (TAF), Ail Lais (gwasanaeth eiriolaeth), cymorth ymddygiad, Gwasanaethau Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL), gwasanaethau synhwyraidd, a Gwasanaethau Partneriaethau Rhieni. Daeth cyfanswm o 50 o ysgolion i'r hyfforddiant a daeth cynrychiolydd o'r rhan fwyaf o dimau/gwasanaethau a wahoddwyd i'r hyfforddiant.

6.28. Mabwysiadwyd model hyfforddi sy'n 'rhaeadru' er mwyn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o hawliau plant a phobl ifanc i apelio ac yn deall yr hawliau hyn. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda phobl allweddol, fel penaethiaid a chydlynwyr AAA mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a dibynnu arnynt i sicrhau bod pobl eraill yn eu hysgolion yn ymwybodol o'r hawliau. Yn ogystal, rhoddwyd gwybodaeth am y broses o ymestyn hawliau ar fewnrwyd yr ysgolion, ar "fwletin dydd Gwener " Wrecsam (ar gyfer staff ALl); ac anfonwyd llythyr atgoffa a gwybodaeth i bob ysgol hefyd.

6.29. Fel yr amlinellwyd uchod, canolbwyntiodd Wrecsam ar "newydd-ddyfodiaid" i ddechrau a chanolbwyntiodd yr hyfforddiant cychwynnol ar sicrhau bod staff ysgolion a gweithwyr proffesiynol eraill yn deall y broses ar gyfer sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n ymuno â'r system am y tro cyntaf (yn hytrach na'r rhai sydd eisoes wedi cael datganiad AAA) yn deall eu hawliau. Unwaith i'r gwaith hwn gael ei gwblhau, dechreuodd y prosiect peilot ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r hawl i apelio i blant a phobl ifanc a oedd eisoes yn y system (oherwydd bod ganddynt ddatganiad AAA). Er mwyn sicrhau bod staff ysgolion a gweithwyr proffesiynol eraill yn deall hawliau'r plant a'r bobl ifanc hyn a'u bod yn gallu eu hesbonio yn ystod cyfarfodydd adolygu, cafodd

canllaw arfer da ei ddatblygu[24] a'i ddosbarthu i ysgolion drwy fforwm Cydlynwyr AAA Wrecsam, a chafodd hyfforddiant pellach ei gyflwyno.

[24] Canllaw arfer da ar gyfer ysgolion yw hwn sy'n ymdrin â'r broses adolygu flynyddol. Mae'n tynnu sylw ysgolion at bwysigrwydd cyfranogiad y disgyblion i'r broses adolygu flynyddol a sicrhau bod eu barn yn cael ei cheisio (cwblhau Ffurflen D). Yn ogystal, mae'r canllaw yn nodi y dylid defnyddio'r broses adolygu flynyddol fel fforwm i godi ymwybyddiaeth o hawliau disgyblion i apelio.

*Cymorth*

6.30. Er mwyn helpu plant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau, caiff yr hyn a ddisgrifir gan Wrecsam fel *cyfaill achos* ei neilltuo i'r holl blant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y broses asesu statudol. Mae'r plentyn neu'r person ifanc yn dewis y cyfaill achos gyda chymorth gan staff yr ysgol.[25] Mae'r rhan fwyaf o'r cyfeillion achos yn weithwyr ysgol, y mae gan y plentyn berthynas â hwy yn barod. Mae Wrecsam yn anfon pecyn gwybodaeth at y cyfaill achos i egluro'r rôl a helpu i'w cefnogi. Bydd pob gohebiaeth o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn mynd drwy'r ysgolion a hefyd at y cyfaill achos er mwyn sicrhau y gall ef neu hi gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc, sicrhau eu bod yn deall eu hawliau a'r broses ac, os bydd yn cyrraedd apêl, maent yn gallu cefnogi'r plentyn yn well.

6.31. Yn ychwanegol at y gefnogaeth a ddarperir gan gyfeillion achos, comisiynodd Wrecsam Ail Lais i ddarparu cymorth eiriolaeth i blant a phobl ifanc sy'n arfer eu hawliau mewn perthynas ag asesu a datganiadau statudol. Caiff gwasanaeth Ail Lais ei esbonio i blant a phobl ifanc fel rhan o'r broses ar gyfer egluro eu hawliau i apelio a chaiff taflenni sy'n egluro'r gwasanaeth eu cynnwys yn y llythyrau Llais y Disgybl a anfonir at blant a phobl ifanc[26]. Mae hyn yn ategu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Wrecsam â'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth i ddarparu Gwasanaeth Partneriaethau Rhieni.

*Datrys anghydfodau*

6.32. Cafodd y gwasanaeth datrys anghydfodau presennol ar gyfer rhieni a gofalwyr, Gwasanaeth Datrys Anghydfodau AAA Gogledd Cymru a ddarperir gan SNAP (Cymru), ei ymestyn i gynnwys plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, yn hanesyddol, nid yw rhieni a gofalwyr wedi defnyddio'r gwasanaeth a

---

[25]Pan fydd yr awdurdod lleol yn derbyn cais am Asesiad Statudol bydd y disgybl yn dewis ei gyfaill achos gyda chymorth gan staff yr ysgol.Pan fydd rhieni'n cychwyn y cais am Asesiad Statudol, cysylltir â'r ysgol ynghylch y cyfaill achos ac mewn rhai achosion mae'r rhieni wedi helpu'r plentyn neu'r person ifanc i ddewis cyfaill achos.
[26] Roedd Hyfforddiant ar gyfer Ail Lais yn cwmpasu hawliau plant a phobl ifanc i apelio i TAAAC a Chod Ymarfer AAA ar gyfer Cymru.

gynigir gan SNAP Cymru, sy'n awgrymu bod nifer y plant a phobl ifanc sy’n manteisio ar y gwasanaeth yn debygol o fod yn isel. At hynny, er ei bod yn ofynnol yn ôl y Mesur i sicrhau bod gwasanaethau datrys anghydfodau ar gael i blant a phobl ifanc (ac mae Wrecsam wedi ymateb i hyn), mae Wrecsam yn ystyried gwasanaeth SNAP Cymru yn bennaf fel gwasanaeth cefnogaeth i rieni, ac maent yn ystyried eiriolwyr a chyfeillion achos fel ffynonellau allweddol o gymorth i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwahaniaeth y mae’r prosiect peilot wedi’i nodi rhwng gwybodaeth a chymorth ar gyfer pob un.

6.33. Fel yr amlinellwyd uchod, agwedd allweddol ar rôl y gweithiwr cymorth i deuluoedd yn Sir Gaerfyrddin yw gwella cyfathrebu gyda theuluoedd, drwy egluro’r broses a'r penderfyniadau, mewn ymdrech i leihau gwrthdaro ac anghytundeb. Yn Wrecsam, er enghraifft, lle mae panel safoni wedi penderfynu peidio â rhoi datganiad AAA, mae'r panel yn rhoi adborth ar eu penderfyniad drwy lythyr a bydd swyddog cefnogi disgyblion yn cwrdd â'r teulu i esbonio'r penderfyniad.

## 7. Canfyddiadau allweddol o'r prosiectau peilot

### Gweithredu'r mesur

7.1. Fel yr amlinellwyd ym mhennod tri, roedd yn ofynnol i'r astudiaeth ystyried cyfres o gwestiynau am y broses weithredu:

- Pwy oedd yn cymryd rhan - plant a phobl ifanc, rhieni, grwpiau eiriolaeth/â diddordeb - yn y broses o gynllunio a gweithredu'r darpariaethau yn y mesur?
- Beth oedd canlyniad y cyfranogiad hwn?
- Pa ffactorau - e.e. adnoddau, ymrwymiad, arbenigedd, arferion a systemau presennol - os o gwbl, sydd wedi creu rhwystrau i weithredu'r darpariaethau neu eu hwyluso?
- Ym mha ffyrdd, os o gwbl, cafodd cyd-destun - e.e. adnoddau, ymrwymiad, arbenigedd, arferion a systemau presennol - effaith ar y broses weithredu?

### Cyd-destun

7.2. Fel yr amlinellwyd yn y bennod flaenorol, mewn rhai ffyrdd, roedd dulliau Sir Gaerfyrddin a Wrecsam o weithredu'r Mesur yn amrywio. Cafodd y gwahaniaethau hyn eu dylanwadu gan y gwahanol gyd-destunau ym mhob awdurdod lleol a gwahaniaethau o ran ethos a buddiannau'r rheiny sy'n ymwneud â gweithredu'r Mesur. Er enghraifft, roedd Sir Gaerfyrddin yn awyddus i wella cyfathrebu â rhieni er mwyn lleihau'r gyfradd gymharol uchel o apeliadau gan rieni i TAAAC, ac arweiniodd hyn at ddatblygu rôl newydd y gweithwyr cymorth i deuluoedd ADY. Roedd Sir Gaerfyrddin hefyd wedi cyflwyno hyfforddiant mewn cynllunio sy'n canolbwyntio ar y person fel rhan o'r prosiectau peilot ADY, a oedd yn cefnogi ffocws cryf ar gyfranogiad plant a phobl ifanc, ac roedd aelodau allweddol o staff yn awyddus i bwysleisio hawliau plant mewn cyd-destun ehangach na dim ond hawliau i apelio neu wneud hawliad i TAAAC. Mewn cyferbyniad, roedd Wrecsam yn fwy hyderus bod cyfathrebu â theuluoedd yn effeithiol (sy'n cael ei adlewyrchu yn eu

lefelau hanesyddol isel o apeliadau i TAAAC) ac roedd y ffocws llawer mwy ar hawliau plant yn hytrach na hawliau'r teulu.

**Dylunio a chyfranogiad rhanddeiliaid**

7.3. Ym mhob un o'r ddau ALI, cafodd y gwaith o weithredu'r darpariaethau yn y Mesur ei arwain gan dimau cymharol fach o fewn adrannau cynhwysiant pob ALI. O ystyried eu safbwynt a'u rolau o fewn yr ALI roeddent yn deall y broses asesu statudol bresennol a hawliau rhieni a gofalwyr i apelio. Fodd bynnag, nododd bob tîm fod yr her o gyfathrebu hawliau i apelio a gwneud hawliad i blant a phobl ifanc a allai fod yn ifanc a/neu sydd ag anghenion cymhleth, yn her sylweddol. O ganlyniad, fel yr amlinellwyd isod, cafodd cyfranogiad rhanddeiliaid yn y ddwy ardal ei bwysoli tuag at blant a phobl ifanc[27] ac roedd yn canolbwyntio, yn benodol, ar gyfathrebu'r hawliau, yn hytrach nag ar agweddau eraill ar weithredu gofynion y Mesur.

*Datblygu proses a dulliau ar gyfer cyfathrebu hawliau i blant a phobl ifanc: Wrecsam*

7.4. Er mwyn datblygu prosesau ar gyfer plant a phobl ifanc, comisiynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) i ymgynghori â "pupils of primary and secondary ages, professionals, including Head teachers and parents, to seek their views on the Measure and what is needed in education and advocacy service to ensure the Measure is effective"(Harrison, 2011). Ymgynghorwyd â chyfanswm o:

- 18 o blant a 27 o bobl ifanc sydd â datganiad AAA, o'r rhain, roedd chwech ohonynt yn blant sy'n derbyn gofal;
- 14 o rieni plant sydd ag AAA;
- 13 o benaethiaid;
- 11 o arbenigwyr, fel gweithwyr cymdeithasol addysgol neu seicolegwyr addysgol.

[27] Er i ymgynghoriad Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) gynnwys grwpiau eraill o randdeiliaid, canolbwyntiwyd yn bennaf ar sut i gyfathrebu'r hawl.

7.5. Nododd y gwaith hwn y canlynol:

- Cymorth ymhlith llawer o gyfranogwyr i'r egwyddor o gynyddu cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau ac ymestyn hawliau i apelio;
- yr angen i ddiwygio'r gweithdrefnau a gwaith papur presennol a ddefnyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam er mwyn eu gwneud yn fwy "hygyrch" i blant a phobl ifanc;
- yr angen am amrywiaeth o ddulliau i hysbysu plant a phobl ifanc am eu hawliau;
- yr angen am fodel eiriolaeth arbenigol i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag AAA (ibid.).

7.6. Cafodd y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan Wrecsam ei lywio gan yr ymgynghoriad hwn a chafwyd ymgynghoriadau dilynol gyda phobl ifanc drwy Fforwm Ieuenctid “Big Yak”.

*Datblygu prosesau a dulliau ar gyfer cyfathrebu hawliau i blant a phobl ifanc: Sir Gaerfyrddin*

7.7. Yn Sir Gaerfyrddin, cafodd y model ei ddatblygu’n "fewnol" a phrif ffocws yr ymgynghoriad oedd sut y byddai plant a phobl ifanc eisiau derbyn gwybodaeth am eu hawliau. Archwiliwyd sut y byddai'r wybodaeth yn cael ei throsglwyddo yn hytrach na chynnwys y neges. Golygai hyn, er bod y ffocws ar gyfathrebu’r hawl i apelio, roedd yn bosibl trosglwyddo’r dulliau o gyfathrebu’r hawliau hynny i’r broses o gyfathrebu hawliau i wneud hawliad i TAAAC.

7.8. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys pedwar grŵp o blant a phobl ifanc, sy'n cynrychioli gwahanol grwpiau oedran, mewn lleoliadau gwahanol:

- cynradd (prif ffrwd), 7-11 oed
- uwchradd (prif ffrwd), 12-14 oed

- ysgol arbennig, 15-17 oed
- Coleg AB, 16-19 oed

7.9. Roedd gan bob plentyn oedd yn rhan o'r ymgynghoriad Gynllun Datblygu Unigol (CDU), datganiad neu statws Gweithredu gan yr Ysgol/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.

7.10. Nododd (y prosiect peilot) fod y bobl ifanc wedi gwerthfawrogi'r profiad yn fawr iawn a defnyddiwyd eu sylwadau wrth ddylunio'r deunyddiau. Er enghraifft, datgelodd yr ymgynghoriadau ei bod yn fwy effeithiol os nad yw'r taflenni a'r deunyddiau papur yn lliwgar a deniadol (fel y rhagwelodd y tîm y byddai plant a phobl ifanc yn dymuno) ond yn hytrach yn syml ac yn weledol.

**Costau**

7.11. Fel yr amlinellwyd ym mhennod tri, roedd yn ofynnol i'r astudiaeth ystyried cyfres o gwestiynau am gostau'r prosiectau peilot:

- Pa gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu agweddau penodol ar y mesur?
- Beth fu cost gyffredinol y broses o weithredu o fewn yr awdurdodau peilot?
- Ym mha ffyrdd, os o gwbl, y byddai'n bosibl lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r darpariaethau?
- Beth fydd y costau amcangyfrifedig ar gyfer cyflwyno'r prosiectau peilot ledled Cymru?

*Costau gweithredu'r prosiect peilot*

7.12. Cyfanswm y gyllideb ar gyfer pedair blynedd y prosiect peilot ym mhob awdurdod lleol oedd £81,250 (2010-2014). Ar adeg ysgrifennu (Tachwedd 2013), roedd Wrecsam wedi hawlio £68,762, a Sir Gaerfyrddin wedi hawlio £52,786, ar gyfer y cyfnod Ebrill 2010-Medi 2013. Gellid egluro'r gwahaniaeth drwy'r ffaith bod Sir Gaerfyrddin wedi dechrau'r prosiect yn hwyrach na Wrecsam, felly nid oedd yn hawlio unrhyw "gostau cyn-cychwyn" ar gyfer y cyfnod Medi 2011-Mawrth 2012.

7.13. Mae'r costau yn ymwneud â sefydlu neu ddechrau'r prosiect peilot (costau cychwyn) ac yna'i redeg neu ei weithredu (costau gweithredol). Gan mai dim ond un hawliad a wnaed, a dim un apêl, roedd costau canlyniadol ychwanegol gweithredu'r mesur yn gymharol fach[28]. Roedd y costau allweddol yn ystod y prosiectau peilot yn ymwneud â datblygu (gan gynnwys ymgynghori) ac amser staff. Fel yr amlinellwyd ym mhennod chwech, mabwysiadodd y prosiectau peilot ddulliau gwahanol, felly roedd y costau yn wahanol. Er enghraifft,

- comisiynodd Wrecsam NYAS i gynnal astudiaeth ymchwil i ymgynghori â phlant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol (Harrison 2011), tra cynhaliwyd ymgynghoriad Sir Gaerfyrddin gan aelodau o'r tîm peilot;
- dibynnodd Wrecsam ar aelodau presennol o'r tîm Cynhwysiant i ddatblygu a gweithredu'r prosiect peilot, ac roedd Sir Gaerfyrddin yn y lle cyntaf wedi creu dwy swydd newydd "gweithiwr cymorth i deuluoedd ADY", er mwyn helpu i weithredu gofynion y mesur, er bod hyn wedi gostwng i un swydd yn y pen draw;
- roedd y ddau awdurdod lleol yn dibynnu ar aelodau staff presennol i fonitro a gweinyddu'r prosiectau.

[28]Mae'n anodd cael union ffigurau ar gyfer y gost o ymladd achos yn TAAAC, ond mae amcangyfrifon o un o'r prosiectau peilot yn awgrymu y byddai'n costio tua £10,000. At hynny, byddai'n rhaid talu'r costau os oedd yr achos yn cael ei ddwyn gan blentyn neu berson ifanc neu eu rhieni neu ofalwyr.

7.14. Hysbysebodd Sir Gaerfyrddin y swydd gweithiwr cymorth i deuluoedd ADY yn Soulbury 7 (£39,079, y lefel isaf ar gyfer athro ymgynghorol) oherwydd eu bod yn rhagweld y byddai deiliaid y swydd yn gweithio ar gyfer yr awdurdod lleol o ran darparu hyfforddiant a chyngor i ysgolion. Ystyriwyd hefyd y gallai'r swydd gael ei chynnig fel secondiad i Gydlynwyr AAA. Fodd bynnag, ac eithrio darparu mewnbwn ar y cyd i fforymau HMS/Cydlynwyr AAA, ni chafodd agwedd hyfforddiant a chyngor y rôl y ei datblygu. Roedd pryderon y gallai’r rôl hon beryglu rôl y gweithiwr cymorth i deuluoedd. Byddai'n golygu, yn ogystal â darparu cyngor a chymorth annibynnol i deuluoedd, a allai fod yn groes i'r ysgol a/neu awdurdod lleol, byddai'r gweithiwr hefyd yn rhoi cyngor i ysgolion am y ddarpariaeth ac yn ystyried polisïau a chyllid awdurdod lleol.

7.15. Ni chafodd agwedd hyfforddiant a chyngor y rôl gydag ysgolion ei datblygu felly roedd yn bosibl ailddiffinio’r rôl. Gall hyn fod yn rhywbeth i’w ystyried gan awdurdodau lleol eraill sy’n edrych i ddatblygu rôl debyg. Gallai hyn leihau cost y swydd oherwydd bod cyflog swyddi gweithwyr cymorth yn gyffredinol ar lefel is na chyflog staff addysgu ymgynghorol. Er enghraifft, mae Costau Uned Gofal Cymdeithasol 2012 yn darparu cyflog o £22,918 y flwyddyn, argostau o £6,312 y flwyddyn, a gorbenion uniongyrchol ac anuniongyrchol o £13,144, i roi cyfanswm cost flynyddol o £42,374 ar gyfer "gweithiwr cymorth i deuluoedd"[29] (t. 196, Curtis, 2012).

7.16. Yn ychwanegol at gostau staff, roedd costau allweddol eraill yn cynnwys:

- hyfforddiant ar gyfer staff y prosiect peilot yn Sir Gaerfyrddin[30] (mynychodd y gweithwyr cymorth i deuluoedd gwrs ‘Cyfathrebu ac Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc Anabl) (tua £1,000);
- hyfforddiant ar gyfer rhanddeiliaid eraill;
- paratoi taflenni a deunyddiau (tua £650 am gyfnod o chwe mis yn Wrecsam yn 2013).

[29]Mae'r rôl hon, ar gyfer person sy'n darparu “emotional and practical help and advice to families who are experiencing long- or short term difficulties”, ychydig yn wahanol i rôl y gweithiwr cymorth i deuluoedd yn Sir Gaerfyrddin, ond mae'n rhoi arwydd bras o gostau rôl o’r fath (t. 196, Curtis, 2012)
[30] Yn Wrecsam, daeth aelodau tîm y prosiect o'r adran Cynhwysiant (felly roeddent yn gyfarwydd â pholisi ac arfer AAA).

7.17. Cafodd yr hyfforddiant i randdeiliaid ei gyflwyno "yn fewnol" gan aelodau o dîm y prosiect peilot, gan ddefnyddio eiddo presennol yr awdurdod lleol neu'r ysgolion, felly roedd y costau ychwanegol yn fach. Adroddwyd bod y gost o gynhyrchu deunyddiau hefyd yn gymedrol yn y ddwy ardal.

7.18. Ni fanteisiwyd ar wasanaethau a gomisiynir, fel eiriolaeth a datrys anghydfodau, a chaiff y gwasanaethau hyn eu talu ar sail achos wrth achos, felly nid oedd unrhyw gostau ar gyfer y rhain i'r awdurdodau lleol.

*Cwmpas ar gyfer arbedion costau*

7.19. Y dull a ddefnyddiwyd gan Sir Gaerfyrddin a Wrecsam oedd:

- defnyddio strwythurau a phrosesau presennol lle bo hynny'n bosibl. Er enghraifft, darparwyd rhywfaint o hyfforddiant drwy fforymau a strwythurau presennol, fel fforymau Cydlynwyr AAA;
- ymestyn a datblygu gwasanaethau presennol lle bo angen. Er enghraifft, ymestynnwyd gwasanaethau datrys anghydfodau ar gyfer rhieni a gofalwyr i gynnwys plant a phobl ifanc ac yn Wrecsam cafodd prosesau presennol ar gyfer rhoi gwybod i rieni a gofalwyr am eu hawliau i apelio, eu hadlewyrchu gan broses gyfochrog i roi gwybod i blant a phobl ifanc am eu hawliau i apelio;
- datblygu gwasanaethau newydd lle bo angen, er enghraifft y gweithiwr cymorth i deuluoedd yn Sir Gaerfyrddin.

7.20. Mae'r dull hwn wedi lleihau'r risg o ddyblygu ac aneffeithlonrwydd. Mae rôl y gweithiwr cymorth i deuluoedd ADY yn un newydd, ond nid yw'n dyblygu unrhyw rôl bresennol[31]. Serch hynny, mae'n bwysig cadw mewn cof bod y cylch gwaith ar gyfer y rôl hon yn ehangach na dim ond cyfathrebu hawliau i apelio neu wneud hawliad: mae'r rôl hefyd yn cynnwys darparu gwybodaeth a

[31] Fodd bynnag, pum mlynedd yn ôl, roedd mwy o Swyddogion Cynnydd Disgyblion (PPO) yn Sir Gaerfyrddin, a gymerodd rôl debyg i un y gweithiwr cymorth i deuluoedd, yn gweithio gyda theuluoedd. Fodd bynnag, mae nifer y PPO wedi ei ostwng o chwech i ddau ac o ganlyniad, ni allant gyflawni'r rôl honno mwyach.

chymorth am y broses asesu statudol. Mae'r cwmpas ar gyfer arbedion costau, felly, yn cael ei gyfyngu i raddau helaeth i leihau graddau’r gweithgarwch (yn hytrach na gwneud pethau'n fwy effeithlon).

7.21. Mae’r ddau awdurdod lleol wedi dilyn dulliau gweithredu gwahanol, ac felly mae’r costau’n wahanol hefyd. Yn arbennig, mae cost ychwanegol y model gwasgaredig o ran gwybodaeth a chymorth (a fabwysiadwyd yn Wrecsam) yn is na chyflogi gweithwyr cymorth i deuluoedd ymroddedig oherwydd nad yw'n golygu cyflogi mwy o staff. Serch hynny, mae'r model gwasgaredig yn gosod "cost cyfle", gan fod yr amser y mae staff presennol yn ei neilltuo i weithredu gofynion y mesur yn golygu nad ydynt yn gallu gwneud pethau eraill.

7.22. Yn ogystal, mae’r ddau awdurdod lleol yn wynebu un aneffeithlonrwydd posibl: yr angen yn y dyfodol i addasu systemau a ddatblygwyd ar gyfer y broses asesu statudol bresennol mewn ymateb i unrhyw newidiadau pan fydd y fframwaith statudol ar gyfer AAA yn cael ei ddiwygio. Nid yw'n bosibl asesu effaith hyn tan i’r fframwaith statudol ar gyfer AAA gael ei ddiwygio.

*Costau a ragwelir ar gyfer y broses gyflwyno*

7.23. Fel yr amlinellwyd uchod, roedd llawer o'r gost o weithredu gofynion y Mesur yn ymwneud â gwaith datblygu (er bod y gweithiwr cymorth i deuluoedd ADY yn creu costau gweithredol cylchol arwyddocaol). Yn y ddwy ardal, roedd angen systemau a phrosesau newydd oherwydd ymgynghorwyd â’r holl randdeiliaid ynghylch y ffordd orau o gyfathrebu eu hawliau. Mae'r systemau a'r prosesau bellach wedi’u sefydlu, ac os gellir eu defnyddio fel ateb "oddi ar y silff" y gall awdurdodau lleol eraill ei ddefnyddio, ni fydd yn rhaid iddynt dalu’r costau datblygu hyn.

7.24. O ystyried gwaith y prosiectau peilot, mae'n rhesymol credu na fydd angen i awdurdodau lleol eraill sy’n gweithredu gofynion y Mesur fuddsoddi cymaint yn y gwaith o ddatblygu systemau a phrosesau fel y gwnaeth y prosiectau peilot. Mae’n rhaid i bob awdurdod lleol, yn ôl y gyfraith, hysbysu rhieni a

gofalwyr o'u hawl i apelio, a bydd systemau ar waith i wneud hyn. Fodd bynnag, efallai y bydd y ffyrdd y maent yn cyfathrebu’r hawliau hyn, yn ychwanegol at y llythyrau y mae'n rhaid iddynt eu hanfon yn ôl y gyfraith, yn wahanol. Felly, bydd angen adolygu systemau a phrosesau presennol o hyd ac asesu pa elfennau o'r dulliau a ddatblygwyd gan y ddau brosiect peilot y dylid eu mabwysiadu a phenderfynu a oes angen iddynt gael eu haddasu ar gyfer eu hamgylchiadau eu hunain.

7.25. Nid yw’r costau sy'n gysylltiedig ag adolygu systemau presennol, asesu'r dulliau a ddatblygwyd gan y prosiectau peilot ac yna penderfynu pa newidiadau sydd eu hangen, yn debygol o fod yn fawr. Er enghraifft, mae'r amcangyfrifon yn awgrymu bod y gost o sefydlu protocolau, systemau a phrosesau pontio allweddol sy’n gweithio, sydd â rhywfaint o debygrwydd i'r math o newidiadau sydd eu hangen i weithredu gofynion y Mesur, tua £10,000 - £15,000 ar gyfer pob awdurdod lleol (Llywodraeth Cymru, 2013). Mae hyn yn awgrymu cyfanswm cost (cenedlaethol) o £200,000 - £300,000, ar gyfer yr 20 o awdurdodau lleol nad oedd yn rhan o’r prosiect peilot.

7.26. Y gost sefydlu allweddol arall yw hyfforddi. Ym mhob ardal beilot cynhaliwyd nifer bach o ddigwyddiadau hyfforddi (rhwng dau a thri) ar gyfer staff yr ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill. Oherwydd na chawsant eu cynnal yn ystod oriau ysgol, nid oedd unrhyw gostau'n gysylltiedig â staff cyflenwi. Cafodd yr hyfforddiant ei ddarparu gan staff y prosiect peilot. Os gellid defnyddio adeiladau’r awdurdod lleol neu’r ysgol, gellid cynnal yr hyfforddiant y tu allan i oriau ysgol (felly nid oes unrhyw gostau'n gysylltiedig â staff cyflenwi) ac mae cost yr hyfforddiant yn fach iawn.

7.27. O ran maint, mae Wrecsam yn awdurdod lleol canolig ei faint, gyda 1,133 o athrawon cymwysedig, a Sir Gaerfyrddin yw un o'r awdurdodau lleol mwy o faint, gyda 1,807 o athrawon cymwysedig a heriau ardal wledig. Bydd yr her o hyfforddi athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill mewn awdurdod lleol metropolitan mawr fel Caerdydd, gyda 3,270 o athrawon cymwysedig yn

wahanol.[32] Bydd mwy o athrawon a gweithwyr proffesiynol i'w hyfforddi, ond gall fod yn haws dod â phobl at ei gilydd ar gyfer hyfforddiant.

7.28. Unwaith y bydd y systemau a'r prosesau wedi'u sefydlu, bydd rhai costau parhaus sy'n gysylltiedig â'r hyfforddiant parhaus, y gwaith o fonitro a gwerthuso'r broses o weithredu gofynion y Mesur ac yn gysylltiedig ag unrhyw wasanaethau a gomisiynir. Yn ogystal â hynny, fel y nodwyd, mae creu swydd newydd, fel y gweithiwr cymorth i deuluoedd ADY, yn golygu bod costau gweithredol cylchol amcangyfrifedig sylweddol o tua £42,374 ar gyfer pob "gweithiwr cymorth" (gweler 7.16 uchod). Byddai nifer y gweithwyr cymorth mewn awdurdod lleol, a'r rôl a gyflawnir ganddynt, yn dibynnu ar yr amgylchiadau yn yr awdurdod lleol penodol hwnnw.

**Effeithiolrwydd**

7.29. Fel yr amlinellwyd ym mhennod tri, roedd yn ofynnol i'r astudiaeth ystyried cyfres o gwestiynau am effeithiolrwydd y prosiectau peilot:

- I ba raddau y mae'r gwaith o weithredu'r darpariaethau yn y mesur wedi cyfrannu at les plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig?
- A yw'r gwasanaethau a gomisiynwyd (eiriolaeth annibynnol, Gwasanaethau Partneriaeth a Datrys Anghydfodau) yn bodloni'r safonau y cytunwyd arnynt gyda'r awdurdodau peilot yn unol â'r Cod Ymarfer AAA?[33]
- A yw perfformiad yn erbyn y safonau yn cael eu monitro'n effeithiol?
- A yw'r gwaith o weithredu'r darpariaethau yn y mesur yn bodloni safonau cyfranogiad Llywodraeth Cynulliad Cymru? A yw perfformiad yn erbyn y safonau yn cael eu monitro'n effeithiol?
- A yw'r darpariaethau wedi'u gweithredu mewn ffordd sydd wedi galluogi/cefnogi plant a phobl ifanc i wneud apeliadau a hawliadau i'r tribiwnlys?

[32] Ffynhonnell: Ystadegau Cymru, 'Number of qualified teachers by local authority, sector and gender', all figures for 2011/12 (https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Local-Authorities/Teachers-and-Support-Staff/NumberOfQualifiedTeachers-by-LocalAuthority-Sector-Gender)
[33] http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/specialeduneedscop/?lang=en

- I ba raddau y mae plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawl i apelio/gwneud hawliadau ac yn deall yr hawl hon?
- A yw'r dull o gyfathrebu’r hawl i apelio/gwneud hawliadau yn cael ei wneud mewn ffyrdd sy'n briodol i oedran, angen a gallu?
- I ba raddau y mae plant a phobl ifanc wedi cael eu cefnogi’n effeithiol trwy'r broses apelio a hawliadau?
- A yw'r canllawiau, a ddatblygwyd ar gyfer rhieni, cyfeillion achos neu ymarferwyr sy'n gweithio gyda/cefnogi pobl ifanc, yn ddefnyddiol?
- Beth mae plant a phobl ifanc yn ei feddwl am y broses apelio/hawlio?
- Beth yw profiadau plant a phobl ifanc sydd wedi arfer eu hawliau?
- Pam oedd pobl ifanc yn dewis peidio ag arfer eu hawl i apelio/gwneud hawliadau?
- Pa agweddau ar y prosiectau peilot sydd wedi gweithio'n dda, pa rwystrau a wynebwyd, a beth gellid ei wella?
- A fu unrhyw effeithiau anfwriadol neu annisgwyl yn sgîl y prosiectau peilot?
- A yw'r prosiectau peilot wedi arwain at newidiadau / gwelliannau ymarferol ehangach ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig?

7.30. Mewn ymateb, yn yr adran hon mae’r adroddiad yn canolbwyntio ar chwe maes y gellid grwpio’r cwestiynau hyn iddynt:

- cyfathrebu hawliau plant a phobl ifanc;
- effeithiolrwydd yr hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol;
- effeithiolrwydd y cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc;
- monitro ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a gomisiynwyd;
- effaith ar les plant a phobl ifanc;
- pam mae plant a phobl ifanc yn dewis peidio ag arfer eu hawl i apelio/ gwneud hawliadau?

7.31. Hyd yma, dim ond un achos, sef hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd, a gyflwynwyd gan blentyn neu berson ifanc, a dewisodd y plentyn neu'r person

ifanc a'i deulu/theulu beidio â chymryd rhan yn yr astudiaeth. Felly, ni all yr astudiaeth roi sylwadau ar gwestiynau am brofiadau plant a phobl ifanc a gyflwynodd hawliad neu apêl.

7.32. Fel yr amlinellwyd yn adran tri, er bod arolygon wedi'u datblygu yn Sir Gaerfyrddin a Wrecsam, ac wedi'u dosbarthu gan y prosiectau peilot, mae'r cyfraddau ymateb isel iawn yn golygu bod barnau ar effeithiolrwydd yn seiliedig yn bennaf ar farnau'r rhai sy'n ymwneud â gweithredu'r prosiectau peilot. Er bod hyn yn cael ei gydnabod fel gwendid allweddol wrth ymdrin â'r cwestiynau ar gyfer y gwerthusiad roedd staff Llywodraeth Cymru a'r PWU o'r farn mai dyma'r opsiwn gorau (ac o bosibl yr unig opsiwn) sydd ar gael ar gyfer y gwerthusiad.

*Cyfathrebu hawliau i blant a phobl ifanc*

7.33. Fel yr amlinellwyd ym Mhennod Chwech, defnyddiodd y ddau awdurdod lleol nifer o ddulliau i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau i apelio ac i wneud hawliad i TAAAC ac yn deall hyn. Nododd y ddau fod cyfathrebu hawliau i blant ifanc a /neu blant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth ifanc, yn her sylweddol. Er enghraifft, gall y cysyniadau o "dribiwnlys", "hawliau" a'r broses asesu statudol a datganiadau fod yn anodd eu hesbonio. Mae hyn hefyd yn cymhlethu'r broses werthuso, oherwydd gall plant neu bobl ifanc adrodd yr atebion fel "parot" (e.e. dweud "Mae gen i'r hawl i fynd i dribiwnlys"), heb ddeall y cysyniadau sylfaenol.[34]

7.34. Penderfynodd y ddau awdurdod lleol ganolbwyntio ar sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall bod ganddynt hawl i apelio neu i wneud hawliad ac at bwy i fynd am gymorth a chefnogaeth, yn hytrach na cheisio egluro manylion sut a phryd i wneud apêl neu hawliad i TAAAC hefyd. Nodwyd hefyd (gan y prosiectau peilot) bod gwybodaeth am y broses, am sut a phryd y gellid

[34] O ran y cwestiwn a yw plant a phobl ifanc yn deall eu hawliau i wneud apêl neu hawliad i TAAAC, a faint maent yn ei ddeall ynghylch yr hawl, nodwyd nad yw'n gwestiwn ag ateb ie/na syml, ond mae'n cynnwys nifer o gwestiynau penodol: er enghraifft, a yw'r plentyn/neu'r person ifanc yn deall bod ganddynt hawl i wneud apêl/hawliad? A ydynt yn deall beth mae hyn yn ei olygu (e.e. beth mae hawl yn ei olygu iddyn nhw)? A ydynt yn deall sut a phryd y gallant arfer eu hawliau?

gwneud apêl neu hawliad, wedi'i datblygu a'i chyhoeddi gan TAAAC[35]. Felly, nid oedd angen iddynt ddatblygu'r wybodaeth hon eu hunain a gellid cyfeirio pobl ati.

7.35. Fel y nodwyd yn flaenorol, cafodd y dulliau cyfathrebu a fabwysiadwyd gan y ddau awdurdod lleol eu llywio gan ymgynghoriad. Mae'r ddau wedi defnyddio deunydd ysgrifenedig ac wedi egluro'r hawliau ar lafar i blant a phobl ifanc, er bod Wrecsam wedi rhoi mwy o bwyslais ar ddeunydd ysgrifenedig a Sir Gaerfyrddin wedi rhoi mwy o bwyslais ar gyfathrebu llafar. [36] Mae'r ddau brosiect peilot yn adrodd y bu eu dull yn effeithiol ac y bu'r hyblygrwydd i addasu dulliau i ddiwallu anghenion unigol yn allweddol[37]. Er enghraifft, yn Wrecsam, mae athrawon a staff cymorth sy'n adnabod y plant a'r bobl ifanc wedi helpu i esbonio'u hawliau iddynt. Yn Sir Gaerfyrddin, cafodd y gweithwyr cymorth i deuluoedd ADY eu hyfforddi yn y dulliau o gyfathrebu â phobl ag anableddau gan Triangle[38], darparwr hyfforddiant arbenigol. Mae'r gweithwyr hefyd wedi cysylltu â rhieni a gweithwyr proffesiynol (sy'n adnabod y plentyn a'i hoff ddull o gyfathrebu), er mwyn nodi'r dulliau mwyaf priodol i'w cymryd.[39]

7.36. Nododd y ddau awdurdod lleol na fyddai rhai plant a phobl ifanc yn gallu deall yn llawn eu hawliau ac ni fyddent yn gallu arfer eu hawliau yn annibynnol. Datblygodd yr Awdurdodau Lleol ddull gwahanol i fynd i'r afael â'r her hon. Yn Wrecsam, datblygwyd proses ffurfiol ar sail achos wrth achos er mwyn nodi'r plant neu'r bobl ifanc hynny yr ystyriwyd na fyddent yn gallu cymryd rhan yn y broses llais y disgybl, naill ai oherwydd eu hoedran a/neu gymhlethdod eu hanghenion. O ganlyniad, ni weithredwyd y prosesau ar gyfer rhoi gwybod iddynt am eu hawliau ac felly ni chafodd y grŵp bach yma esboniad o'u

---

[35] http://sentw.gov.uk/youngpeople/?lang=cy
[36] Dull Wrecsam, sy'n seiliedig ar lythyrau, oedd yr hyn a ragwelwyd yn wreiddiol ac a amlinellwyd gan Jane Hutt yn ei thystiolaeth lafar i Bwyllgor Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru: "Local education authorities will be required—and that is the important point—to write to the parent and the child separately. There may be a situation in which the child is unable to understand the information, and that is where we must ensure that we engage with the advocacy opportunities."
[37] Er enghraifft, os yw'r wybodaeth yn cael ei darparu wyneb yn wyneb, gall y person sy'n cyflwyno'r wybodaeth addasu eu hiaith; os ydynt yn gweld bod nam ar olwg y plentyn, gallant ddarllen y wybodaeth yn uchel iddynt. Mewn cyferbyniad, os caiff y wybodaeth ei chyfathrebu drwy lythyr yn unig, ni allwch wneud hynny.
[38] http://www.triangle.org.uk/training
[39] Mae hyn wedi cynnwys dewis y dull mwyaf priodol o gyfathrebu a lle bo angen, addasu deunyddiau i sicrhau eu bod yn hygyrch.

hawliau. Ar y llaw arall, yn Sir Gaerfyrddin, fel yr amlinellwyd ym mhennod chwech, nid oes proses ffurfiol, ond nid ydynt wedi ceisio esbonio hawl i apelio i blant o dan 8 oed. Fodd bynnag, oherwydd bod y ffocws ar y teulu, yn hytrach na phlentyn neu berson ifanc unigol, bu'n bosibl egluro hawliau i deuluoedd, hyd yn oed os nad yw plant neu bobl ifanc yn gallu deall eu hawliau. Yn ogystal, mabwysiadodd Sir Gaerfyrddin safbwynt lle hyd yn oed pan na fydd plentyn neu berson ifanc yn gallu deall eu hawliau i apelio neu i wneud hawliad, efallai y byddant yn gallu deall y gallant ofyn i rywun am help os oes rhywbeth maent yn anfodlon ag ef. Felly, nid ydynt wedi gorfod datblygu proses ffurfiol ar gyfer penderfynu a ddylid egluro hawliau i blant a phobl ifanc ai peidio.

7.37. At ei gilydd, mae'r timau yn Sir Gaerfyrddin a Wrecsam yn hyderus bod plant a phobl ifanc yn deall eu hawliau. Mae'r tîm yn Sir Gaerfyrddin hefyd yn hyderus eu bod yn deall eu hawliau mewn ffordd gyfannol[40] (mewn cyferbyniad â hyn, fel yr amlinellwyd ym mhennod chwech, mabwysiadodd tîm Wrecsam ganolbwynt culach ar hawliau, felly ni fyddai hyn yn ddisgwyliedig).

7.38. Fel yr amlinellwyd ym Mhennod Chwech, roedd y dulliau o hysbysu plant a phobl ifanc am eu hawliau i apelio wedi'u targedu at blant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig ac a oedd naill ai'n mynd drwy asesiad statudol neu'n meddu ar ddatganiad anghenion addysgol arbennig. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc sydd â hawl i apelio yn cael eu cyrraedd. Serch hynny, mewn nifer bach o achosion yn Sir Gaerfyrddin, naill ai ni chafodd y gweithwyr cymorth i deuluoedd eu rhoi mewn cysylltiad â theuluoedd[41] neu dewisodd y teuluoedd beidio â derbyn eu cynnig

[40] Roedd gweithwyr cymorth i deuluoedd yn seilio'r farn hon ar ymatebion plant a phobl ifanc i gwestiynau ynghylch a oeddent yn teimlo, os oedd ganddynt broblem, y gallent siarad â rhywun am y peth. Fel yr eglurwyd, ar eu cyfer, y cwestiwn allweddol yw os oes rhywbeth nad yw plentyn yn cytuno ag ef, a yw'n gwybod pwy i fynd ato.

[41] Adroddwyd nad oeddent yn sylweddoli, o ganlyniad i ddiffyg cyfathrebu â'r tîm gweinyddol, bod y gweithwyr cymorth i deuluoedd yn ceisio gweithio gyda phob teulu dan sylw yn y broses asesu statudol yn hytrach na dim ond gyda'r teuluoedd unwaith y gwnaed penderfyniad i asesu/peidio ag asesu.

o gymorth (ac mae'r model yn gofyn am gydweithrediad teulu)[42]. Yn yr achosion hyn, dim ond os bydd rhywun arall (e.e. athro) yn rhoi gwybod iddynt neu os ydynt wedi gweld cyhoeddusrwydd y bydd plant a phobl ifanc yn gwybod am eu hawliau.[43]

7.39. Ar y llaw arall, yn Sir Gaerfyrddin a Wrecsam, mabwysiadwyd dulliau eang o gyfathrebu hawl plant a phobl ifanc i wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd i TAAAC. Mae'r rhain yn targedu'r holl blant a phobl ifanc oedran ysgol ond mae'n anodd asesu pa mor effeithiol y maent wedi bod. Dim ond un achos sydd wedi'i gyflwyno, a allai awgrymu effeithiolrwydd cyfyngedig. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd yn adran dau, bu cyfanswm nifer yr hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd i TAAAC yn isel yn hanesyddol, ac fel yr amlinellir gennym yn ddiweddarach yn yr adran hon, mae rhesymau da dros awgrymu y bydd nifer yr hawliadau (neu apeliadau) gan blant a phobl ifanc i TAAAC yn parhau i fod yn isel. Gall codi ymwybyddiaeth o wahaniaethu ar sail anabledd hefyd helpu i leihau lefelau o wahaniaethu, drwy wneud ysgolion yn fwy ymwybodol ac yn fwy ystyriol o'r mater.

7.40. Er gwaethaf y diffyg data empirig, mae'n debygol y bu'r strategaethau i godi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o'u hawl i wneud hawliad yn llai effeithiol na strategaethau i godi ymwybyddiaeth o'u hawl i apelio i TAAAC. Mae hyn oherwydd

- datblygwyd y strategaethau i godi ymwybyddiaeth o'u hawliau i wneud hawliad yn hwyrach na'r strategaethau i godi hawliau plant a phobl ifanc i apelio i TAAAC (ac felly bu llai o amser iddynt gael effaith a chael eu monitro a'u mireinio gan y prosiectau peilot);

[42] Mewn un achos, nid oedd y teulu yn dymuno i'w plentyn gymryd rhan, oherwydd ofnau'r rhieni y byddai'r awdurdod lleol yn ceisio cefnogi ef/hi i arfer ei hawliau heb wneud penderfyniad gwybodus briodol ynghylch a ddylid gwneud hyn ai peidio. Yn yr achos hwn nid oedd y plentyn wedi cymryd rhan oherwydd fel cyrff allanol yn mynd i ysgolion, rhaid i weithwyr cymorth i deuluoedd gael caniatâd y rhieni.

[43] Os nad yw gweithwyr cymorth i deuluoedd wedi gweithio gyda theulu, efallai nad ydynt wedi derbyn gwybodaeth am hawliau eu plant. Mae'r pecyn asesu statudol yn cynnwys gwybodaeth am Snap Cymru a swyddogion perthnasol yr ALl – ond nid hawl plant i apelio.

mae'n fwy anodd targedu plant a phobl ifanc sydd â hawl i wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd, na nodi a thargedu plant a phobl ifanc sydd â hawl i apelio i TAAAC yn uniongyrchol.

7.41. Mae'n fwy anodd "targedu'r" gwaith o godi ymwybyddiaeth at blant neu bobl ifanc anabl unigol. Mae risgiau ynghlwm wrth ddull wedi'i dargedu, er enghraifft, y posibilrwydd o dynnu sylw eu hunain a sylw eraill at eu hanabledd a phroblemau ymarferol o ran canfod yr holl blant a phobl ifanc hynny sydd ag anabledd. Teimlai'r prosiectau peilot hefyd fod y gynulleidfa ar gyfer gwaith codi ymwybyddiaeth yn ehangach na'r plant a'r bobl ifanc sydd ag anabledd, hynny yw, bod angen ystyried eu ffrindiau hefyd. Er enghraifft, mae gan lawer o blant a phobl ifanc sydd ag anabledd gylch o ffrindiau, a chredir y gallant "hyrwyddo" a/neu gefnogi plentyn neu berson ifanc sydd ag anabledd, ac efallai y byddant yn gwneud hawliad yn sgîl hyn.

7.42. Yn ogystal, nododd un o'r cynlluniau peilot fod gwrthdaro buddiannau posibl oherwydd efallai y bydd ysgolion yn amharod i hyrwyddo hawliadau a wneir yn eu herbyn. Yn fwy cadarnhaol, mae'r prosiect peilot hwn yn gobeithio y bydd y poster yn gwneud i ysgolion ystyried gwahaniaethu yn weithredol ac felly lleihau'r gwahaniaethu ar sail anabledd. Adroddodd gweithwyr cymorth i deuluoedd ADY yn Sir Gaerfyrddin hefyd, er mai dim ond un hawliad a wnaed, eu bod wedi derbyn ymholiadau eraill am achosion posibl o wahaniaethu ar sail anabledd, gyda theuluoedd yn gofyn, "ydyn nhw'n gallu gwneud hyn?" Esboniwyd mewn ymateb, y gallant wirio gyda swyddogion cynnydd disgyblion ac, os oes angen, gellid cyflwyno pryderon i'r ysgol. Mae hyn yn awgrymu y gallant fod yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar gyfer hawliau, hyd yn oed os nad yw'r hawliau hynny'n cael eu harfer.

*Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol*

7.43. Mae effeithiolrwydd y strategaethau i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o, ac yn deall, hawliau plant a phobl ifanc i wneud apêl neu hawliad, a goblygiadau'r prosiectau peilot ar gyfer eu harfer eu hunain[44], yn dibynnu ar ddau ffactor:

- cwmpas neu sylw (h.y. a oedd yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol yn rhan o'r broses?);
- effaith (h.y. oedd y gweithwyr proffesiynol hynny a oedd yn cymryd rhan, mewn hyfforddiant a gwaith codi ymwybyddiaeth, yn deall hawliau plant ac yn newid eu harfer yn unol â hynny?).

7.44. Ymddengys fod y dystiolaeth yn dangos bod cwmpas yr hyfforddiant a gwaith codi ymwybyddiaeth yn amrywio, ond yn gwella. Roedd cwmpas yr hyfforddiant yn Wrecsam yn gyffredinol yn fwy nag yn Sir Gaerfyrddin, lle cynhaliwyd yr hyfforddiant yn ddiweddarach. Yng Nghaerfyrddin er enghraifft, roedd cyfranogiad ysgolion[45], a rhai gwasanaethau fel iechyd, yn siomedig yn y lle cyntaf. Serch hynny, hyd yn oed yn Wrecsam, roedd y cyfranogiad cyffredinol yn is nag y gobeithiwyd ac roedd rhai grwpiau, fel penaethiaid Unedau Cyfeirio Disgyblion yn absennol o'r hyfforddiant cychwynnol. O ganlyniad, bu angen hyfforddiant dilynol yn y ddwy ardal er mwyn ymestyn y cwmpas ac anfonwyd gwybodaeth at weithwyr ysgol a gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn gweithio mewn ysgolion er mwyn ceisio sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hawliau a'u goblygiadau.

7.45. Fel yr amlinellwyd ym mhennod chwech, mabwysiadwyd model "rhaeadru" yn Sir Gaerfyrddin a Wrecsam. Mae hyn yn golygu mai dim ond cyfran fach o'r holl weithwyr proffesiynol a oedd angen bod yn ymwybodol o'r hawliau newydd a'u deall, oedd wedi cymryd rhan yn uniongyrchol mewn hyfforddiant

[44] Er enghraifft, mae'n ofynnol i rai gweithwyr proffesiynol esbonio i blant a phobl ifanc beth yw eu hawliau a'u cefnogi i wneud penderfyniadau am arfer yr hawliau hynny.
[45] Er enghraifft, gwahoddwyd pob ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin i ddigwyddiadau hyfforddi ym mis Chwefror, ond dim ond 15 a gymerodd ran allan o 108 o ysgolion cynradd.

a gwaith codi ymwybyddiaeth. [46] Roedd llawer, felly, yn dibynnu ar faint o wybodaeth a drosglwyddodd y rhai a fynychodd yr hyfforddiant i'w cydweithwyr. Yn yr un modd, mae achos cryf dros ddadlau bod ymwybyddiaeth yn fwy pwysig ymhlith rhai grwpiau o weithwyr proffesiynol, yn fwyaf nodedig Cydlynwyr AAA, na grwpiau eraill ac y dylid targedu'r grwpiau penodol hyn uwchlaw'r grwpiau eraill. Roedd cyfran y grwpiau penodol o weithwyr proffesiynol a gymerodd ran yn yr hyfforddiant yn uwch na'r gweithlu ysgol ehangach. [47]

7.46. Mae'r dystiolaeth o effaith yr hyfforddiant yn gyson gadarnhaol, er yn gyfyngedig mewn rhai agweddau pwysig. Er enghraifft:

- Mae'r adborth a gasglwyd ar ôl digwyddiadau hyfforddi yn Sir Gaerfyrddin a Wrecsam wedi bod yn gyson gadarnhaol ac yn dangos bod gweithwyr proffesiynol yn deall yr hawliau a'u goblygiadau;
- mae tystiolaeth bod cyfranogiad disgyblion yn y broses asesu statudol wedi gwella yn Wrecsam, er bod lle i wella ymhellach (a drafodir yn fanylach isod);
- mae tystiolaeth bod atgyfeiriadau priodol wedi'u gwneud i'r gweithwyr cymorth i deuluoedd ADY yn Sir Gaerfyrddin (sy'n dangos bod gweithwyr proffesiynol eraill yn deall eu rôl, a drafodir isod)

7.47. Mae effaith hyfforddiant ar gyfranogiad disgyblion yn gymysg, er ei bod yn bwysig cydnabod mai dim ond un ffactor oedd yn sbarduno newidiadau yn y maes hwn oedd hyfforddiant. Mae'r tîm yn Sir Gaerfyrddin yn hyderus bod plant a phobl ifanc bellach yn cael llais yn y broses asesu statudol, er bod gwendidau o hyd. Er enghraifft, efallai y bydd cyfranogiad plant a phobl ifanc yn gyfyngedig ac, o bryd i'w gilydd, braidd yn arwynebol. Mae hyn yn cyd-fynd, yn fras, â thystiolaeth o waith ymchwil i'r prosiectau peilot ADY (Llywodraeth Cymru, 2014). Yn Wrecsam mae'r dystiolaeth hyd yma o'r prosiect peilot (yn seiliedig ar gyfraddau cwblhau "Ffurflen D", sy'n cynnwys

[46] Er enghraifft, yn Sir Gaerfyrddin, aeth cyfanswm o 122 o staff ysgol i ddigwyddiadau hyfforddi erbyn haf 2013, allan o gyfanswm o 1,807 o athrawon cymwysedig a 2,201 o staff cymorth yn y sir.
[47] Er enghraifft, yn Sir Gaerfyrddin, roedd dros dri chwarter o staff yr ysgol a fynychodd hyfforddiant, yn mynychu naill ai'r fforwm Cydlynwyr AAA neu ddigwyddiad cymuned ddysgu broffesiynol AAA.

barn disgybl[48]) yn dangos bod cyfranogiad plant a phobl ifanc yn y broses asesu statudol, er ei fod wedi gwella, yn parhau i fod yn anghyson.

7.48. Yn Sir Gaerfyrddin, mae dangosyddion dirprwyol o effaith yr hyfforddiant ar arferion gweithwyr proffesiynol yn gyffredinol, ond nid yn unffurf, yn gadarnhaol neu o leiaf yn galonogol. Er enghraifft, mae gweithwyr cymorth i deuluoedd yn derbyn mwy o geisiadau am gymorth gan weithwyr proffesiynol eraill, ac maent wedi derbyn atgyfeiriadau gan Gydlynwyr AAA a gwasanaethau cymdeithasol ac efallai'n bwysicach fyth, mae'r atgyfeiriadau yn briodol. Mewn cyferbyniad, er eu bod wedi targedu gwasanaethau cymdeithasol, mae'r holl atgyfeiriadau wedi bod ar gyfer teuluoedd yn hytrach na phlant sy'n derbyn gofal. Y tu hwnt i hyn, fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth empirig o effaith yr hyfforddiant ar arfer. Er enghraifft, prin yw'r data empirig ar ba mor effeithiol y mae gweithwyr proffesiynol, nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot, yn cyfathrebu hawliau i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn bwysig gan fod y gwaith o gyfathrebu'r hawl i apelio i blant a phobl ifanc sydd eisoes â datganiad, yn cael ei wneud gan staff yr ysgol, fel Cydlynwyr AAA (yn hytrach nag aelodau o dîm y prosiect peilot).

7.49. Mae'r angen i atgyfnerthu ac adnewyddu hyfforddiant hefyd wedi cael ei nodi (a'i gymharu â "phaentio pont Forth" gan un o'r prosiectau peilot). Awgrymwyd y dylai hyfforddiant fod yn faes yng nghynlluniau datblygu ALl er mwyn ei gynnal, yn arbennig oherwydd gallai niferoedd bach iawn yr apeliadau a hawliadau gan blant neu bobl ifanc olygu ei fod yn "diflannu i'r niwl".

*Cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc*

7.50. Fel yr amlinellwyd ym mhennod chwech, mabwysiadodd Sir Gaerfyrddin a Wrecsam ddau ddull gwahanol er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc. Er bod y ddau yn cynnig gwasanaethau eiriolaeth (a drafodir isod), fel sy'n ofynnol gan y Mesur, mae'r ddau hefyd wedi datblygu strwythurau cymorth ategol:

[48] Er bod llenwi Ffurflen D, sy'n cynnwys barn y disgybl, wedi gwella, nid yw'n cael ei llenwi bob amser. Mae Wrecsam wedi nodi'r angen i edrych ar y ffurflen ac maent wedi datblygu rhestr wirio o bethau i'w trafod gyda'r plentyn/person ifanc a chanllaw arfer da. Mae hwn yn amlinellu lle y dylai plentyn gael ei gynnwys, dod o hyd i'r ffordd y gallant gyfrannu a rôl y gweithiwr allweddol neu gyfaill achos.

gweithwyr cymorth i deuluoedd ADY yn Sir Gaerfyrddin a chyfeillion achos yn Wrecsam. Er bod y ddwy agwedd yn effeithiol yn ôl y prosiectau peilot, mae ganddynt broblemau posibl. Yn benodol, efallai byddai'r model gweithiwr cymorth i deuluoedd yn anodd ei gynnal os oes gwrthdaro rhwng plentyn neu berson ifanc a'i rieni/gofalwyr, neu os bydd rhieni neu ofalwyr yn amharod i gydweithio â'r gweithiwr cymorth i deuluoedd ADY. Mae'r model cyfaill achos yn Wrecsam yn codi'r posibilrwydd o wrthdaro buddiannau rhwng buddiannau plentyn neu berson ifanc a'r lleoliad sy'n cyflogi cyfaill achos.[49]

*Gwasanaethau a gomisiynir*

7.51. Fel yr amlinellwyd ym mhennod chwech, comisiynwyd SNAP Cymru yn Sir Gaerfyrddin a Wrecsam i ddarparu gwasanaethau datrys anghydfodau. Nid oes unrhyw blant a phobl ifanc wedi manteisio ar y gwasanaeth hwn a chaiff effeithiolrwydd y gwasanaethau ei fonitro'n bennaf drwy adroddiadau blynyddol SNAP Cymru i'r awdurdodau lleol.

7.52. Mae'r sefyllfa o ran gwasanaethau eiriolaeth yn fwy cymhleth. Mae Ail Lais yn Wrecsam yn un o wasanaethau'r cyngor (yn hytrach na gwasanaeth a gomisiynir). Maent yn gweithio yn ôl eu cod ymarfer eu hunain, ac er bod adran arall o'r cyngor yn eu goruchwylio, nid yw'r prosiect peilot wedi monitro'r gwaith. Yn Sir Gaerfyrddin comisiynir SNAP Cymru i ddarparu gwasanaeth eiriolaeth mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig[50].

7.53. Fel gyda'r gwasanaeth datrys anghydfodau, nid oes unrhyw blant a phobl ifanc wedi defnyddio'r gwasanaeth eiriolaeth yn Sir Gaerfyrddin na Wrecsam. Adroddwyd, er enghraifft, yn Sir Gaerfyrddin er nad yw gweithwyr cymorth i deuluoedd yn eiriolwyr go iawn, maent yn gweithredu fel eiriolwyr yn y modd maent yn siarad ar ran teuluoedd, yn eu helpu i baratoi ar gyfer cyfarfodydd

[49] Un ateb posibl fyddai nodi cyfaill achos gwahanol os bydd plentyn neu berson ifanc yn dymuno cyflwyno apêl.

[50]Yn ogystal, comisiynir Gweithredu dros Blant i ddarparu gwasanaeth eiriolaeth ar gyfer yr holl blant sy'n derbyn gofal a gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cefnogi plentyn sy'n derbyn gofal a gyflwynodd hawliad neu apêl i TAAAC.

ac ati. Efallai fod model Wrecsam, sy’n nodi "cyfeillion achos", hefyd wedi lleihau’r galw am wasanaethau eiriolaeth.

*Yr effaith ar les plant a phobl ifanc*

7.54. Fel yr amlinellwyd ym mhennod pedwar, mae'r dystiolaeth o brofiadau oedolion yn dangos bod mynd drwy'r broses o wneud apêl yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol a negyddol. Gall y profiad ei hun fod yn straen, ond yn brofiad sy'n grymuso unigolyn yn y pen draw.

7.55. Nodwyd nifer o effeithiau cadarnhaol ar les plant a phobl ifanc o ganlyniad i'r camau a gymerwyd gan y prosiectau peilot i weithredu gofynion y Mesur. Dylid nodi, fodd bynnag, bod yr effeithiau hyn yn seiliedig ar sylwadau'r rhai sy'n cyflwyno'r prosiectau peilot, yn hytrach nag, er enghraifft, ar ymchwil gyda phlant a phobl ifanc eu hunain. Roedd yr effeithiau yn cynnwys:

- dull mwy effeithiol o nodi a chynllunio i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc (mewn egwyddor, dylai diwallu anghenion yn fwy effeithiol wella lles);
- grymuso plant a phobl ifanc;
- effaith gadarnhaol ar berthynas plant a phobl ifanc ag oedolion a phlant eraill.

7.56. Mae'r effeithiau hyn yn ymwneud yn bennaf â'r pwyslais a roddodd pob peilot ar wella llais a chyfranogiad plant a phobl ifanc yn y broses asesu statudol, yn hytrach na'r hawl i apelio neu wneud hawliad ei hun. Serch hynny, mae Sir Gaerfyrddin yn benodol hefyd yn gweld cyswllt rhwng yr effaith, mewn perthynas â mwy o rymuso, a'r pwyslais ar hawliau plant.

7.57. Mae'r canfyddiadau o ran yr effaith gadarnhaol yn sgîl gwell cyfranogiad gan ddisgyblion a llais disgyblion yn cyd-fynd yn fras â'r dystiolaeth o werthuso ac ymchwilio'r prosiectau peilot ADY[51] (Llywodraeth Cymru, 2012 a 2014) a gwaith allweddol pontio yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2012). [52]

---

[51] Fel yr amlinellwyd yn adran chwech ceisiodd y prosiectau peilot wella llais plant a phobl ifanc a'u cyfranogiad yn y broses, ac roedd Sir Gaerfyrddin hefyd yn rhan o'r Prosiectau Peilot ADY.

[52] Mae'n werth nodi bod yr astudiaethau hyn hefyd yn nodi y gall cyfranogiad plant a phobl ifanc hefyd gael effaith gadarnhaol ar brofiadau a lles rhieni a gofalwyr, sydd yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar eu plant.

7.58. Mae'r canfyddiadau hefyd yn cyd-fynd â'r canfyddiadau yn y ddogfen *Research into the benefits of children's and young people's participation in Wales*: *the benefits of participation* (Kendall, 2008) a nododd y canlynol (mewn perthynas â buddiannau ar gyfer plant a phobl ifanc):

> "The most commonly identified benefits related to 'softer' outcomes, that is improvements in children and young people's self-confidence and self-esteem" [identified in over half (18) of the sources selected for review]." (t9, Kendall, 2008)

> "Other softer outcomes noted focused on improvements in children and young people's relationships with others, typically with staff working with them." (t 17, ibid).

7.59. Serch hynny, mae'r astudiaeth yn rhybuddio bod ansawdd y dystiolaeth yn amrywio a:

> "The participation of children and young people in decisions which affect them is seen as inherently beneficial, but there is a need for robust research evidence to actually demonstrate that link." (t 42, ibid).

*Y rhesymau pam mae plant a phobl ifanc yn dewis peidio ag arfer eu hawl i apelio / gwneud hawliadau*

7.60. Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r system a'r broses ar gyfer hysbysu plant a phobl ifanc am eu hawliau a'u cefnogi wedi'u sefydlu yn Sir Gaerfyrddin a Wrecsam. Fodd bynnag, hyd yn hyn, dim ond un hawliad, a dim un apêl, a wnaed i TAAAC gan blant a phobl ifanc. Roedd cryn ansicrwydd ar ddechrau'r broses ynghylch faint o apeliadau neu hawliadau fyddai'n cael eu gwneud, ond roedd y nifer bach yn syndod i lawer o'r rhai oedd yn rhan o'r broses.

7.61. Gellid ystyried nifer yr apeliadau a hawliadau fel mesur procsi o effeithiolrwydd y gwaith o weithredu gofynion y Mesur. Fodd bynnag, yn ein barn ni, byddai'n fesur gwael o effeithiolrwydd. Mae nifer o resymau allweddol pam ei bod yn debygol y cafwyd cyn lleied o hawliadau neu apeliadau. Mewn

perthynas ag apeliadau, mae nifer o resymau strwythurol pam mae cyfanswm nifer y plant a phobl ifanc a allai arfer eu hawliau yn gymharol fach.

- Dim ond cyfran o'r holl blant a phobl ifanc sydd â hawl i apelio fyddai'n gallu deall ac arfer eu hawliau o ystyried eu hoedran a/neu gymhlethdod/difrifoldeb eu hanghenion.[53]

- Mae hawliau i apelio yn gyfyngedig ac yn cael eu "pwysoli" tuag at ddechrau'r broses, hynny yw, mae llawer o'r hawliau yn ymwneud ag asesu a rhoi datganiad AAA, ac unwaith y caiff datganiad AAA ei roi, oni bai ei fod yn cael ei newid, mae llai o hawliau i apelio.[54] Mae hyn yn bwysig gan fod y rhan fwyaf o blant yn dechrau'r broses asesu statudol yn ifanc, ac yn aml ni allant naill ai deall neu arfer eu hawliau yn llawn. Oherwydd na chaiff llawer o ddatganiadau eu diweddaru neu eu newid yn rheolaidd, erbyn i'r plentyn fod yn ddigon hen i ddeall ac arfer ei hawliau, nid oes ganddo hawl i apelio.

- Mae nifer y plant a phobl ifanc sy'n mynd drwy'r broses asesu statudol yn gostwng. Mae hyn yn adlewyrchu gwelliannau yn y ddarpariaeth, sy'n golygu bod mwy o anghenion yn cael eu diwallu heb yr angen am asesiad statudol a/neu ddatganiad AAA. Mae hefyd yn adlewyrchu polisi llawer o awdurdodau lleol i leihau nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer asesiad statudol a/neu sy'n derbyn datganiad AAA. Er y gallai hyn o bosibl gynyddu nifer yr apeliadau ar gyfer naill ai achos o wrthod asesu neu wrthod rhoi datganiad, mae'n golygu nad yw'r seiliau eraill i apelio (a amlinellwyd ym mhennod un), fel gwrthwynebiad i gynnwys datganiad AAA , newid mewn datganiad AAA neu ganslo datganiad AAA, yn gymwys.

[53] Mae CCUHP yn amlinellu y dylid cyfathrebu hawliau "in a manner consistent with the evolving capacities of the child" (erthygl 5). A hefyd "Parents, who are intuitively aware of their child's level of development, will do this naturally."

[54]Gellid gwneud apêl ar y sail bod plentyn yn anghytuno â'r disgrifiad o anghenion addysgol arbennig (rhan 2) neu'r math o ddarpariaeth a wneir ar eu cyfer (rhan 3), ond mae'r rhain yn debyg i'r hawliau eraill i apelio, â therfyn amser, a rhaid i apeliadau gael eu gwneud o fewn 2 fis i benderfyniad yr awdurdod lleol.

7.62. Yn ogystal, mae'n debygol y bydd nifer o resymau pam y byddai plant neu bobl ifanc a allai apelio yn dewis peidio â gwneud hynny:

- bodlonrwydd gydag asesiad a darpariaeth. Gallai cyfranogiad cynyddol plant a phobl ifanc yn y broses asesu statudol fod yn bwysig yma, er mwyn cynyddu eu dealltwriaeth a'u bodlonrwydd. Gallai gweithwyr cymorth i deuluoedd ADY hefyd fod yn bwysig ac rydym yn trafod eu heffaith ymhellach yn y bennod ganlynol;
- "costau" neu ofynion emosiynol sydd ynghlwm wrth wneud apêl, y gellid eu gwrthbwyso, ond sy’n annhebygol o gael eu dileu yn gyfan gwbl gan gefnogaeth;
- yr opsiwn parhaus o rieni neu ofalwyr yn arfer eu hawl i apelio. Gallai hyn fod yn arbennig o bwysig ac efallai, yn y pen draw, yn ffactor allweddol er na all yr astudiaeth hon gadarnhau neu wrthbrofi hyn, fel gyda'r eithriad nodedig o blant sy'n derbyn gofal, gwelodd y prosiectau peilot ychydig iawn o sefyllfaoedd lle byddai plentyn yn hytrach na'u rhieni neu ofalwyr yn dewis arfer eu hawliau.

7.63. Mae hefyd yn bwysig nodi, fel yr amlinellwyd ym mhennod dau, bod y gyfran o rieni a gofalwyr sy'n arfer yr hawliau i apelio i TAAAC (84 yn 2011/12) yn fach iawn o'i chymharu â chyfanswm nifer y plant a phobl ifanc ag AAA (dros 100,000)[55]. O ystyried y rhesymau a amlinellwyd uchod, mae'n rhesymol disgwyl y byddai cyfran y plant sy’n arfer eu hawliau yn is fyth.

7.64. Mae'r sefyllfa mewn perthynas â hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd yn fwy cymhleth. Mae rhai o'r rhesymau a amlinellwyd uchod yn berthnasol, yn fwyaf nodedig materion yn ymwneud ag oedran a gallu plant a phobl ifanc i ddeall ac arfer eu hawliau, costau emosiynol sydd ynghlwm wrth wneud hawliad a'r opsiwn o rieni neu ofalwyr yn arfer yr hawl. Fodd bynnag, nid yw hawliau i wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau â hawliau i apelio. Felly, roedd rhai aelodau o dimau’r prosiectau peilot yn synnu na chafwyd mwy o hawliadau ac roedd rhai yn disgwyl y gallai fod mwy o hawliadau yn y dyfodol.

[55] cyfanswm nifer y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn 2011/12 oedd 103,038, y mae gan 13,098 ohonynt ddatganiad anghenion addysgol arbennig (Ystadegau Cymru, d.d. a).

7.65. Mae'n drawiadol bod nifer yr hawliadau o wahaniaethu ar sail anabled (gan rieni a gofalwyr) yn sylweddol is na chyfraddau apelio i TAAAC. Er enghraifft, o gymharu â'r 84 o apeliadau a wnaed dim ond 5 hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd a gyflwynwyd i TAAAC yn 2011/12. Nid yw'n glir pam mae'r cyfraddau gwahaniaethu ar sail anabledd yn llawer is. Yn rhannol, efallai fod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod llai o blant a phobl ifanc ag anabledd (amcangyfrifir bod 28,000 o ddisgyblion ag anabledd)[56]. Mae hyn tua chwarter cyfanswm nifer y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, er mae'n fwy na dwbl y nifer sydd â datganiad AAA[57]. Fodd bynnag, gallai hefyd olygu bod cyfraddau gwahaniaethu ar sail anabledd yn isel; nad yw plant neu bobl ifanc a/neu eu teuluoedd yn gweld nac yn cydnabod bod arferion yn wahaniaethol; a/neu nad ydynt yn deall eu hawliau yn llawn. Mae'r pwyntiau olaf yn pwysleisio pwysigrwydd gwaith y prosiectau peilot i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau i wneud hawliad.

7.66. Mewn perthynas ag ymwybyddiaeth, er bod angen i awdurdodau lleol hysbysu rhieni neu ofalwyr am eu hawl i apelio, fel rhan o'r broses statudol, nid oes dyletswydd gyfatebol mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd. Mae tystiolaeth o arolygon y DU yn dangos bod 72% o oedolion (yn y DU) yn ymwybodol o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd [58], gan awgrymu nad oes mwy nag un o bob pedwar oedolyn yn deall eu hawliau. Gan fod y ffigur hwn ar gyfer yr holl oedolion, mae'n bosibl bod y gyfran o oedolion anabl sy'n ymwybodol o'u hawliau yn wahanol. Mae tystiolaeth anecdotaidd a gasglwyd fel rhan o'r broses o baratoi'r safbwynt interim ar UK Concluding Observations 2008 (Croke, 2012) hefyd yn dangos, mewn perthynas â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) (sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer peidio â gwahaniaethu):

[56] Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth bod gan 6% o blant neu bobl ifanc oedran ysgol anabledd (DWP, 2013).
[57] Nid oes angen datganiad AAA ar blentyn er mwyn bod â hawl i apelio - er enghraifft, gellid gwneud apêl yn erbyn penderfyniad i wrthod asesu neu roi datganiad.
[58]Canran yr unigolion oedd yn ymwybodol o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd heb anogaeth o'i nodau a chwmpas, barn arolwg ONS a nodwyd yn y Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl (ODI), dd

"….bod eu hymwybyddiaeth o hawliau plant a phobl ifanc yn gyfyngedig a bod hysbysu pobl ifanc anabl o'u hawliau a sicrhau eu dealltwriaeth lawn yn dasg gymhleth a hirfaith. Efallai fod pobl ifanc anabl wedi clywed am CCUHP ond nid yw'n glir sut mae'r Confensiwn yn berthnasol i'w bywydau bob dydd. Gallai hyn fod yn wir ar gyfer gweithwyr proffesiynol hefyd; maent yn ymwybodol o CCUHP ond ni fyddent yn ei ddefnyddio i herio sefyllfa neu benderfyniad" (t47, Hill, 2013)

## 8. Effaith gweithwyr cymorth i deuluoedd ADY

### Cyflwyniad

8.1. Fel yr amlinellwyd ym mhennod saith, mae nifer cymharol fawr o blant a phobl ifanc wedi mynd drwy'r broses asesu statudol yn Sir Gaerfyrddin a chafodd y cyd-destun hwn ddylanwad ar y model a ddatblygwyd gan Sir Gaerfyrddin ac yn arbennig y penderfyniad i sefydlu rôl y gweithiwr cymorth i deuluoedd ADY, i wella cyfathrebu a'r berthynas rhwng teuluoedd a'r awdurdod lleol. Y rôl newydd hon yw'r gost weithredol fwyaf sy'n gysylltiedig â'r prosiectau peilot ac yn y bennod hon, rydym yn ystyried effaith y rôl hon.

### Pwysigrwydd cyfathrebu

8.2. Fel yr esboniodd aelodau o'r prosiect peilot, mae'r llythyrau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu hanfon, yn ôl y gyfraith, at deuluoedd i egluro eu hawliau i apelio yn ffurfiol ac yn amhersonol iawn. Gall y broses asesu statudol ei hun yn aml iawn fod yn fiwrocrataidd, yn hir ac yn anodd ei deall (CCC, 2006); gall dogfennau fel datganiad AAA ymddangos yn frawychus ac yn anodd eu darllen ac efallai y bydd rhieni yn cael ychydig o adborth, neu ddim o gwbl, i egluro pam y gwnaed penderfyniad i, er enghraifft, beidio â chynnal asesiad statudol neu roi datganiad AAA.

8.3. Yn y cyd-destun hwn, gallai presenoldeb rhywun, fel gweithiwr cymorth i deuluoedd, i drafod gyda theulu, i'w helpu i ddeall y broses a'r penderfyniadau a wnaed, fod yn bwysig iawn. Gall agor llinellau cyfathrebu hefyd helpu i sicrhau nad yw problemau a phryderon yn "mudlosgi" a bod pobl yn deall y gallant eu trafod, ac y dylai'r apêl fod yn opsiwn olaf (rhoddwyd enghraifft o rywun a gyflwynodd apêl heb gysylltu â'r ALl i drafod eu pryderon). Fel yr esboniodd aelodau o'r prosiect peilot, gyda chyfathrebu wyneb yn wyneb roedd cyfle i esbonio beth ddigwyddodd a pha opsiynau oedd gan y teulu, yn y fan a'r lle. Teimlwyd bod hyn wedi arbed llawer o amser fyddai'n cael ei dreulio fel arall yn ymateb i ymholiadau yn fwy ffurfiol. Ystyriwyd hyn yn

bwysig oherwydd teimlwyd, mewn llawer o achosion, y byddai wedi bod yn bosibl datrys y broblem yr oedd pobl yn apelio yn ei herbyn drwy drafodaeth.

8.4. Er bod yr awdurdod lleol yn eu cyflogi, mae’r gweithwyr cymorth i deuluoedd ADY wedi gosod eu hunain fel swyddogion annibynnol, sy’n gweithredu i gefnogi'r teulu a sicrhau eu bod yn deall ac yn gallu arfer eu hawliau. Cawsant eu disgrifio fel swyddogion annibynnol gan y ddau riant a gyfwelwyd, a phwysleisiodd y ddau riant faint o gefnogaeth a ddarparodd y gweithiwr. Er enghraifft, disgrifiodd un rhiant y broses asesu statudol fel "brawychus" ac esboniodd pa mor bwysig oedd presenoldeb rhywun, fel y gweithiwr, y gallent droi ato/ati os oedd ganddynt broblem neu gwestiwn. Teimlwyd bod hyn yn arbennig o bwysig gan nad oeddent yn teimlo y gallent fynd at unrhyw un arall am gymorth. Esboniodd y rhiant arall sut gwnaeth y gweithiwr eu helpu drwy roi’r "nerth i fynd i'r ysgol" iddynt i drafod eu pryderon. Pwysleisiodd y ddau riant hefyd pa mor ddefnyddiol oedd hi i gael rhywun i esbonio'r broses asesu statudol iddynt, fel eu bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl, yn enwedig o ystyried faint o amser a gymerodd y broses a'r problemau a brofwyd yn y gorffennol.

8.5. Ystyriwyd bod sgiliau'r bobl sy’n cyflawni rôl y gweithiwr cymorth i deuluoedd yn arbennig o bwysig. Cafodd y gweithwyr cymorth i deuluoedd ADY eu dewis oherwydd eu sgiliau wrth weithio gyda ac ymgysylltu â rhieni a siarad â gweithwyr proffesiynol. Adroddodd y prosiect peilot fod teuluoedd yn "fwy cyfforddus" i siarad â gweithwyr cymorth i deuluoedd nag oeddent i siarad â'r ysgol neu’r awdurdod lleol. Cefnogwyd hyn gan y cyfweliadau gyda rhieni. Er enghraifft, disgrifiodd un rhiant y gweithiwr fel "rhywun sy'n eu deall" yn wahanol iawn i'r ffordd roeddent yn teimlo bod yr ysgol “ddim yn gwrando" arnynt. Dywedodd timau’r prosiect peilot fod y teuluoedd yn gweld yr awdurdod lleol, yn arbennig, fel sefydliad pell a diwyneb, dim ond llofnod ar lythyr.

*Yr effaith ar nifer yr apeliadau i TAAAC*

8.6. Roedd pryder cychwynnol ymhlith tîm y prosiect peilot y byddai codi ymwybyddiaeth teuluoedd o'u hawliau yn golygu bod mwy o deuluoedd yn

dewis arfer eu hawliau i apelio neu wneud hawliad i TAAAC. Fodd bynnag, mae’r pryder hwn wedi bod yn ddi-sail hyd yn hyn, ac mae nifer yr apeliadau yn Sir Gaerfyrddin wedi gostwng yn sylweddol o 11 yn 2011/12 i 2 yn 2012/2013.

8.7. Nid yw cydberthyniad (yn yr achos hwn rhwng cyflwyno'r gweithwyr cymorth i deuluoedd ADY a'r gostyngiad yn y nifer o apeliadau) yr un fath ag achosiaeth. Er enghraifft, efallai fod ffactorau eraill, fel y prosiectau peilot ADY, hefyd wedi cyfrannu at y gostyngiad yn y nifer o apeliadau. Er mwyn archwilio’r cyfraniad a wnaed gan y gweithwyr cymorth i deuluoedd ADY, mabwysiadwyd dull sy'n seiliedig ar theori i briodoli effaith. Canolbwyntiodd y dull hwn ar fapio achosion neu sbardunau ar gyfer anghytundeb ac apeliadau i TAAAC, o safbwynt yr awdurdod lleol a’r rhieni neu ofalwyr, ac yna archwilio sut y gallai gweithiwr cymorth i deuluoedd ymateb er mwyn mynd i’r afael â'r materion hynny. Mae hyn yn defnyddio tystiolaeth a gasglwyd gan yr astudiaeth hon ac ymchwil i'r prosiectau peilot ADY (Llywodraeth Cymru, ar ddod) ac fe'i cyflwynir yn nhabl 6.

**Tabl 6. Achosion neu sbardunau ar gyfer anghytuno ac apelio i TAAAC: Enghreifftiau o safbwynt awdurdod lleol, ysgol a rhieni**

| Achos | Enghreifftiau o safbwynt Awdurdod Lleol neu ysgol | Enghreifftiau o safbwynt rhieni | Ymateb y gweithiwr cymorth i deuluoedd |
|---|---|---|---|
| Rhwystredigaeth a/neu gamddealltwriaeth gyda'r broses | Gall y broses o nodi anghenion gymryd amser hir. Gall fod oedi sylweddol wrth wneud diagnosis o broblemau plentyn a chyflwyno ymyriadau i ymdrin â hwy. Gall rhai cyflyrau, fel awtistiaeth, fod yn anodd iawn i wneud diagnosis ohonynt. Gall fod rhestrau aros hir i weld Pediatregwyr, gellir colli apwyntiadau | Mae rhieni yn gweld bod eu plentyn yn cael pethau'n anodd, yn methu cerrig milltir, efallai'n anhapus ac maent yn teimlo nad oes amser i aros ar gyfer 'proses ddyledus' e.e. rhoi diagnosis i blentyn cyn gweithredu. Gall rhieni gael eu cythruddo gan yr amser y mae'n ei gymryd i wneud asesiad statudol. Nid ydynt yn deall pam mae'n cymryd cymaint o amser ac nid ydynt yn gwybod beth sy'n digwydd. Rhaid i rieni fynd ar ôl pethau i wneud yn siŵr y byddant yn digwydd. | Cymryd amser, bod yn ddiduedd ac anfeirniadol, eistedd i lawr gyda'r teulu, dadansoddi'r broblem/ anghytundeb/mater i sicrhau eu bod yn deall. Egluro'r broses, yr amserlenni, y dull gweithredu fesul cam ac ati. Gwneud yn glir yr hyn sydd ganddynt /gan eu plentyn hawl iddo - a'r hyn nad oes ganddynt hawl iddo (e.e. anfon y datganiad Ofqual ynghylch pryd y dylid rhoi amser ychwanegol ar gyfer arholiadau[59]). Sicrhau bod y teulu yn gwybod beth i'w ddisgwyl o'r cychwyn cyntaf. Cadw mewn cysylltiad â'r teulu, gan sicrhau eu bod yn gwybod beth sy'n digwydd. Os oes angen, cyfryngu anffurfiol rhwng y teulu a'r ysgol/ALl. Nodi problemau eraill (e.e. pan fydd teuluoedd yn colli apwyntiadau, arafu'r broses). |
| | Nid yw rhieni yn deall y dull gweithredu fesul cam - rhieni am weld gweithredu a chynnydd ar unwaith. Nid ydynt yn deall chwaith sut y gellir diwallu anghenion drwy ddarpariaeth brif | Nid yw'n glir pa gymorth y mae'r plentyn yn ei gael ac mae rhieni yn gweld eu plentyn yn cael pethau'n anodd a/neu'n anhapus. Mae rhieni yn teimlo bod rhaid iddynt weithredu er mwyn amddiffyn/cefnogi eu | |

[59] http://ofqual.gov.uk/news/extra-time-timed-exams/

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ffrwd. | plentyn ac yn aml caiff asesiad statudol ei weld fel yr unig ffordd y gallant weithredu i helpu eu plentyn. | Ymyrryd cynnar (gan weithiwr cymorth i deuluoedd) yn yr achosion hyn, teimlir bod hyn yn helpu i atal problemau rhag gwaethygu neu "fudlosgi". |
| | Mae rhieni yn mynd ar drywydd diagnosis - yn gwthio’r hyn na all eu plentyn ei wneud. Canfyddiad bod ganddynt hawl i gael datganiad unwaith mae diagnosis e.e. ASD (anhwylderau yn y sbectrwm awtistig) wedi’i wneud, | Y profiad yw bod gwasanaethau a chymorth yn dechrau unwaith y bydd diagnosis yn cael ei wneud. Er enghraifft, fel y dywedodd un rhiant "pan gawsom y diagnosis, yn sydyn, agorodd y drysau i gyd". | |
| | Mae rhai rhieni yn camddeall yr hyn y bydd datganiad yn ei olygu. Er enghraifft, maent yn cymryd yn ganiataol y bydd eu plentyn yn gymwys i gael cymorth un i un neu amser ychwanegol ar gyfer arholiadau ar ôl derbyn datganiad. | Heb ddatganiad nid oes unrhyw un i wneud yn siŵr y bydd y plentyn yn cael y cymorth sydd ei angen arno. | |
| Camddealltwriaeth, neu wahaniaeth barn gyda'r ysgol/ALl ar yr hyn sydd ei angen ar eu plentyn/y ffordd fwyaf effeithiol o ddiwallu anghenion eu plentyn | Cred rhai rhieni mai dim ond gyda chymorth un i un y bydd eu plentyn yn gwneud cynnydd; bod angen i’w plentyn gael cymorth gan berson penodol maent wedi clywed amdano/amdani; neu fod angen cymorth un i un ar eu plentyn. | Ofni y bydd eu plentyn yn cael ei anwybyddu neu ei 'golli yn y system'. Ymwybyddiaeth bod eu plentyn yn un o lawer y mae'r athro yn delio â hwy. Amheuaeth bod rhai ysgolion/ ALlau/ gwasanaethau eraill yn ceisio arbed arian drwy beidio â darparu’r hyn sydd ei angen. | Cymryd amser, bod yn ddiduedd, eistedd i lawr gyda'r teulu, trafod y materion, sicrhau eu bod yn deall. Cysylltu â'r gwahanol bartïon (e.e. teulu, ysgol a gwasanaethau eraill). Cael gwybod beth sy'n digwydd. Cael gwybod beth sydd ar gael. Mewn rhai achosion, mynd â rhieni i ymweld â lleoliadau dysgu. Bod yn realistig, yn onest ac yn glir gyda'r teulu am yr hyn sydd ar gael. Helpu'r teulu i wneud dewis hyddysg. |
| | Nid yw rhai rhieni yn cymryd cyfrifoldeb am ddatblygiad eu plentyn neu’r cymorth sydd ei angen ar eu plentyn. | Nid yw rhai gwasanaethau yn cyflawni eu cyfrifoldeb am ddatblygiad y plentyn ac yn ceisio rhoi'r bai ar y rhieni yn annheg | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ceisio mantais ar gyfer eu plentyn | Mewn rhai achosion, mae gan rieni ddisgwyliadau afrealistig.<br>Mewn rhai achosion, mae'r teulu "yn deall y system", neu’n chwilio am arwyddion a symptomau ar y rhyngrwyd.<br>Mae rhai rhieni yn ceisio rhoi mantais annheg i’w plentyn - a chyfran annheg o adnoddau.<br>Mae plant â rhieni "ymwthgar" yn cael gormod o’u cymharu â phlant eraill lle nad yw eu rhieni yn brwydro, ac felly nid ydynt yn cael digon o gymorth/adnoddau. | Mae rhieni eisiau’r gorau ar gyfer eu plentyn ac os ydynt yn gweld bod eu plentyn yn anhapus neu’n peidio â gwneud cynnydd, maent yn teimlo rheidrwydd i weithredu. Er enghraifft, fel y dywedodd un rhiant "Maent yn dweud wrthyf o hyd fod llawer o blant sydd â phroblemau, rwy’n gwybod hynny. Ond fy ngwaith i yw edrych ar ôl fy mhlentyn ".<br>Mae rhieni am weld hawliau eu plentyn i gefnogaeth effeithiol yn cael eu sicrhau. | Archwilio dewisiadau eraill ar gyfer eu plentyn, bod yn realistig, yn onest ac yn glir ynghylch pam nad yw eu plentyn yn bodloni meini prawf. Egluro beth sydd wedi digwydd, e.e. achos wedi mynd i'r panel, ac maent wedi penderfynu nad yw'r plentyn yn bodloni'r meini prawf. Egluro’r dewisiadau iddynt, e.e. os oes gennych dystiolaeth newydd gallwch siarad â'r ysgolion. Archwilio’r hyn y gall y rhieni wneud eu hunain i helpu eu plentyn. |
| Ceisio mantais ar gyfer eu hunain | Lle bo'r hawliad yn cael ei gysylltu â budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd. | Mae ofn sylweddol ynghylch colli budd-daliadau y mae rhieni yn teimlo bod ganddynt hawl i’w cael. | |
| Diffyg hyder, yn ofni, na fydd anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu. | Yn aml mae ofnau am y cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, a'r ysgol i'r coleg. Mewn cyfarfodydd pontio, mae rhieni yn aml yn dweud bod angen mwy o ddiogelwch arnynt - er bod gan ysgolion uwchradd yn aml fwy o allu i ddiwallu anghenion. O ganlyniad, mae ceisiadau yn aml yn dechrau cael eu cyflwyno tua blwyddyn 6. | Mae rhieni wedi dod i adnabod ac yn ymddiried yn y gefnogaeth mae eu plentyn yn ei chael. Yn yr ysgol gynradd, maent yn adnabod yr athrawon ac ati – mae ysgol uwchradd yn anhysbys.<br>Mae datganiad yn cynnig amddiffyniad cyfreithiol – cymorth wrth gefn na fydd o bosibl yn angenrheidiol, ond sy'n rhoi tawelwch meddwl. | Cysylltu â'r gwahanol bartïon (e.e. teulu, ysgol a gwasanaethau eraill). Cael gwybod beth sy'n digwydd. Cael gwybod beth sydd ar gael. Ceisio lleddfu pryderon, tawelu meddyliau pobl. Dangos/siarad am y cymorth y byddant yn ei dderbyn. Cyfeirio at asiantaethau eraill, e.e. Gyrfa Cymru ar gyfer y newid i addysg bellach, esbonio beth fydd Gyrfa Cymru yn ei wneud (e.e. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Yn rhannol, mae’r achosion o golli hyder yn deillio o fethiant ysgolion i wneud digon i roi sicrwydd i rieni, colli cyfarfodydd adolygu B5 ac ati. | | cynlluniau dysgu a sgiliau) a beth fydd colegau yn ei wneud (e.e. eu hasesiad eu hunain). |
| | Mewn rhai achosion mae cred nad yw ysgolion yn diwallu anghenion eu plentyn, a'r unig ffordd o ddatrys y broblem yw drwy ddatganiad. | Efallai bydd gwasanaethau wedi gwrthod darparu cymorth am amser hir cyn i anghenion gael eu cydnabod – felly mae’r ymddiriedaeth y bydd pethau’n cael eu gwneud, er enghraifft, wedi cael ei golli. | |
| | Mewn rhai achosion, mae rhieni yn credu nad yw datganiad yn cael ei weithredu | Nid yw datganiadau a chynlluniau cymorth bob amser yn cael eu gweithredu'n llawn | |
| | Mewn rhai achosion, efallai y bydd gwrthdaro o bersonoliaethau, a dirywiad yn y berthynas. | Gall gweithwyr proffesiynol fod yn ddigywilydd, neu'n ddiystyriol; rhieni’n teimlo'n anghyfforddus ac yn ‘gorfod’ dod yn 'un o'r rhieni hynny' sy'n cael eu gweld fel ymwthgar | |
| Methiannau/dirywiad yn y ddarpariaeth | Mae problemau, enghreifftiau o achosion lle nad yw'r ddarpariaeth gywir yn cael ei chynnig. Ceir problemau penodol mewn perthynas â mynediad i rai mathau arbenigol o ddarpariaeth (e.e. SALT). Nid yw'r ddarpariaeth a nodir mewn datganiad yn digwydd, neu'n cael ei thynnu'n ôl. | Nid yw fy mhlentyn yn cael y cymorth sydd ei angen arno/arni. Mynd ar drywydd gwasanaethau yn dominyddu bywyd teuluol. | Cysylltu â'r gwahanol bartïon (e.e. teulu, ysgol a gwasanaethau eraill). Cael gwybod beth sy'n digwydd. Cael gwybod beth sydd ar gael. Siarad â'r ysgol ynglŷn â sut y gellir diwallu anghenion. Bod yn realistig, yn onest ac yn glir gyda'r teulu am yr hyn sydd ar gael.<br>Gall y problemau hyn fod yn anodd eu datrys, yn enwedig pan fydd yr awdurdod |
| | Mewn rhai achosion, nid yw ysgolion yn nodi problemau yn ddigon cynnar ac nid | Nid yw fy mhlentyn yn gwneud y cynnydd y dylai ef/hi fod yn ei wneud ac nid oes dim | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ydynt yn siarad â'r ALl, felly erbyn i'r ALl geisio ymyrryd, mae'n agos at bwynt chwalu/argyfwng. | yn cael ei wneud. | lleol yn gyfyngedig/heb reolaeth (e.e. mae'n dibynnu ar y Bwrdd Iechyd Lleol). |
| Gwahaniaethu (hawliadau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd) | Mynediad corfforol gwael, ysgolion yn enwi disgyblion. Mewn rhai achosion, gall rhieni fod yn amharod/yn anfodlon cwyno i'r ysgol/corff llywodraethu neu fod yn aneglur ynghylch pwy yw'r "corff cyfrifol". | | Cysylltu â'r ysgol a'r teulu. Os yw'n briodol, eirioli ar ran y teulu. Gweithio gyda'r ysgol i ddarganfod pam nad ydynt yn diwallu'r angen. Ystyried dod â thrydydd parti i helpu i ddatrys y broblem (e.e. seicolegydd addysg neu swyddog cynnydd disgyblion). |

Gall achosion neu sbardunau fod yn gysylltiedig ag anghenion rhieni a/neu gael eu gwaethygu ganddynt. Rhoddir enghreifftiau yn nhabl 7.

**Tabl 7. Enghreifftiau o anghenion rhieni**

| **Anghenion rhieni** | **Nodiadau, enghreifftiau** | **Ymatebion Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd** |
|---|---|---|
| Awtistiaeth neu gyflwr iechyd meddwl a/neu anabledd | Cynyddu'r risg o gamddealltwriaeth a/neu wrthdaro (e.e. rhieni nad oedd yn gallu deall pam ei bod yn dderbyniol gwahodd rhywun i gyfarfod mewn unrhyw ffordd heblaw drwy lythyr). Mewn rhai achosion, gall hyn wneud y broses o gynnal sgwrs "rhesymegol" yn fwy anodd. | Cymryd amser, bod yn ddiduedd ac anfeirniadol, dadansoddi'r broblem/anghytundeb/mater i sicrhau eu bod yn deall.<br>Darparu cymorth mewn cyfarfodydd a sicrhau bod rhieni yn gwneud dewisiadau hyddysg (h.y. Sicrhau eu bod yn hollol ymwybodol o'r wybodaeth a'r canlyniadau posibl i gyd). |

8.8. Nid yw'r un o'r teuluoedd y bu’r gweithwyr cymorth i deuluoedd yn gweithio gyda nhw wedi mynd â'u hachos i dribiwnlys. Mae’r tabl hwn yn dangos y gall gweithwyr cymorth i deuluoedd ADY helpu i ymdrin â rhai o'r achosion neu sbardunau allweddol ar gyfer anghytundeb a all arwain at apeliadau i TAAAC. Roedd y gweithwyr cymorth i deuluoedd ADY yn gallu nodi nifer o achosion lle, er enghraifft, roedd rhoi'r cyfle i rieni a gofalwyr siarad am bethau a /neu esbonio'r broses iddynt, wedi helpu i atal problemau rhag gwaethygu.

8.9. Yn yr un modd mae’r dadansoddiad hefyd yn dangos nad yw'r gweithiwr cymorth i deuluoedd yn "fwled arian" a all ddatrys pob problem neu anghytundeb. Lle, er enghraifft, mae’r broblem yn ymwneud â methiant i ddiwallu anghenion, neu ddirywiad yn y ddarpariaeth, ni fydd siarad â rhieni a gofalwyr yn unig yn datrys y broblem sylfaenol.

## 9. Arolwg o awdurdodau lleol i asesu eu hymwybyddiaeth o oblygiadau Mesur Addysg (Cymru) ac ymestyn hawliau plant a phobl ifanc i apelio

### Cyflwyniad

9.1. Fel yr amlinellwyd ym mhennod pedwar, datblygwyd arolwg o’r holl awdurdodau lleol yng Nghymru nad ydynt yn cymryd rhan yn y prosiect peilot. Defnyddiodd yr arolwg holiadur hunanlenwi ar-lein a gynlluniwyd i asesu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ofynion y Mesur a’u parodrwydd i’w bodloni. Anfonodd Llywodraeth Cymru ddolen i'r holiadur ar-lein i’r awdurdodau lleol a chafodd yr ymatebion eu casglu a'u dadansoddi gan yr Uned Pobl a Gwaith.

### Proffil yr ymatebwyr

9.2. Cymerodd un ar bymtheg o ymatebwyr ran yn yr arolwg. Roeddent yn cynnwys penaethiaid gwasanaeth yr awdurdodau lleol, rheolwyr cynhwysiant a swyddogion cynhwysiant. Er mwyn diogelu cyfrinachedd yr ymatebwyr, ni ofynnwyd iddynt nodi’r awdurdod lleol y maent yn ei gynrychioli.

9.3. Oherwydd nad oedd un neu ddau o ymatebwyr wedi ymateb i bob un o'r cwestiynau yn yr arolwg, mae cyfanswm nifer yr ymatebion yn disgyn i 15 ar gyfer rhai o'r cwestiynau ac i 14 ar gyfer un o'r cwestiynau.

### Ymwybyddiaeth a deall goblygiadau Mesur Addysg (Cymru) ac ymestyn hawl plant a phobl ifanc i apelio

9.4. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn ymwybodol o'r Mesur a’r broses o ymestyn hawliau plant a phobl ifanc i apelio i TAAAC, ond roedd dau o'r ymatebwyr yn llai clir am yr hawl i wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd i TAAAC:

- roedd yr holl ymatebwyr (n=16) yn deall y bydd gan blant a phobl ifanc sydd ag AAA, o dan Fesur Addysg Cymru (2009), hawl i apelio i TAAAC yn erbyn penderfyniadau penodol a wnaed gan Awdurdodau Lleol;

- roedd 14 allan o 16 yn deall y bydd gan blant a phobl ifanc, o dan Fesur Addysg Cymru (2009), hawl i wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion Cymru. Roedd y lleill (2 allan o 16) yn ansicr.

9.5. Fodd bynnag, fel y mae tabl 8 yn ei ddangos, pan ofynnwyd ynghylch goblygiadau'r Mesur yn fwy manwl, roedd yr ymatebion hyd yn oed yn fwy cymysg gyda thua un rhan o bump i ychydig o dan hanner yr holl ymatebwyr naill ai'n ansicr neu'n anghytuno (sy’n dangos nad oeddent yn deall holl oblygiadau'r Mesur yn llawn).

**Tabl 8: Dealltwriaeth awdurdodau lleol o hawl plant a phobl ifanc i apelio a hawlio (cyfanswm nifer yr ymatebion=15).**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rwyf yn deall pryd y gall plant a phobl ifanc apelio i TAAAC mewn perthynas â phenderfyniadau am asesu statudol a/neu ddarpariaeth i ddiwallu eu hanghenion addysgol arbennig | 6 | 6 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| Rwyf yn deall sut y gall plant a phobl ifanc apelio i TAAAC mewn perthynas â phenderfyniadau am asesu statudol a/neu ddarpariaeth ddiwallu eu hanghenion addysgol arbennig | 4 | 7 | 3 | 1 | 0 | 0 |
| Rwyf yn deall pryd y gall plant a phobl ifanc wneud hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd i TAAAC | 3 | 5 | 6 | 0 | 0 | 1 |
| Rwyf yn deall sut y gall plant a phobl ifanc wneud hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd i TAAAC | 3 | 4 | 6 | 1 | 0 | 1 |

*Ffynhonnell: arolwg o awdurdodau lleol*

9.6. Yn yr un modd, fel y mae tabl 9 yn ei ddangos, pan ofynnwyd iddynt ynghylch eu dealltwriaeth o ddyletswyddau awdurdodau lleol o dan y Mesur, roedd yr ymatebion yn gymysg. Roedd o leiaf dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiadau. Roedd gweddill yr ymatebwyr naill ai'n ansicr neu'n anghytuno (sy’n dangos nad oeddent yn deall y goblygiadau yn llawn).

**Tabl 9: Dealltwriaeth awdurdodau lleol o'u dyletswyddau i blant a phobl ifanc** (Cyfanswm nifer yr ymatebion =15).

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rwyf yn deall dyletswydd yr awdurdod lleol i roi gwybod i blant a phobl ifanc am eu hawliau i apelio a gwneud hawliadau i TAAAC | 7 | 3 | 3 | 2 | 0 | 0 |
| Rwyf yn deall dyletswydd yr awdurdod lleol i wneud trefniadau er mwyn i blant a phobl ifanc gael mynediad i wasanaethau partneriaeth a datrys anghytundebau | 6 | 4 | 4 | 1 | 0 | 0 |
| Rwyf yn deall dyletswydd yr awdurdod lleol i roi gwybod i blant a phobl ifanc am wasanaethau partneriaeth a datrys anghytundebau | 5 | 5 | 3 | 2 | 0 | 0 |
| Rwyf yn deall dyletswydd yr awdurdod lleol i ddarparu mynediad i wasanaethau eiriolaeth annibynnol a all wrando ar, a rhoi llais i, safbwyntiau a phryderon plant | 5 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 |

*Ffynhonnell: arolwg o awdurdodau lleol*

**Parodrwydd awdurdodau lleol ar gyfer ymestyn hawliau plant a phobl ifanc i apelio**

9.7. Roedd parodrwydd awdurdodau lleol yn gymysg iawn, ac roedd dros 90% o'r ymatebwyr eisiau rhagor o wybodaeth am y Mesur.

9.8. Roedd llai na hanner yr awdurdodau lleol a ymatebodd wedi cysylltu â lleoliadau dysgu er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o oblygiadau'r Mesur sydd ar ddod, a hyd yn oed lle y gwnaed cysylltiad, mewn llawer o achosion, dim ond rhai lleoliadau dysgu (yn hytrach na phob un ohonynt) y cysylltwyd â hwy. Yn yr un modd, ac eithrio Cydlynwyr ADY/ AAA a Seicolegwyr Addysgol, roedd llai na hanner yr awdurdodau lleol a ymatebodd wedi cysylltu â grwpiau allweddol o weithwyr proffesiynol am y Mesur. At hynny, hyd yn oed lle y gwnaed cysylltiad, mewn llawer o achosion, dim ond rhai o'r gweithwyr proffesiynol ym mhob grŵp y cysylltwyd â hwy.

9.9. Roedd y darlun o ran gwasanaethau cymorth ac eiriolaeth yn debyg, gyda thua dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn adrodd na wnaed unrhyw gysylltiad i godi ymwybyddiaeth o'r Mesur. Yn ddiddorol, ac mewn cyferbyniad â hyn, dywedodd bron hanner yr ymatebwyr eu bod wedi cysylltu â SNAP Cymru.

9.10. Roedd y darlun o ran i ba raddau y mae awdurdodau lleol wedi adolygu eu systemau a'u prosesau presennol i wneud rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o'u hawliau, neu pa gynlluniau a wnaed i gefnogi plant a phobl ifanc, yn debyg: dim ond un rhan o dair o'r ymatebwyr a adroddodd eu bod wedi gwneud hyn.

**Disgwyliadau awdurdodau lleol o effaith y broses o ymestyn hawliau plant a phobl ifanc i apelio**

9.11. Roedd disgwyliadau ymatebwyr o effaith y mesur yn gymysg. Nododd 60% o ymatebwyr nad oeddent yn disgwyl llawer o achosion, er roedd 40% yn ansicr o faint o achosion i'w disgwyl. Serch hynny, roedd gan hanner yr ymatebwyr (7 allan o 14) bryderon ynghylch ymestyn yr hawliau i apelio, neu i wneud hawliad, i TAAAC. Nododd tua thraean (4 allan o 14) nad oedd ganddynt unrhyw bryderon ac roedd tua un o bob pump (3 allan o 14) yn ansicr. Gwnaed nifer o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roeddent yn cynnwys awydd yr awdurdodau lleol i gael mwy o wybodaeth a phryderon am y goblygiadau ar gyfer plant a phobl ifanc. Ymhlith y sylwadau roedd: “Mae diffyg eglurder ynghylch sut y bydd hyn yn gweithio yn ymarferol"; “Gallu/cymhwysedd y plentyn i wneud penderfyniad o'r fath a'r ffaith y gallai rhieni annog y plentyn i gyflwyno’ apêl "ac" Nid yw'r pryder yn ymwneud yn uniongyrchol â hawl y plentyn i gyflwyno Apêl, ond yn hytrach mae’n ymwneud â sicrhau bod cefnogaeth, cyngor a chymorth priodol ar gyfer y plentyn."

9.12. Nododd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr (7 allan o 15) nad oedd ganddynt unrhyw bryderon am y dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol i hysbysu a chefnogi plant a phobl ifanc fel y gallant apelio, neu wneud hawliad i, TAAAC. Fodd bynnag, roedd gan leiafrif sylweddol, 6 allan o 15, bryderon am hyn, ac nid oedd y ddau ymatebydd arall yn gwybod.

**Trafodaeth**

9.13. Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod lefelau ymwybyddiaeth o'r hawliau a'r dyletswyddau y mae’r Mesur yn eu gosod ar awdurdodau lleol yn gyffredinol uwch na'u lefel o barodrwydd. Mae lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ychydig yn wannach mewn perthynas â hawliau i wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith paratoadol wedi canolbwyntio’n gul ar ysgolion ac ar ddau grŵp allweddol o weithwyr proffesiynol: Cydlynwyr AAA a seicolegwyr addysgol. Mae angen gwneud mwy o waith, gan fod y prosiectau peilot yn dangos pwysigrwydd ymgysylltu’n ehangach â lleoliadau a gwasanaethau eraill.

## 10. Casgliadau

### Gweithredu ac effaith

10.1. Gellid ystyried bod "amcan sylfaenol" Mesur 2009, sef “rhoi hawliau cyfartal i wneud apêl i rieni a'u plant” (CCC, 2009), wedi cael ei gyflawni i raddau helaeth mewn perthynas â hawl i apelio i TAAAC. Mae’r adolygiad o lenyddiaeth a gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn dangos nad oes rhwystr anorchfygol i ymestyn hawliau i blant a phobl ifanc, er y derbynnir nad oes fawr o arfer sefydledig y gellid troi ato mewn perthynas â hyn. Mae’r systemau a'r prosesau sy’n ymwneud â hawliau i apelio i TAAAC wedi eu sefydlu ac ymddengys eu bod yn gweithio'n dda yn y ddau awdurdod lleol sy’n rhan o’r prosiect peilot, er bod diffyg achosion yn golygu nad yw'r systemau wedi cael eu profi yn ymarferol. O ganlyniad:

- nodir bod plant a phobl ifanc sydd wedi bod yn rhan o'r broses[60] , yn ymwybodol o’u hawliau ac yn eu deall;
- nodir bod gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o’r hawliau ac yn eu deall a'r goblygiadau ar gyfer eu hymarfer;
- mae’r strwythurau cymorth ar waith i helpu plant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid arfer eu hawliau, i’w cefnogi os ydynt yn dewis i'w hymarfer drwy wneud hawliad neu apêl.

10.2. Mae'r sefyllfa mewn perthynas â hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd yn llai eglur. Mae'r prosesau i alluogi plant a phobl ifanc i wneud hawliadau, ac i gefnogi penderfyniadau ynghylch arfer yr hawl, wedi cael eu sefydlu. Fodd bynnag, bu’n fwy anodd nodi a chynnwys plant a phobl ifanc y gallai fod ganddynt yr hawl i wneud hawliad yn uniongyrchol, ac felly mae lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hawl yn ansicr.

10.3. Mae tystiolaeth o astudiaethau eraill yn dangos bod gwella cyfranogiad plant a phobl ifanc yn gwella eu lles. Felly, o ystyried canolbwynt y prosiectau peilot

[60] Nid oedd rhai plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses oherwydd eu hoedran ifanc a/neu gymhlethdod eu hanghenion.

ar gyfranogiad a llais disgyblion gellid rhagdybio bod hyn yn debygol o fod wedi cael effaith gadarnhaol ar les plant a phobl ifanc.

10.4. Dylai apêl neu hawliad i TAAAC fod yn ddewis olaf ac yn arwydd bod y system yn ôl pob tebyg wedi methu mewn rhyw ffordd. [61] Felly, mae'r ffaith na fu unrhyw apeliadau, a dim ond un hawliad, yn fesur o lwyddiant - bod y system addysg a chymorth yn ei chyfanrwydd yn gweithio. Yn yr un modd, fel yr amlinellwyd ym mhennod wyth, mae hawliau i apelio yn gyfyngedig a cheir rhwystrau fel y posibilrwydd o straen emosiynol a chostau ariannol[62] sydd ynghlwm wrth wneud apêl neu hawliad a allai olygu nad yw’r hawliau i apelio neu i wneud hawliad yn cael eu harfer, hyd yn oed pan fydd y system wedi methu. Mae hefyd yn bwysig cofio nad yw'r holl blant a phobl ifanc wedi cael eu cynnwys yn y broses oherwydd oedran a/neu natur eu hanghenion. Mae hyn yn adlewyrchu barn y rhai sy'n gweithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc ynghylch eu gallu i ddeall eu hawliau, ac os na allant eu deall, ni fyddai'n briodol ceisio egluro eu hawliau iddynt ar y pwynt hwnnw.

10.5. Mae nifer o resymau "strwythurol" pwysig pam mae nifer y plant a phobl ifanc a allai ddeall ac ymarfer eu hawliau i apelio yn debygol o fod yn fach. Mae hyn, ynghyd â rhesymau eraill pam mae plant a phobl ifanc a allai arfer eu hawliau, yn dewis peidio â gwneud hynny, yn helpu i esbonio pam, hyd yn hyn, dim ond un hawliad, a dim un apêl, a gyflwynwyd i TAAAC gan blant neu bobl ifanc.

10.6. Mae ymestyn hawliau i blant a phobl ifanc yn ffordd effeithiol o ddarparu opsiwn ‘wrth gefn’ ar gyfer yr achosion hynny lle mae rhiant neu ofalwr yn methu arfer hawliau i apelio neu wneud hawliad ar ran eu plentyn neu'n amharod i wneud hynny [63]. Fodd bynnag, mae'r prosiectau peilot wedi cadarnhau bod angen i blant a phobl ifanc ddeall eu hawliau a theimlo y

[61] Dyma neges allweddol adroddiad y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, “Cywir y Tro Cyntaf” (ATJC, 2011)

[62] Er nad yw TAAAC yn codi tâl ar ymgeiswyr, efallai y bydd pobl, er enghraifft, yn ceisio (a thalu am) cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol.

[63] Er enghraifft, fel yr amlinellwyd ym mhennod dau, fel y dywedodd Jane Hutt mewn tystiolaeth lafar i Bwyllgor Deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC, dd), y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar y pryd: “....there may be parents who, even with support, simply do not feel willing or confident or competent enough to pursue an appeal or claim”.

gallant eu harfer er mwyn i'r broses o ymestyn hawliau i apelio neu wneud hawliad weithredu fel opsiwn 'wrth gefn'. Felly, mae rhoi gwybodaeth a chymorth i blant a phobl ifanc yn hanfodol.

## Materion heb eu datrys

*Gwrthwynebiadau gan rieni neu ofalwyr*

10.7. Nid yw'n glir sut y byddai anghytundeb rhwng rhieni neu ofalwyr a phlentyn neu berson ifanc, am gyfathrebu ac arfer eu hawliau, yn cael ei datrys. Codwyd y mater hwn gan Bwyllgor Deddfwriaethol CCC (CCC, d.d.), ond nid yw'r prosiectau peilot wedi'i ddatrys (eto). Drwy weithredu ar gyngor TAAAC, mae Wrecsam wedi dewis hysbysu rhieni a gofalwyr y bydd hawliau eu plant yn cael eu hegluro iddynt, ond nid yw'r awdurdod lleol wedi gofyn am ganiatâd rhieni cyn cysylltu â phlentyn neu berson ifanc drwy lythyr. Mewn cyferbyniad â hyn, mae model Sir Gaerfyrddin, sy'n seiliedig ar gyswllt wyneb yn wyneb gyda theuluoedd sy'n mynd drwy'r broses asesu statudol, yn dibynnu ar gydsyniad a chyfranogiad y teulu; ac nid yw pob teulu wedi cydsynio. At hynny, hyd yn oed os gellir cysylltu drwy lythyr, efallai bydd rhieni yn dal i wrthwynebu gweithwyr, nad ydynt yn staff yr ysgol, yn siarad â'u plentyn ac nid oes un o'r prosiectau peilot wedi penderfynu beth fyddai'n digwydd os bydd rhiant neu ofalwr yn ceisio atal plentyn neu berson ifanc a oedd yn dymuno arfer eu hawliau i apelio. Gall fod yn bosibl darbwyllo rhieni a gofalwyr i wneud hynny, ond nid yw'n glir os a sut y gellid eu gorfodi i wneud hynny (sy'n golygu y byddai hawliau'r plentyn yn cael eu negyddu). Mae'n bwysig pwysleisio, fodd bynnag, nad yw'r mater hwn wedi codi eto.

*Gwrthdaro buddiannau posibl*

10.8. Mae modelau peilot Sir Gaerfyrddin a Wrecsam yn darparu mynediad i wasanaethau eiriolaeth annibynnol. Fodd bynnag, yn ymarferol nid oes unrhyw un wedi manteisio ar y gwasanaethau hyn. Yn hytrach, mae plant a phobl ifanc wedi dibynnu ar wasanaethau cymorth yr awdurdod lleol (h.y.

gweithwyr cymorth i deuluoedd ADY a chyfeillion achos) a'u teulu i egluro'u hawliau a'u helpu i benderfynu a ddylid arfer eu hawliau. Er y bwriedir i weithwyr cymorth i deuluoedd ADY teulu a chyfeillion achos gynnig cyngor a chefnogaeth annibynnol, efallai y bydd gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig. Mae'n ymddangos yn arbennig o amlwg mewn perthynas â chyfeillion achos (yn Wrecsam), a all fod yn athrawon a staff cymorth mewn ysgol y mae plentyn neu berson ifanc yn gwneud hawliad yn ei herbyn. Yn yr un modd, mae'r holl adborth a dderbyniwyd hyd yn hyn yn dangos bod y gwasanaethau cymorth hyn yn cael eu gwerthfawrogi a'u hystyried fel darpariaeth annibynnol.

*Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau i wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd*

10.9. Prif ffocws y prosiectau peilot oedd sefydlu prosesau mewn perthynas â hawliau i apelio ac mae wedi bod yn fwy anodd i'r prosiectau peilot ymdrin â'r hawl i wneud hawliad i TAAAC. Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r prosesau a'r gwaith papur a ddatblygwyd gan TAAAC i alluogi plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau, yn eu lle.[64] Mae'r ddau awdurdod lleol wedi sefydlu strwythurau cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dymuno naill ai arfer eu hawl i apelio neu i wneud hawliad. Fodd bynnag, mae'r ddau wedi cael trafferth wrth nodi a thargedu, yn uniongyrchol, plant a phobl ifanc y gall fod ganddynt yr hawl i wneud hawliad. Felly, maent wedi dibynnu ar ddulliau ehangach, heb eu targedu, o godi ymwybyddiaeth, ac nid yw'n glir i ba raddau y mae plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau i wneud hawliad ac yn deall hyn.

*Plant sy'n derbyn gofal*

10.10. Fel yr amlinellwyd yn nhystiolaeth lafar Jane Hutt i Bwyllgor Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC, d.d.), mewn ymateb i argymhelliad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, bwriedir i'r Mesur "ensure that looked-after children have the independent right to appeal". Teimlwyd hefyd

[64] Gweler e.e. http://cymru.gov.uk/docs/dcells/publications/120316discyp1cy.pdf

bod plant sy'n derbyn gofal yn un grŵp o bobl ifanc a fyddai'n debygol o arfer eu hawliau. Mae'r hawl hon wedi'i sefydlu ac mae'r ddau brosiect peilot wedi gweithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a, lle y bo'n berthnasol, mae'r gweithwyr cymorth i deuluoedd ADY yn Sir Gaerfyrddin wedi gweithio gyda gofalwyr maeth, er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hawliau[65]. Fodd bynnag, hyd yn hyn, nid oes unrhyw blant sy'n derbyn gofal wedi arfer yr hawl hon ac mae'r dystiolaeth o'r prosiectau peilot yn dangos mai ychydig iawn o ddiddordeb mewn arfer eu hawliau sydd gan blant sy'n derbyn gofal. Gall hyn fod oherwydd y rhesymau a amlinellwyd ym mhennod wyth sy'n egluro'r amrywiaeth o resymau pam mae cyn lleied o blant a phobl ifanc naill ai'n gallu arfer eu hawliau neu'n debygol o wneud hynny.

*Cydnerthedd systemau*

10.11. Er bod y systemau wedi'u sefydlu, fel yr amlinellwyd uchod, nid ydynt wedi cael eu profi'n llawn eto. At hynny, mae'r ddau brosiect peilot wedi cael trafferth cael adborth gan randdeiliaid am effaith ac effeithiolrwydd mesurau'r prosiect peilot.

**Goblygiadau ar gyfer arfer yn y dyfodol**

10.12. Nawr bod y strwythurau a'r prosesau yn eu lle, bydd yn bwysig i'r prosiectau peilot barhau i fonitro a gwerthuso eu heffeithiolrwydd. Bydd yn arbennig o bwysig iddynt sicrhau bod adborth yn cael ei gasglu gan randdeiliaid am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth plant a phobl ifanc am eu hawliau i apelio ac i wneud hawliad, a bod yr adborth hwnnw'n cael ei ddefnyddio i lywio arfer.

10.13. Fel yr amlinellwyd uchod, mae nifer o faterion yn bodoli nad yw'r prosiectau peilot wedi llwyddo i'w datrys. Efallai na fydd y prosiectau peilot eu hunain yn gallu datrys rhai ohonynt e.e. sut i ymdrin â gwrthwynebiadau gan rieni neu ofalwyr i naill ai'r dull cyfathrebu neu'r hawl i arfer hawliau gan blant a phobl

[65]Gan fod prosesau cyfochrog ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, sy'n adlewyrchu'r rhai ar gyfer oedolion, wedi cael eu datblygu yn Wrecsam, nid ydynt wedi gweithio yn uniongyrchol gyda gofalwyr maeth.

ifanc. Felly, efallai y bydd angen i weithgor, sy’n cynnwys y prosiectau peilot a TAAAC, ac a gynullwyd gan Lywodraeth Cymru, ystyried y materion hyn

10.14. Mae’r arolwg o ymwybyddiaeth a pharodrwydd awdurdodau lleol yn amlygu pwysigrwydd lledaenu gwybodaeth er mwyn cryfhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Mesur, ei ofynion a goblygiadau tebygol. Dylai hyn gynnwys, yn benodol, manylion am y dulliau a ddatblygwyd gan Sir Gaerfyrddin a Wrecsam. Dylai hyn, yn ei dro, helpu i wella parodrwydd awdurdodau lleol ar gyfer mis Gorffennaf 2015, pan fydd y rheoliadau treialu yn peidio â bod yn weithredol, a bydd yr hawliau a'r dyletswyddau yn berthnasol yn awtomatig i Gymru gyfan.

**Llyfryddiaeth**

(Cyfeiriadau at y we yn gywir 30ain Tachwedd 2013)

Curtis, L. (2012). *The Units Costs of Health and Social Care 2012*, ar gael ar http://www.pssru.ac.uk/project-pages/unit-costs/2012/

Comisiynydd Plant Cymru (2004) *Adroddiad Blynyddol 2003-04*, ar gael ar http://www.childcom.org.uk/uploads/publications/35.pdf

Croke, R (gol). *Hawliau nawr, hawliau heddiw. A yw hawliau plant yn realaeth yng Nghymru?* ar gael ar http://www.childrensrightswales.org.uk/UserFiles/resources/FInal%20Rights%20here,%20right%20now%20Report%20C.pdf

Adran Gwaith a Phensiynau, (2013). Arolwg Adnoddau Teulu 2011/12, fersiwn Saesneg ar gael ar https://www.gov.uk/government/publications/family-resources-survey-201112

Dockrell, Peacey a Lunt (2002) 'Literature Review: Meeting the Needs of Children with Special Educational Needs', Llundain: Sefydliad Addysg
Ar gael 23/03/12 ar http://eprints.ioe.ac.uk/749/1/Dockrell2002Literature.pdf

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2010) Consultation on Giving Children and Young People a Right of Appeal, ar gael 09/02/12 ar; http://www.equalityhumanrights.com/legal-and-policy/consultation-responses/response-to-consultation-on-giving-children-and-young-people-a-right-to-appeal/

Hill, L, (2013) Plant ag anableddau, yn Croke, R (gol). Hawliau nawr, hawliau heddiw. A yw hawliau plant yn realaeth yng Nghymru? ar gael ar: http://www.childrensrightswales.org.uk/UserFiles/resources/FInal%20Rights%20here,%20right%20now%20Report%20C.pdf

Harrison, L. (2011). Education (Wales) Measure 2009: A research study - consulting with children, young people, parents and professionals" papur nas cyhoeddwyd gan NYAS Cymru ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Kendall, S. (2008). *Research into the benefits of children's and young people's participation in Wales:* the benefits of participation http://www.pupilvoicewales.org.uk/uploads/publications/522.doc

Kenworthy, J., Whittaker, J., (2010) Anything to Declare? The Struggle for Inclusive Education and Children's Rights, in Disability and Society, 15:2, t.219-231
Lewis, A., Parsons, S., Robertson, C., (2007) My school, my family, my life: Telling it like it is, Birmingham; Disability Rights Commission, ar gael 09/02/12 ar;

Koocher, G. P. a Keith-Spiegel, P. C. (1990). *Children, Ethics, and the Law:* Professional Issues and Cases. Lincoln, Nebraska: Gwasg Prifysgol Nebraska.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (2006a), *Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Adolygiad Polisi o Anghenion Addysgol Arbennig: Rhan 2: Fframwaith Asesu Statudol (Datganiadau)*, Mai 2006, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd. Ar gael ar
http://www.cynulliadcymru.org/cy/N0000000000000000000000000044329.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2009). *Memorandwm Esboniadol Mesur Addysg (Cymru)*,
ar gael ar http://www.assemblywales.org/cy/ms-ld7759-em-e.pdf

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru (d.d.) Pwyllgor Deddfwriaeth*, Rhif 3, 14eg Mai, 2009. ar gael ar http://www.cynulliadcymru.org/cy/bus-home/bus-third-assembly/bus-committees/bus-committees-perm-leg/bus-committees-third-lc3-agendas.htm?act=dis&id=129834&ds=5/2009

Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl (d.d.). UK *Initial Report on the UN Convention on the Rights of Persons with Disabilities*, ar gael ar:

http://odi.dwp.gov.uk/docs/disabled-people-and-legislation/uk-initial-report-annex-d-and-annex-e.pdf

Riddell, S., Harris N., Smith, E., Weedon, E., (2009), Dispute resolution service in additional and special educational needs: local authority perspectives, yn *Journal of Education Policy*, 25:1, tt55-71, Llundain: Routledge

Runswick-Cole (2007) 'The Tribunal was the most stressful thing, more stressful than my son's diagnosis or behaviour': Parents' experiences of the Special Educational Needs and Disability Tribunal, *Disability & Society, 22:3, t315-328*

TAAAC (2013). Adroddiad Blynyddol 2011-2012, ar gael ar: http://cymru.gov.uk/docs/sentw/publications/130312sentw-annual-report-2012-cy.pdf

TAAAC (d.d.). "Penderfynu a ddylid gwneud hawliad", tudalen we, ar gael 27 Tachwedd 2012, http://sentw.gov.uk/faqs/claimsfaq/decideclaim/;jsessionid=280158353726A39031567FE44265A36C?skip=1&lang=cy

Ystadegau ar gyfer Cymru (2013). *Disgyblion â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig:* Ionawr 2013, (Saesneg yn unig) ar gael ar-lein ar http://cymru.gov.uk/docs/statistics/2013/130619-pupils-statements-special-educational-needs-january-2013-en.pdf

Llywodraeth Cymru (2012). *Programme of Action Research to Inform the Evaluation of the Additional Learning Needs Pilots:* Robust Trialling Phase, (Saesneg yn unig) ar gael ar http://dera.ioe.ac.uk/18411/1/130823-programme-action-research-inform-evaluation-additional-learning-needs-pilots-robust-trialling-phase-en.pdf

Llywodraeth Cymru (2013) '*Transition Key Working: A Cost Benefit Analysis of 5 Pilot Projects in Wales'*, (Saesneg yn unig) ar gael ar-lein ar http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/costs-benefits-transition-key-working/?skip=1&lang=cy

Llywodraeth Cymru (2014), Research on the IDP Expanded Testing Phase. Report for the Welsh Government, (Saesneg yn unig) ar gael ar-lein ar http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/programme-action-research-additional-learning-needs-pilot/?lang=en

## Atodiad 1.  Rhestr o gwestiynau ymchwil

### Tabl 10. Cwestiynau ymchwil sy'n ymwneud â gweithredu a nodiadau ar y dull a ddilynwyd i'w hateb

<table>
<tr><th>Cwestiynau ymchwil</th><th>Nodiadau ar y dull a ddilynwyd</th></tr>
<tr><td>• Beth oedd cyfranogiad plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr a grwpiau eiriolaeth/â diddordeb yn y broses o gynllunio a gweithredu'r darpariaethau yn y Mesur?</td><td rowspan="2">• Roedd cyfranogiad plant a phobl ifanc yn arbennig yn ffocws allweddol yn y cyfarfodydd cynnar.<br>• Trafodwyd cyfranogiad gwahanol grwpiau o randdeiliaid wrth gynllunio a gweithredu'r darpariaethau yn y Mesur ym mhob cyfarfod, fel rhan o drafodaethau ynghylch sut y caiff y Mesur ei weithredu ym mhob ardal.<br>• Mae'r gwaith o werthuso effaith wedi canolbwyntio ar gyfraniad canfyddedig gwahanol grwpiau o randdeiliaid. Er enghraifft, sut mae pobl ifanc wedi dylanwadu ar y dyluniad o ddeunyddiau ar gyfer codi ymwybyddiaeth.</td></tr>
<tr><td>• Pa effaith a gafodd cyfranogiad pob un o'r grwpiau uchod?</td></tr>
<tr><td>▪ Pa ffactorau - er enghraifft adnoddau, ymrwymiad, arbenigedd, arferion a systemau presennol - os o gwbl, sydd wedi creu rhwystrau i, neu hwyluso, gweithredu'r darpariaethau?</td><td rowspan="2">• Mae trafodaeth ar gynnydd, gan gynnwys effaith cyd-destun, rhwystrau a galluogwyr, yn eitem sefydlog ar yr agenda mewn cyfarfodydd ymchwil weithredu.</td></tr>
<tr><td>▪ Ym mha ffyrdd, os o gwbl, cafodd cyd-destun - er enghraifft adnoddau, ymrwymiad, arbenigedd, arferion a systemau presennol - effaith ar y broses weithredu?</td></tr>
</table>

### Tabl 11. Cwestiynau ymchwil sy'n ymwneud â chostau a nodiadau ar y dull a ddilynwyd i'w hateb

<table>
<tr><th>Cwestiynau ymchwil</th><th>Nodiadau</th></tr>
<tr><td>• Pa gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu agweddau penodol ar y mesur?</td><td rowspan="3">• Cafodd hyn ei drafod yn y cyfarfodydd cychwynnol. Cytunwyd i gyfrifo costau terfynol, ystyried ffyrdd y gellid lleihau costau ac ati yn ystod y cyfarfodydd crynodol terfynol.</td></tr>
<tr><td>• Beth fu cost gyffredinol y broses o weithredu o fewn yr awdurdodau peilot?</td></tr>
<tr><td>• Ym mha ffyrdd, os o gwbl, y byddai'n bosibl lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r darpariaethau?</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| • Beth fydd y costau amcangyfrifedig ar gyfer cyflwyno'r prosiectau peilot ledled Cymru? | • Bydd hyn yn dibynnu ar y model(au) a gynigir gan bob prosiect peilot a bydd angen gwaith pellach i ystyried i ba raddau y mae amcangyfrifon cost o Wrecsam a Sir Gaerfyrddin yn debygol o fod yn berthnasol i ardaloedd eraill. |

### Tabl 12. Cwestiynau ymchwil sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd a nodiadau ar y dull a ddilynwyd i'w hateb

| Cwestiynau ymchwil | Nodiadau |
|---|---|
| • I ba raddau y mae'r darpariaethau yn y Mesur wedi'u hymgorffori mewn gweithdrefnau ac arferion presennol yr awdurdodau peilot/ Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru? | • Mae trafodaeth ar gynnydd, gan gynnwys y berthynas rhwng arferion a gweithdrefnau prosiectau peilot ac arferion a gweithdrefnau presennol yn eitem sefydlog ar yr agenda mewn cyfarfodydd ymchwil weithredu. |
| • A yw'r darpariaethau wedi'u gweithredu mewn ffordd sydd wedi'i chyd-drefnu ac sy'n osgoi dyblygu arferion presennol? | |
| • Ym mha ffyrdd, os o gwbl, y gallai'r darpariaethau fod wedi'u gweithredu yn fwy effeithlon? | • Bydd cyfarfodydd crynodol terfynol yn archwilio'r mater hwn yn fanylach. |

### Tabl 13. Cwestiynau ymchwil sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd a nodiadau ar y dull a ddilynwyd i'w hateb

| Cwestiynau ymchwil | Dull arfaethedig |
|---|---|
| • I ba raddau y mae'r gwaith o weithredu'r darpariaethau yn y mesur wedi cyfrannu at les plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig? | • Mae trafodaeth ar effaith, gan gynnwys yr effaith ar les plant a phobl ifanc yn eitem sefydlog ar yr agenda mewn cyfarfodydd ymchwil weithredu. Gan mai dim ond un achos a gyflwynwyd, a dewisodd y teulu i beidio â chymryd rhan, mae hyn wedi canolbwyntio ar effaith y gwaith o godi ymwybyddiaeth o hawliau plant a phobl ifanc. |
| • A yw'r gwasanaethau a gomisiynwyd (eiriolaeth annibynnol, Gwasanaethau Partneriaeth a Datrys Anghydfodau) yn bodloni'r safonau y cytunwyd arnynt | • Trafodwyd hyn mewn cyfarfodydd ymchwil weithredu. Ymddengys fod peth dryswch ynghylch hyn gan nad oedd y prosiectau peilot yn ymwybodol ei bod yn ofynnol iddynt wneud hyn. |

| | |
|---|---|
| gyda'r awdurdodau peilot yn unol â'r Cod Ymarfer AAA? [66] | |
| • A yw perfformiad yn erbyn y safonau yn cael ei fonitro'n effeithiol? | |
| • A yw'r gwaith o weithredu'r darpariaethau yn y Mesur yn bodloni safonau cyfranogiad Llywodraeth Cynulliad Cymru?[67] | |
| • A yw perfformiad yn erbyn y safonau yn cael ei monitro'n effeithiol? | |
| • A yw'r darpariaethau wedi'u gweithredu mewn ffordd sydd wedi galluogi/cefnogi plant a phobl ifanc i wneud apeliadau a hawliadau i'r tribiwnlys? | • Mae trafodaeth ar gynnydd, gan gynnwys y camau a gymerwyd i (a) codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau ymysg grwpiau allweddol o randdeiliaid (plant a phobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr a gweithwyr proffesiynol) ac i ddatblygu cefnogaeth (e.e. hyfforddiant a gwybodaeth ar gyfer cyfeillion achos) yn eitem sefydlog ar yr agenda mewn cyfarfodydd ymchwil weithredu. <br>• Gweithiodd y PWU gyda'r ddau brosiect peilot ar ddulliau o werthuso effaith hyn (e.e. drwy arolygon) |
| • I ba raddau y mae plant a phobl ifanc yn ymwybodol o, ac yn deall, eu hawl i apelio/gwneud hawliadau? | |
| • A yw'r dull o gyfathrebu'r hawl i apelio/gwneud hawliadau yn cael ei wneud mewn ffyrdd sy'n briodol i oedran, angen a gallu? | |
| • A yw'r canllaw, a ddatblygwyd ar gyfer rhieni, cyfeillion achos neu ymarferwyr sy'n gweithio gyda/cefnogi pobl ifanc, yn ddefnyddiol? | |
| • Beth mae plant a phobl ifanc yn ei feddwl am y broses apelio/hawlio? | • Dim ond un achos sydd wedi'i gyflwyno, a dewisodd y teulu i beidio â chymryd rhan. Nid yw TAAAC a'r awdurdod lleol beilot dan sylw wedi trafod yr achos yn fanwl. Bu'r ffocws, felly, yn bennaf ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r |
| • I ba raddau y mae plant a phobl ifanc wedi cael eu cefnogi'n effeithiol trwy'r broses apelio a hawliadau? | |

[66] http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/specialeduneedscop/?lang=en
[67] http://www.participationworkerswales.org.uk/userfPorject plans 9including iles/file/Participation_Standards_W&E_2007.pdf

| | |
|---|---|
| • Beth yw profiadau plant a phobl ifanc sydd wedi arfer eu hawliau?<br>- A oedd y gwasanaeth eiriolaeth yn broffesiynol ac yn annibynnol ym marn y plant a phobl ifanc?<br>- A wnaeth y gwasanaeth helpu plant a phobl ifanc i ystyried yr ystod lawn o opsiynau o'u blaenau, gan gynnwys apêl?<br>- Pan gafodd apêl ei dilyn, a gafodd y plentyn/person ifanc ddigon o gymorth gyda'r gwaith paratoi a chyflwyno yn y gwrandawiad? | hawl, yn hytrach na beth mae plant a phobl ifanc yn ei feddwl am yr hawl. |
| • Pam oedd pobl ifanc yn dewis peidio ag arfer eu hawl i apelio/gwneud hawliadau? | • Archwiliwyd y rhesymau pam mae plant a phobl ifanc yn dewis peidio ag arfer eu hawliau (e.e. y newid tuag at nodi AAA yn gynharach, fel bod datganiadau yn cael eu rhoi yn gynharach, y gostyngiad yn nifer y datganiadau) |
| • Pa agweddau ar y prosiectau peilot sydd wedi gweithio'n dda, pa rwystrau a wynebwyd, a beth gellid ei wella? | • Mae trafodaeth ar gynnydd ac effaith yn eitem sefydlog ar yr agenda mewn cyfarfodydd ymchwil weithredu ac yn y cyfarfodydd crynodol terfynol. |
| • A fu unrhyw effeithiau anfwriadol neu annisgwyl yn sgîl y prosiectau peilot? | |
| • A yw'r prosiectau peilot wedi arwain at newidiadau / gwelliannau ymarferol ehangach ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig? | |

**Tabl 14. Cwestiynau ymchwil sy’n ymwneud â gweithredu a nodiadau ar y dull a ddilynwyd i’w hateb**

| Cwestiynau ymchwil | Nodiadau ar y dull a ddilynwyd |
|---|---|
| • Beth oedd cyfranogiad plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr a grwpiau eiriolaeth/â diddordeb yn y broses o gynllunio a gweithredu'r darpariaethau yn y Mesur? | • Roedd cyfranogiad plant a phobl ifanc yn arbennig yn ffocws allweddol yn y cyfarfodydd cynnar.<br>• Trafodwyd cyfranogiad gwahanol grwpiau o randdeiliaid wrth gynllunio a gweithredu'r darpariaethau yn y Mesur ym mhob cyfarfod, fel rhan o drafodaethau ynghylch sut y caiff y Mesur ei weithredu ym mhob ardal.<br>• Mae’r gwaith o werthuso effaith wedi canolbwyntio ar gyfraniad canfyddedig gwahanol grwpiau o randdeiliaid. Er enghraifft, sut mae pobl ifanc wedi dylanwadu ar y dyluniad o ddeunyddiau ar gyfer codi ymwybyddiaeth. |
| • Pa effaith a gafodd cyfranogiad pob un o'r grwpiau uchod? | |
| ▪ Pa ffactorau - er enghraifft adnoddau, ymrwymiad, arbenigedd, arferion a systemau presennol - os o gwbl, sydd wedi creu rhwystrau i, neu hwyluso, gweithredu'r darpariaethau? | • Mae trafodaeth ar gynnydd, gan gynnwys effaith cyd-destun, rhwystrau a galluogwyr, yn eitem sefydlog ar yr agenda mewn cyfarfodydd ymchwil weithredu. |
| ▪ Ym mha ffyrdd, os o gwbl, cafodd cyd-destun - er enghraifft adnoddau, ymrwymiad, arbenigedd, arferion a systemau presennol - effaith ar y broses weithredu? | |

## Atodiad 2. Yr adolygiad o lenyddiaeth

Fel yr amlinellwyd yn adran pedwar, nod yr adolygiad o lenyddiaeth oedd nodi mentrau yn y DU ac yn rhyngwladol sy'n ymestyn hawliau pobl ifanc gyda'r nod o gynyddu eu cyfranogiad mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Roedd yr adolygiad yn chwilio wyth cronfa ddata yn systematig (CERUK - Ymchwil Addysg Gyfredol yn y Deyrnas Unedig; Canolfan Glasgow ar gyfer Plant a’r Gymdeithas; Archif Adnoddau Addysg Digidol; Storfa Ymchwil E-Argraffu y Sefydliad Addysg JSTOR; PsycARTICLES; PsycEXTRA a PsycINFO) , gan ddefnyddio tair set o dermau chwilio, fel y rhestrir yn y blwch isod. Archwiliwyd yr holl eitemau (fel erthygl) a nodwyd drwy'r chwiliad a chafodd y rhai sy'n bodloni'r meini prawf cynnwys ac ansawdd a restrir isod eu cynnwys yn yr adolygiad.

**Termau chwilio**

- Set un: “plant” A/NEU “plentyn” A/NEU “pobl ifanc” A/NEU “Person Ifanc”
- Set dau: “angen addysgol arbennig*” A/NEU “anabledd’ A/NEU “agored i niwed” A/NEU “iechyd” A/NEU “gofal cymdeithasol” A/NEU “addysg”;
- Set tri: “hawliau” A/NEU “cyfranogiad” A/NEU “penderfyniad*” A/NEU “tribiwnlys” A/NEU “anghydfod” A/NEU “apêl” A/NEU “cyfiawnder gweinyddol”.

Ceir manylion llawn y chwiliadau yn atodiad 3. Yn dilyn y broses sifftio gyntaf, yn seiliedig ar adolygiad o deitl a chrynodebau yn gyntaf ac yna adolygiad o'r testun llawn, dim ond un erthygl a oedd yn bodloni pob un o'r meini prawf cynnwys a nodwyd. Nodwyd 34 o erthyglau pellach a oedd yn darparu cefndir cyd-destunol ar hawliau plant a phobl ifanc a phrosesau apêl. Er nad oeddent yn bodloni’r meini prawf cynnwys yn llawn oherwydd, er enghraifft, nad oeddent yn disgrifio nac yn gwerthuso menter a oedd yn canolbwyntio ar ymestyn hawliau i bobl ifanc sy'n agored i niwed (mewn unrhyw faes) neu ymestyn hawliau i bobl ifanc (boed agored i niwed neu beidio) ym meysydd addysg, iechyd neu ofal cymdeithasol, ystyriwyd eu bod yn ddefnyddiol ac yn addas a pherthnasol ar gyfer yr adolygiad hwn.

**Meini prawf cynnwys ac eithrio**

Wedi’u cynnwys

- Cylchgronau ac erthyglau yn y Saesneg.
- Llenyddiaeth a gyhoeddwyd rhwng 1978-2012
- Llenyddiaeth sy'n disgrifio a/neu’n gwerthuso menter sydd â'r prif ddiben o sefydlu neu ymestyn hawliau pobl ifanc, gan gynnwys arferion sy'n gysylltiedig â menter o'r fath. Yn ogystal, mae’n rhaid i’r cyfranogiad hwn fod yn "ystyrlon" ac mae'n rhaid iddo naill ai galluogi plant neu bobl ifanc sy'n agored i niwed i gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, neu alluogi plant neu bobl ifanc (boed yn agored i niwed neu beidio) i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy’n ymwneud â'u hiechyd, addysg neu ofal cymdeithasol.
- mentrau mewn gwlad OECD[68]

Wedi’u heithrio:

- Disgrifiadau neu werthusiadau o fentrau nad ydynt yn galluogi pobl ifanc i gymryd rhan ystyrlon mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. At ddibenion yr astudiaeth hon, caiff cyfranogiad ystyrlon ei ddiffinio fel proses lle ceir o leiaf 'ymgynghori ystyrlon' , hynny yw, bod barn a sylwadau pobl ifanc yn cael eu ceisio a’u hystyried pan fydd y penderfyniad sy’n effeithio arnynt yn cael ei wneud (Sherry, 1969).
- Disgrifiadau neu werthusiadau o fentrau nad ydynt yn gosod yr hawl i gymryd rhan, ond sydd, er enghraifft, dim ond yn gosod rhwymedigaeth ar weithwyr proffesiynol i ymgynghori â phobl ifanc;
- mentrau nad ydynt yn cynnwys plant neu bobl ifanc (h.y. y rhai 0-25 oed);
- mentrau ydynt yn cyrraedd safon ddigonol o ansawdd methodolegol. Y prif fesur o hyn oedd a oedd y casgliadau yn cael eu cefnogi'n ddigonol gan y data (h.y. yr

68 Awstralia; Awstria; Gwlad Belg; Canada; Chile; Y Weriniaeth Tsiec; Denmarc; Estonia; Y Ffindir; Ffrainc; Yr Almaen ; Gwlad Groeg; Hwngari; Gwlad yr Iâ; Iwerddon; Israel; Yr Eidal; Japan; Korea; Lwcsembwrg; Mecsico; Yr Iseldiroedd; Seland Newydd; Norwy; Gwlad Pwyl; Portiwgal; Gweriniaeth Slofac; Slofenia; Sbaen; Sweden; Y Swistir; Twrci; Y Deyrnas Unedig; a'r Unol Daleithiau

erthyglau hynny nad ydynt yn sgorio o leiaf 2 mewn perthynas â rhesymu a hygrededd).

**Tabl 15. Meini prawf ar gyfer barnu ansawdd methodolegol**

| **Dimensiwn** | **Meini Prawf** | **Sgorio** |
|---|---|---|
| Cynllun yr ymchwil | Eglurhad clir a rhesymeg ar gyfer y dull a methodoleg | 1. Aneglur - nid ydym yn gwybod beth a wnaed yn union na pham y cafodd ei wneud.<br>2. Esboniad clir, ond dull anaddas ar gyfer y cwestiwn ymchwil.<br>3. Dull rhesymol, ond heb ei ysgrifennu'n dda iawn, na'i egluro'n glir.<br>4. Esboniad clir a dull priodol.<br>5. Esboniad clir o'r dull; dull hollol briodol i gwestiwn ymchwil; trafodaeth drylwyr o faterion a diffygion methodolegol. |
| Sylfaen dystiolaeth | Ymchwil sylfaenol: Sail y dystiolaeth yn ddigonol i ateb cwestiynau'r astudiaeth | Samplu/dethol<br>1. Sampl yn rhy fach ac yn effeithio ar ddyfnder y dadansoddi/pŵer i gyffredinoli.<br>2. Sampl o faint rhesymol, ond yn dangos rhagfarn glir.<br>3. Sampl o faint rhesymol, ond gallai dal i fod yn rhagfarnllyd.<br>4. Sampl yn ddigon mawr i alluogi dirlawnder a/neu'n haenedig i leihau'r risg o ragfarn |
| | Ymchwil eilaidd: Sail y dystiolaeth yn ddigonol i ateb cwestiynau'r astudiaeth | 1. Ffynonellau data eilaidd yn rhy gyfyngedig a/neu unochrog, gan gyfyngu ar ddyfnder y dadansoddiad /pŵer i gyffredinoli.<br>2. Ffynonellau data eilaidd yn dangos rhagfarn glir (e.e. cyfyngedig i ffynonellau penodol, i grŵp penodol).<br>3. Defnyddiwyd amrediad rhesymol o ffynonellau data, ond gallai dal i fod yn rhagfarnllyd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 4. Defnyddiwyd amrywiaeth eang o ffynonellau, ychydig berygl o ragfarn. |
| Rhesymu a hygrededd | Casgliadau yn cael eu cefnogi gan ddata | 1. Dim cyfiawnhad dros y casgliadau - gwneud honiadau ymhell y tu hwnt i'r data a gyflwynwyd, nid oedd y dystiolaeth yn ddibynadwy.<br>2. Dibynadwyedd cyfyngedig - cwestiynau am ansawdd y dystiolaeth, er enghraifft, maint y sampl, dadansoddiad ddim yn glir neu elfennau ar goll.<br>3. Dadleuon da dros y casgliadau a chasgliadau sy'n briodol i ddulliau/sampl - tystiolaeth o ansawdd da. |

*Addaswyd o Townsley, et al, 2013*

## Atodiad 3. Canlyniadau o chwiliadau

**Tabl 16. Canlyniadau o chwiliadau**

| **Termau chwilio** | **Cronfeydd data a chwiliwyd a nifer yr astudiaethau a nodwyd ar gyfer pob cyfuniad o dermau chwilio** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| "Plentyn" A/NEU "Person ifanc" A/NEU "pobl ifanc" A…. | Ceruk | Canolfan Glasgow ar gyfer Plant a'r Gymdeithas | Archif Adnoddau Addysg Digidol | Storfa Ymchwil y Sefydliad Addysg | JSTOR | PsycArticles, PsycEXTRA, PsycINFO |
| "Angen Addysgol Arbennig*" | 48 | 2 | 30 | 17 | 9 | 5 |
| "Agored i Niwed" | 24 | 2 | 27 | 8 | 56 | 539 |
| "Iechyd" | 50 | 4 | 32 | 13 | 119 | 1646 |
| "Gofal Cymdeithasol" | 21 | 3 | 35 | 15 | 5 | 20 |
| "Hawl" | 2 | 2 | 10 | 17 | 109 | 827 |
| "Cyfranogiad | 42 | 3 | 32 | 17 | 111 | 931 |
| "Apêl" | 0 | 1 | 19 | 9 | 65 | 153 |
| "Tribiwnlys" | 0 | 1 | 10 | 2 | 6 | 29 |
| "Cyfiawnder gweinyddol" | 0 | 0 | 16 | 8 | 9 | 5 |
| "Anghydfod" | 0 | 1 | 12 | 9 | 20 | 60 |